*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 9 TACHWEDD 2020 dros Zoom. Dechreuir y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Nodiadau o'r cyfarfod gafodd ei ganslo ym mis Mawrth 2020 a chadarnhau y penderfyniadau a wnaed**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Y Diweddaraf am Covid-19**

8. **Asesiad Drafft o Berfformiad yr Awdurdod 2019/20**

9. **Cynllun Gwella a Llesiant 2021/22**

10. **Paratoi ar gyfer Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Brexit)**

11. **Her Gyfreithiol i Ddiwygiadau Pensiynau 2015**

12. **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2019-20 a'r Cylch Gorchwyl diweddaraf**

**13. Datganiad Polisi Disgresiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân**

**14. Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2019/20**

**15. Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20**

**16. Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2019/2020**

**17. Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus**

**18. Alldro Amcanol 2020/21**

**19. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/24 a Chyllideb ar gyfer 2021/22**

**20. Dyfarniad Cyflog y Prif Swyddogion 2020**

**21. Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau**

**22. Penodi Aelod Awdurdod Tân ac Achub i Wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau**

**23. Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

**RHAN II**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**24. Trin Elfennau Cyflog ar gyfer Pensiwn**

**Canslo'r cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 16 Mawrth 2020 oherwydd Covid 19**

Oherwydd y sefyllfa digynsail o achos Covid 19, penderfynodd y Cadeirydd ar y cyd â'r Prif Swyddog Tân, ddydd Mercher 11 Mawrth 2020, i ohirio cyfarfod yr Awdurdod a oedd wedi ei drefnu ar gyfer16 Mawrth.

Anfonwyd e-bost gan Gadeirydd yr Awdurdod at yr holl aelodau i'w hysbysu am y sefyllfa a nodi y byddai'r adroddiadau yn cael eu hanfon atynt yn ôl yr arfer. Yn yr e-bost, fe nododd y Cadeirydd y canlynol:

"Cynigaf fod yr eitemau sydd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod, yn enwedig os ydynt yn amodol ar derfyn amser, yn cael eu hystyried wedi eu cymeradwyo o dan awdurdod dirprwyedig oni bai ein bod yn derbyn gwrthwynebiad gan unrhyw Aelod cyn diwedd y dydd, Dydd Gwener 13 Mawrth 2020."

Anfonwyd yr adroddiadau mewn da bryd ddydd Mercher 11 Mawrth 2020, gyda nodyn yn datgan bod "yr adroddiadau a nodi'r isod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Felly, fe'i cyhoeddir yn unol â'r terfynau amser a nodir yn y deddfwriaethau perthnasol ond gyda nodyn yn dweud eu bod yn aros am gadarnhad yr Awdurdod llawn".

1. Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21
2. Strategaeth Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys
3. Datganiad Polisi Tâl 2020/21
4. Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Strategol) (Cymru) 2011

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau mewn perthynas â'r adroddiadau.

Er mwyn cael cofnod o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau a gytunwyd, mae'r canlynol wedi eu cymeradwyo gan y Cadeirydd ar y cyd â'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc.

1 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Nodwyd yr wybodaeth.

2 CYNLLUN ARCHWILIO 2020

2.1 Cyflwynwyd y cynllun archwilio 2020 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w ystyried. Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â'i ffi.

2.2 Nodwyd yr wybodaeth a oedd yn yr adroddiad gan gynnwys y ffi o £60,309 am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

3 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2020/21

3.1 Cyflwynwyd y Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21 i'w gymeradwyo

3.2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny. Mae'r amcanion sydd yn y cynllun wedi cael eu diwygio a'u helaethu yn dilyn adborth gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.3 Mae'r Cynllun angen cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Cadeirydd wedi defnyddio ei awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cynllun ar gyfer ei gyhoeddi er mwyn bodloni'r gofynion cyhoeddi a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff y cynllun felly ei gyhoeddi gydag adendwm yn nodi y caiff y gymeradwyaeth ei chadarnhau'n ôl-weithredol gan yr Awdurdod yn ystod y cyfarfod addas nesaf.

4 ALLDRO AMCANOL 2019/20

4.1 Bydd yr adroddiad hwn yn hysbysu'r aelodau am sefyllfa ragamcanol y gwariant refeniw a chyfalaf , fel ac yr oedd pethau ar 27 Chwefror 2020.

4.2 Nodwyd bod yr Awdurdod yn rhagweld y bydd yn defnyddio ei gyllideb refeniw yn llawn, sef £35.2m yn ystod 2019/20 ac yn rhagweld £1.2m o wariant cyfalaf yn ystod 2019/20.

5 STRATEGAETH GYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Ionawr 2020, er mwyn i'r aelodau adolygu ei gynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau yn cael eu craffu'n effeithiol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Yn dilyn cyflwyniad a oedd yn amlinellu prif feysydd yr adroddiad, bu i'r Aelodau argymell yr adroddiad er cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub.

5.2 Gan fod y Pwyllgor Archwilio eisoes wedi archwilio'r adroddiad hwn a'i argymell ar gyfer ei gymeradwyo, cytunir y gellir cyflwyno'r adroddiad hwn ar gyfer ei gymeradwyo'n ôl-weithredol gan yr Awdurdod yn ystod y cyfarfod addas nesaf.

6 TREFNIADAU CYLLID A LLYWODRAETHU AR GYFER YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Roedd y Prif Swyddog Tân i fod i ddarparu diweddariad llafar yn ystod y cyfarfod. Caiff Aelodau eu diweddaru ynghylch unrhyw ddatblygiadau dros ebost.

7 DATGANIAD POLISI TÂL 2020/21

7.1 Yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub baratoi datganiad polisi tâl blynyddol i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

7.2 Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n ôl-weithredol gan yr Awdurdod yn ystod y cyfarfod addas nesaf.

8 CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL: RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU STATUDOL) (CYMRU) 2011

8.1 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol gydag amcanion cydraddoldeb pob pedair blynedd, yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)2011.

8.2 Mae'r Cynllun yn mynnu cymeradwyaeth yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Cadeirydd wedi defnyddio ei awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cynllun ar gyfer ei gyhoeddi i gyflawni'r gofynion cyhoeddi yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Bydd y cynllun felly'n cael ei gyhoeddi gydag adendwm yn nodi y bydd yn cael ei gymeradwyo'n ôl-weithredol gan yr Awdurdod yn ystod y cyfarfod addas nesaf.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR SAFONAU

9.1 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor Safonau yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub am ei weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

9.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys sawl argymhelliad fel a ganlyn:

(i) nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2019/20;
(ii) cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Safonau;

(iii) cofnodi diolch yr Awdurdod i Antony P Young am fod yn aelod o'r Pwyllgor am wyth mlynedd, a gofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr i ddiolch iddo;
(iv) penodi aelodau etholedig newydd i'r Pwyllgor Safonau;
(v) cadarnhau cyfnod swydd Gill Murgatroyd, sef 4 blynedd o 1 Medi 2019 ymlaen.

9.3 Cytunwyd y bydda'r adroddiad yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth ôl weithredol yr Awdurdod yn ystod y cyfarfod addas nesaf.

ADRODDIAD RHAN II

10 TRIN ELFENNAU CYFLOG AR GYFER PENSIWN

10.1 Roedd yr adroddiad hwn i'w drafod o dan amodau rhan II ac yn rhoi gwybod i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) am gefndir y risg o gyfreitha sy'n deillio o statws pensiwn rhai elfennau o gyflog i weithwyr sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

10.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cyngor cyfreithiol sy'n gyfrinachol ac â braint gyfreithiol am y risg o gyfreitha, ac yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i negodi setliad. Ni chynigir hepgor braint gyfreithiol drwy ddarparu crynodeb o'r cyngor hwnnw yn yr adroddiad hwn i'r Awdurdod.

10.3 Roedd yr argymhellion yn cynnwys nodi cefndir y risg o gyfreitha a'r cyngor cyfreithiol cyfrinachol â braint gyfreithiol a gafwyd.

10.4 O ran yr argymhelliad 'cymeradwyo'r cynnig fod y swyddogion yn negodi i ddatrys y mater cyn i neb fynd i gyfraith yn erbyn yr Awdurdod, neu os eir i gyfraith, bod y swyddogion yn ceisio negodi setliad mewn perthynas â'r achos hwnnw o gyfreitha'. Mae'r Cadeirydd wedi defnyddio ei awdurdod dirprwyedig i alluogi'r swyddogion fwrw ymlaen gyda'r mater hwn.

*This document is also available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Alwen Davies (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi syniad i'r Aelodau o gyswllt y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â GTAGC a phartneriaid allanol yn ystod y pandemig Covid-19.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae adroddiad y Cadeirydd fel arfer wedi bod yn gyfle i ddiweddaru Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd. Fodd bynnag, yn sgil yr effaith a gafodd Covid-19 ar 2020, mae'r adroddiad hwn yn talu teyrnged i holl aelodau staff GTAGC am eu gwaith caled ers Mawrth 2020.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn sgil datblygiad cyflym y pandemig Covid 19, penderfynais ar y cyd â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân i ganslo'r cyfarfod o'r Awdurdod a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 16 Mawrth. Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau'n cytuno bod hyn wedi bod yn benderfyniad doeth ac mai cymeradwyo'r adroddiadau a oedd i fod i gael eu trafod yn y cyfarfod fis Mawrth dros e-bost oedd y ffordd orau ymlaen. Fodd bynnag, fe sylwch fod rhai o'r adroddiadau yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod ac felly maent wedi eu cynnwys ar yr agenda heddiw.

6 Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau'n cytuno bod yr Awdurdod yn falch iawn o holl staff GTAGC a'r modd y maent wedi gweithio i barhau i ddarparu gwasanaethau lle bynnag y bo hynny'n bosibl er mewn ffordd gwbl wahanol i'r arfer. Bu'n rhaid i'r staff addasu i weithio o bell 'dros nos' a lle bo hynny'n bosibl maent wedi cyflawni eu dyletswyddau o'r cartref. Cynhaliwyd Archwiliadau Diogel ac Iach dros y ffôn, mae galwadau i'r Ystafell Reoli wedi cael eu hateb o hyd er o amgylchedd wahanol ac rydym yn hynod ddiolchgar i'r diffoddwyr tân sydd wedi parhau i fynd i'r gweithle ac ymateb i bob digwyddiad.

7 O ran rôl y Cadeirydd, cynhaliwyd sawl cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, dros y ffôn yn i ddechrau ac yn rhithiol wedi hynny. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar 18 Mawrth, 31 Mawrth, 3 Mehefin, 25 Mehefin a 17 Medi. Yn y cyfarfod ar 3 Mehefin fe nododd y Dirprwy Weinidog ei "diolch am yr holl waith y mae'r ATAau a diffoddwyr tân wedi ei gyflawni dros y misoedd diwethaf, gan ganmol eu gwydnwch a'u hymroddiad yn ystod yr argyfwng."

8 Yn ogystal â diweddariadau e-bost y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân, dros yr wyth mis diwethaf.

9 Fe fynychodd y Cadeirydd gyfarfod ymgynghoriad hawliad tâl GTAau Llywodraeth Leol y Cydgyngor Cenedlaethol ar 14 Mehefin a Chyfarfod Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar 9 Hydref.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag aelodau'n mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb ar gyfer teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Simon Smith, Prif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Y Diweddaraf am Covid-19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ers cychwyn pandemig y coronafeirws ym mis Mawrth 2020. Mae Atodiad 1 yn darparu golwg gyffredinol gryno ar yr ystadegau gweithredol sy'n cwmpasu cyfnod y pandemig hyd yn hyn.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am yr hyn mae'r Gwasanaeth wedi'i wneud ers dechrau'r achosion o'r coronafeirws yn 2020, hyd at ddiwedd mis Hydref.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Yn gynharach eleni, ar 12fed Mawrth, wrth iddi ddod yn glir fod y Deyrnas Unedig yn wynebu argyfwng iechyd na welwyd ei debyg, gorchmynwyd y grŵp Parhad Busnes yn y Gwasanaeth i ddechrau'r broses o gloi'r Gwasanaeth i lawr cyn y cyfnod clo a gyhoeddwyd yn ddiweddarach y mis hwnnw. Dyma oedd y nodau strategol allweddol ar y pryd, ac mae'r rhain yn parhau i bennu ymateb cyffredinol y Gwasanaeth: - amddiffyn iechyd cymunedau Gogledd Cymru; amddiffyn iechyd aelodau'r Gwasanaeth; a darparu gwasanaeth gweithredol mor normal ag yr oedd yn bosibl dan yr amgylchiadau.

6 Canslwyd cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a oedd wedi'i drefnu ym mis Mawrth, ynghyd â'r cyfarfodydd a oedd ar y gweill drwy'r gwanwyn a'r haf. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn oherwydd bod disgwyl lefelau uchel o weithgarwch a chyfranogiad gan yr Aelodau a'r swyddogion wrth ddelio â'r achosion o'r coronafeirws, ynghyd â'r ffaith fod angen datblygu datrysiadau technolegol a phrotocolau i sicrhau nad

oedd cyfarfodydd yr Awdurdod yn cael eu peryglu. Drwy Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, darparwyd sail ddeddfwriaethol ar gyfer y newid i drefniadau gweithio arferol yr Awdurdod. Aeth y rhan fwyaf o amser y swyddogion yn y gwanwyn a dechrau'r haf ar waith ochr yn ochr â phartneriaid allweddol yn y gwasanaethau brys eraill, yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd, wrth i'r Gwasanaeth chwarae ei ran lawn yn y gyd-ymdrech genedlaethol. Un nodwedd arbennig o ddyddiau cynnar y pandemig oedd bod nifer o gyn-weithwyr wedi cynnig eu gwasanaethau yn wirfoddol. Mewn nifer gyfyngedig o achosion, derbyniwyd y cynigion hynny.

7 O fewn cyfnod byr o amser, llwyddodd y Gwasanaeth i gyrraedd sefyllfa o weithio bron yn gyfan gwbl o gartref, o ran yr aelodau o'r staff yr oedd eu swyddi'n caniatáu hynny. Bu'r aelodau o'r staff yn gweithio'n galed a diflino, gan lwyddo, bob tro, i ganfod datrysiadau i'r problemau technegol a logisteg a grewyd gan y newid pwyslais hwn. Law yn llaw â mwy o weithio gartref, roedd yn bwysig fod cyfathrebu mewnol yn digwydd yn effeithiol a bod mesurau'n cael eu sefydlu i ddelio nid yn unig â materion iechyd corfforol ond â materion iechyd meddwl hefyd. Cafodd ein safleoedd rheng flaen (gorsafoedd tân, Ystafell Reoli'r Gwasanaeth, gweithdai'r fflyd a storfeydd cyfarpar) hefyd eu gwneud mor ddiogel â phosibl o'r coronafeirws, er mwyn darparu'r amrediad llawn o wasanaethau ledled y Gogledd. Yn anochel, bu'n rhaid cwtogi neu roi'r gorau i rai gweithgareddau er mwyn cefnogi'r nodau strategol. Rhoddwyd stop i bob pwrpas ar y gwaith recriwtio ar gyfer staff amser cyflawn, staff wrth gefn a phrentisiaid newydd. Cafodd 'hyfforddiant parhad' ei atal dros dro hyd nes gellid datblygu rhaglen wedi'i threfnu'n iawn i roi ystyriaeth i ofynion diogelwch mewn perthynas â'r coronafeirws. Aethpwyd ati i gynnal ymweliadau diogelwch yn y cartref dros y ffôn pan fo hynny'n bosibl, gan dargedu'r bobl oedd fwyaf mewn perygl.

**GWYBODAETH**

8 Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'n braf cofnodi mai bach iawn o effaith uniongyrchol y mae'r coronafeirws wedi'i chael ar y gweithlu. Dim ond 5 aelod o'r staff oedd wedi cael prawf positif o'r coronafeirws erbyn diwedd mis Hydref. Yn naturiol, mae'n debygol y bydd nifer uwch o lawer wedi cael y feirws ond heb gael eu profi, a bydd rhai eraill wedi bod yn asymptomatig. Hefyd drwy gydol y cyfnod, mae aelodau o'r Gwasanaeth wedi gorfod hunanynysu neu wedi gorfod cael eu gosod dan gwarantin ond ni fu cyfnod o gwbl, hyd yn hyn, pryd bu lefel arwyddocaol o absenoldebau oherwydd effeithiau uniongyrchol y coronafeirws. Fodd bynnag, cafwyd effaith o ran y sefydliad o ganlyniad i'r rheidrwydd i aelodau o'r staff gysgodi yn ôl cyngor gan y llywodraeth. Lliniarwyd rhag effeithiau hyn, i ryw raddau, drwy drefnu i nifer o'r staff a oedd yn cysgodi i weithio o gartref, ond yn anffodus, nid oedd hyn yn bosibl ymhob achos.

9 Un datblygiad arwyddocaol ehangach oedd y trefniant cenedlaethol rhwng Undeb yr FBU, y Cyflogwyr Cenedlaethol a Chyngor y Prif Swyddogion Tân, o'r enw cytundeb "Teiran" ("*Tripartite" agreement*). Er mwyn cynorthwyo'r ymdrech genedlaethol i drechu'r feirws, fe wnaeth y cytundeb hwn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau, a oedd hyd hynny y tu allan i swyddi diffoddwyr tân y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Er bod y cytundeb wedi cael ei ddefnyddio lawer yn Lloegr ac mewn rhannau eraill o Gymru, dim ond ym mis Hydref y cafodd staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu defnyddio dan delerau'r cytundeb pan ddarparwyd gyrwyr, ar gais, i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae'n bosibl y gofynnir am weithgareddau eraill, sydd o fewn y cytundeb, yn ystod yr ail don dros yr hydref/gaeaf.

10 Un o effeithiau nodedig y cyfnod clo cenedlaethol oedd cynnydd amlwg, ond dros dro, yn argaeledd staff y gorsafoedd tân wrth gefn, a thrwy hynny, yn argaeledd y peiriannau. Er bod y rhesymau amrywiol dros y cynnydd hwn bron yn sicr o fod yn gysylltiedig ag amgylchiadau'r cyfnod clo, mae'n debygol mai bodolaeth cynllun ffyrlo'r llywodraeth oedd y prif reswm pam roedd y cynnydd mor fawr. Nid oes tystiolaeth y bydd cynnydd yn yr argaeledd yn digwydd eto yn y cyfnod clo lleol / cyfnod atal byr.

11 Mae swyddogion diogelwch tân arbenigol wedi cael llawer o gysylltiad â'r trefniadau i gyflwyno ysbytai dros dro mewn tri lleoliad yng Ngogledd Cymru. Bydd ysbyty arferol yn cael ei adeiladu yn benodol ar gyfer gallu sicrhau bod cleifion sy'n methu symud yn gallu yn cael eu tynnu allan o'r adeilad mewn argyfwng, sef agwedd gymhleth a risg-gritigol sy'n gofyn am lefel uchel o sgil. Gan fod angen bod yn fodlon â'r trefniadau diogelwch tân arfaethedig, roedd rhaid i swyddogion y Gwasanaeth ddefnyddio eu harbenigedd technegol, ynghyd â'u profiad helaeth er mwyn dod i ganlyniad boddhaol.

12 Gan fod y cyfyngiadau cenedlaethol wedi cael eu llacio yn ystod yr haf, bu'n rhaid i'r swyddogion ystyried sut i ymateb. Y dull a fabwysiadwyd oedd parhau'n driw i'r bwriad strategol a osodwyd eisoes a pharhau i fod yn bwyllog, yn enwedig o ystyried bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn disgwyl "ail don" o'r coronafeirws yn yr hydref a'r gaeaf yn 2020/21. Felly, ailgyflwynwyd 'hyfforddiant parhad' fesul cam, a hynny yn gysylltiedig ag angen y sefydliad. Ailgyflwynwyd yr ymweliadau wyneb yn wyneb mewn cartrefi, ond dim ond mewn achosion lle roedd y risg yn uchel i'r unigolyn.

13 Ym mis Medi, dechreuwyd ar y gwaith o baratoi ar gyfer y tebygolrwydd y byddai cyfnodau clo lleol yn cael eu cyflwyno. Roedd y gwaith yn cynnwys diwrnod cyfan o ymarferiad llawn i ganfod pa broblemau unigryw a allai ddigwydd mewn cyfnod clo lleol, ac i gyflwyno mesurau i liniaru rhag y problemau hynny. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Gogledd Cymru dan gyfyngiadau pellach oherwydd y "cyfnod atal byr" a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, wrth i'r ail don a ddisgwylid effeithio ar y wlad. Mae'r trefniadau gweithredol a sefydlwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn profi i fod yn gadarn hyd yma, ond mae'n bosibl y bydd angen eu hadolygu os bydd tarfu difrifol yn digwydd ar weithrediadau'r Gwasanaeth, er enghraifft niferoedd mawr o staff yn methu dod i'r gwaith.

14 Er bod egnïon wedi bod yn cael eu canolbwyntio, wrth gwrs, ar ddelio â'r pwysau uniongyrchol a dybryd a achoswyd gan y pandemig, cydnabuwyd y bydd rhaid newid ffyrdd o weithio ar ôl i'r argyfwng fynd heibio. Er mwyn gwneud hyn, sefydlwyd Cell Trawsnewid i gynorthwyo i ddatblygu siâp y trefniadau gweithio yn y dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Yn ei ymateb i'r pandemig hyd yma, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio sicrhau bod ei weithredoedd wedi bod yn gyson â'r dyhead hirdymor i leihau niwed i'r gymuned ac i'r staff. |
| Cyllideb | Ni chafwyd unrhyw effaith negyddol arwyddocaol ar y gyllideb hyd yma, er y bydd angen cynnal gwerthusiad llawn, maes o law, o'r materion mwy hirdymor sy'n gysylltiedig â newidiadau i arferion gweithio. |
| Cyfreithiol | Mae newidiadau interim i drefniadau gweithio'r Awdurdod yn cael eu caniatáu gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020. |
| Staffio | Fel y nodir yn yr adroddiad, ni fu unrhyw effeithiau mawr ar y lefelau staffio oherwydd y coronafeirws yn uniongyrchol, er i ni wneud newidiadau angenrheidiol i drefniadau gweithio staff a oedd yn cysgodi. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim, ar hyn o bryd. |
| Risgiau | Mae dyfodiad "ail don" yn golygu nifer o risgiau i'r Awdurdod o ran iechyd y staff, yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae risgiau posibl i sefyllfa ariannol yr Awdurdod os bydd angen lefelau uchel o wariant yn ystod misoedd y gaeaf, ac nid oes unrhyw drefniant i adfer hynny. |


**Atodiad 1** **Appendix 1**

## Gweithgarwch rhwng Mawrth 1af a Hydref 25ain

## Activity between March 1st and October 25th

Aeth y Gwasanaeth at 3,283 o ddigwyddiadau brys eleni - 1% yn llai na'r llynedd.

The Service attended 3,283 emergency incidents this year - 1% fewer than last year.




## Tanau Fires

Bu gostyngiad eleni yn nifer y prif danau, ond cynnydd o dros 10% yn nifer y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt.

There was a reduction in primary fires this year, but an increase of over 10% in the number of secondary fires attended.

| | 2019 | +/- | | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 634 | ↓ | -59 | -9% | 575 | Primary fires |
| Tanau eilaidd | 650 | ↑ | +66 | +10% | 716 | Secondary fires |
| Tanau simnai | 66 | ↑ | +4 | +6% | 70 | Chimney fires |
| **Cyfanswm** | **1,350** | ↑ | **+11** | **+1%** | **1,361** | **Total** |

## Tanau mewn anheddau — Fires in dwellings

Pob blwyddyn mae cyfran sylweddol o danau domestig yn cychwyn o ganlyniad i goginio, ac yn aml maent yn gallu arwain at anafiadau. Er bod mwy o bobl wedi treulio amser gartref yn ystod y cyfnod clo cynnar, dim ond cynnydd bach iawn a gafwyd yn y math yma o danau, o bosibl oherwydd bod pobl wedi bod yn fwy gwyliadwrus nag arfer. Gall y ffaith fod pobl gartref i allu rhagweld problemau cyn iddynt ddatblygu hefyd fod wedi cyfrannu at y gostyngiad o 47% yn nifer y tanau a achoswyd gan declynnau neu beiriannau domestig diffygiol.

Every year a significant proportion of domestic fires start as a result of cooking, and can often lead to injuries. Despite more people spending time at home during the early lockdown, there was only a marginal increase in these types of fires, possibly because people were being more vigilant than usual. The fact that people were at home to anticipate problems before they developed may have contributed also to the 47% reduction in the number of fires caused by faulty domestic equipment or appliances.

| | **2019** | **+/-** | | | **2020** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl danau damweiniol mewn anheddau | 230 | ↑ | + 10 | + 4% | 240 | All accidental fires in dwellings |
| Oherwydd coginio | 85 | ↑ | + 1 | +1% | 86 | Due to cooking ** |
| Oherwydd nam ar offer neu declyn | 45 | ↓ | -21 | -47% | 24 | Due to faulty equipment or appliance** |

**damweiniol a bwriadol / accidental and deliberate

## Tanau damweiniol  Accidental fires

Gall cynnydd mewn gwaith cynnal a chadw o gwmpas y cartref yn ystod y cyfnod clo fod wedi cyfrannu at y cynnydd mewn tanau mewn gerddi, siediau gardd a garejys preifat, yn ogystal â mewn sbwriel rhydd (gan gynnwys mewn gerddi) a chynwysyddion sbwriel mawr (e.e. sgipiau).

An increase in home maintenance during the lockdown period may have contributed to the increase in fires in private gardens, garden sheds and garages, and also in loose rubbish (including in gardens) and large refuse containers (e.g. skips).

| | **2019** | **+/-** | | | **2020** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A gychwynnodd yn y gegin, ystafell fyw neu ystafell wely* | 279 | ↓ | -47 | -17% | 232 | That started in the kitchen, living room or bedroom** |
| Mewn gerddi a rhandiroedd | 7 | ↑ | +17 | +243% | 24 | In gardens and allotments |
| Mewn siediau gardd preifat | 8 | ↑ | +5 | +63% | 13 | In private garden sheds |
| Mewn garejys preifat | 6 | ↑ | +8 | +133% | 14 | In private garages |
| Mewn sbwriel rhydd | 103 | ↑ | +49 | +48% | 152 | In loose refuse |
| Mewn cynwysyddion sbwriel mawr | 14 | ↑ | +12 | +86% | 26 | In large refuse containers |


**damweiniol a bwriadol / accidental and deliberate

## Tanau eilaidd  Secondary fires

Er i'r nifer o danau eilaidd gynyddu eleni, roedd canran is nag arfer ohonynt wedi cael eu cynnau yn fwriadol.

Although secondary fires increased this year, a lower proportion than usual of them had been started deliberately.

| | **2019** | **+/-** | | | **2020** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Damweiniol | 351 | ↑ | +141 | +40% | 492 | Accidental |
| Bwriadol | 299 | ↓ | -75 | -25% | 224 | Deliberate |
| **Cyfanswm** | **650** | ↑ | **+66** | **+10%** | **716** | **Total** |

## Archwiliadau Diogel ac Iach  Safe and Well Checks

Ni fu'n bosibl cwblhau cynifer o Archwiliadau Diogel ac Iach ag arfer eleni, ond o'r rhai a gwblhawyd, targedwyd cyfran uwch at yr aelwydydd hynny lle'r ystyriwyd bod y risg tân yn uchel.

It was not possible to complete as many Safe and Well Checks as usual this year, but of the ones that were completed, a greater proportion were targeted at those households where the fire risk was considered to be high.

| | 2019 | +/- | | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl archwiliadau | 12,266 | ↓ | -3,544 | -29% | 8,722 | All checks |
| Mewn cartrefi risg tân uchel | 7,067 | ↓ | -1,032 | -15% | 6,035 | In high fire risk households |
| Y ganran a oedd mewn cartrefi risg tân uchel | 58% | ↑ | - | - | 69% | The percentage that were in high fire risk households |

## Ar y ffyrdd  On the roads

Bu lefelau traffig ar y ffyrdd yn is yn ystod y cyfnod hwn, ac o ganlyniad cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau cerbyd neu wrthdrawiadau rhwng cerbydau y bu'n rhaid i'r Gwasanaeth ddelio â nhw. Yn ddiddorol, bu gostyngiad sylweddol hefyd yn nifer y tanau bwriadol mewn cerbydau.

Road traffic levels were lower during this period, which had the effect of reducing the number of times the Service was called to deal with a vehicle fire or a collision. Interestingly, there was also a significant reduction in the number of deliberate vehicle fires.

| Mewn cerbydau | 2019 | +/- | | | 2020 | In vehicles |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol | 136 | ↓ | - 45 | -33% | 91 | Accidental fires |
| Tanau bwriadol | 53 | ↓ | -16 | -30% | 37 | Deliberate fires |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 135 | ↓ | -71 | -53% | 64 | Road traffic collisions |

*This document is also available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Asesiad Drafft o Berfformiad yr Awdurdod 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i gael cymeradwyaeth yr Aelodau, asesiad drafft o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2019/20 mewn perthynas â'r canlynol:

(i) ei gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion Gwella a Llesiant tymor hir a'i Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig; a
(ii) ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Y llynedd gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant tymor hir. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy gwblhau'r gweithgareddau a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 yn llwyddiannus .

3 Gwnaed cynnydd cyson yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod ar gyfer 2016-20 yn ogystal; ac mae'r Awdurdod wedi parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sydd yn berthnasol iddo.

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr Aelodau yn:

(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2019/20 (yn amodol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen), sydd eisoes wedi ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn y dyddiad terfynol statudol, sef 30/10/20; a
(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi taflen syml i grynhoi elfennau allweddol yr adroddiad asesu.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, rhaid i'r Awdurdod rhoi cyfrif cyhoeddus o'i berfformiad, ei gynnydd a'i gydymffurfiaeth. Mae'r darnau o ddeddfwriaeth hyn yn cynnwys:

i. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sydd yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol ac yn symud Cymru yn nes at gyflawni ei hamcanion llesiant. Ar ôl gosod yr amcanion tymor hir, rhaid i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac i adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol am y cynnydd a wnaed ganddo.
ii. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sydd yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion gwella, a'i fod yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad, bob blwyddyn erbyn 31 Hydref, am y flwyddyn ariannol flaenorol.
iii. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 sydd yn mynnu bod Awdurdodau Tân ac Achub yn llunio cynllun cydraddoldeb strategol ac yn adrodd bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ynghylch y cynnydd a wnaed ganddo tuag at gyflawni'r cynllun hwnnw yn y flwyddyn ariannol flaenorol.
iv. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sydd yn mynnu bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac adrodd yn flynyddol erbyn 30 Medi ar ei gydymffurfiaeth â'r Safonau hynny.

7 Er hwylustod, mae'r cynnydd mewn perthynas â phob un o'r pedwar gofyniad deddfwriaethol a nodir uchod wedi cael eu cyfuno mewn un ddogfen adrodd ar wefan yr Awdurdod.

**GWYBODAETH**

8 Mae rhannau agoriadol yr adroddiad ar yr Asesiad o Berfformiad Blynyddol eleni (Atodiad 1) yn disgrifio'r gofynion adrodd cyfreithiol ac yn cyflwyno gwybodaeth am yr ardal a wasanaethir gan yr Awdurdod. Mae hyn yn darparu cyd-destun er mwyn iddo fod yn haws deall y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurod a'i gyfraniad tuag at lesiant cymunedau Gogledd Cymru.

9 Mae rhan ganol adroddiad yr asesiad yn darparu cyfrif manwl o'r camau penodol a gymerodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i gyflawni ei ddau amcan gwella a llesiant tymor hir. Gan ymateb i'r argymhellion a gafwyd yn ddiweddar gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae mwy o bwyslais wedi cael ei roi yn yr adroddiad eleni ar naratif ac astudiaethau achos, er mwyn dangos y gwahaniaeth go iawn y mae gwaith yr Awdurdod yn ei wneud i fywydau pobl.

10 Llwyddwyd i gyflawni pob un o'r pedwar ar ddeg o weithgareddau yr oedd yr Awdurdod wedi bwriadu'u cyflawni yn ystod y flwyddyn. Gellir gwrthbwyso'r diffyg o 5% yn nifer yr archwiliadau diogel ac iach a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r ffaith bod 30% o'r archwiliadau hynny wedi eu cyfeirio at aelwydydd mwy bregus trwy atgyfeiriadau gan asiantaethau partner. Y targed ar gyfer y flwyddyn oedd llwyddo i gyflawni o leiaf 25% ohonynt drwy atgyfeiriadau.

11 Mae rhan ganol yr adroddiad asesu hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am lefel cydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Fel ac yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2020, roedd bron i 83% o'r 866 o weithwyr a gyflogir gan y Gwasanaeth wedi hunan asesu neu gael eu hasesu â bod â rhywfaint o sgiliau iaith Gymraeg o leiaf, a dynodwyd bod 34% o'r rheiny yn siaradwyr Cymraeg rhugl. O'r swyddi newydd neu wag a gafodd eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn roedd 41% wedi eu dynodi fel swyddi "Cymraeg hanfodol". Am y drydedd flwyddyn yn olynol, ni ddaeth unrhyw gwynion i law mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r camau niferus gan yr Awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg a mynd ati'n rhagweithiol i annog dewis iaith i'w holl staff a defnyddwyr hefyd wedi eu disgrifio yn yr adran hon.

12 Gan fod rhaid adrodd yn erbyn Safonau'r Gymraeg erbyn diwedd Medi, cafodd yr wybodaeth hon ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fis diwethaf, ac mae wedi ei gynnwys eto er hwylustod yn yr adroddiad asesu perfformiad blynyddol.

13 Mae'r cynnydd a waned yn ystod 2019/20 tuag at gyflawni pob un o chwe amcan cydraddoldeb strategol yr Awdurdod hefyd wedi ei ddisgrifio yn rhan ganol yr adroddiad asesu. Trwy lu o gamau gweithredu mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gyfrannu tuag at wella agweddau o fywydau pobl dan bob un o'r meysydd pwnc sef: bywyd ac iechyd; cyflogaeth; addysg; diogelwch personol; cynrychiolaeth a llais; mynediad at wasanaethau, gwybodaeth ac adeiladau.

14 Mae rhannau olaf yr adroddiad asesu yn cynnwys gwybodaeth am y dangosyddion perfformiad yng Nghyd-destun Cymru ac yn disgrifio'r modd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ymrwymiadau dan 'Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau Cymru gyfan'. Mae ei weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- delio gyda 12,304 o alwadau brys 999/112 ;
- mynd at 4,872 o ddigwyddiadau brys, yr oedd 1,950 ohonynt yn danau;
- cyrraedd 82% o danau mewn anheddau mewn llai na 15 munud (sydd yn cynnwys yr amser a gymerwyd i gyrraedd yr orsaf dân a theithio i'r digwyddiad);
- cwblhau 21,251 o sgyrsiau diogelwch tân mewn ysgolion i blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1 i 4.

15 Mae gwybodaeth ychwanegol ar ddiwedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniad y gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru i edrych yn benodol ar y modd y mae'r Awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau neu bolisïau, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Gan ganolbwyntio ar ddau faes penodol o waith diweddar y Gwasanaeth i a) lleihau achosion o logi bwriadol a b) dylunio a datblygu hwb adnoddau addysgol ar-lein, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod gan yr awdurdod bocedi o wasgarweddau ymgysylltu da y gall adeiladu arnynt er bod lle i wella o ran datblygu dull mwy integredig tuag at gyfranogi.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion llesiant | Mae'r asesiad hwn yn disgrifio cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2019/20 mewn perthynas â chyflawni ei amcanion llesiant tymor hir. |
| Cyllideb | Ni chanfuwyd dim. |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen gyfun yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod dan y canlynol: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011; a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae'r goblygiadau i'r nodweddion gwarchodedig yn cael sylw yn yr asesiad drafft. |
| Risgiau | Ni chanfuwyd dim. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Cadarnhau'r sail i Gynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2021/22.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Bob mis Mawrth, mae'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn cyhoeddi Cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, i nodi'r amcanion gwella a llesiant y mae wedi cytuno arnynt ac i amlinellu ei gyfraniad at eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

3. Er nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn pennu pa mor aml y dylid newid yr amcanion strategol sydd gan gorff cyhoeddus, disgwylir y caiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn, a'u newid neu eu diwygio os oes angen.

4. Dros yr wythnosau nesaf, bydd y swyddogion yn paratoi Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2021/22, er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Mawrth 2021. I wneud hyn, mae angen i'r Awdurdod gadarnhau a yw'n dymuno parhau i fynd ynglŷn â'r amcanion a fabwysiadodd ym mis Mawrth 2020, ynteu a yw am fynd ynglŷn â chyfres ddiwygiedig o amcanion.

5. O ystyried pa mor ddiweddar y mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu ei gyfres gyfredol o amcanion, y ffaith fod pandemig Covid-10 wedi cael effaith gyfyngol, nad oedd modd ei hosgoi, ar y cynnydd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r newid sy'n debygol o ddigwydd i aelodaeth yr Awdurdod ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, argymhellir bod yr Awdurdod yn cario ei amcanion presennol drosodd i 2021/22.

**ARGYMHELLIAD**

6. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo mynd ati i ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2021/22, a bod hwnnw'n seiliedig ar barhau â chyfres gyfredol yr Awdurdod o amcanion gwella a llesiant, fel y nodir ym mharagraff 12.

**CEFNDIR**

7. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ynghyd ag amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor byr ac ystyried llesiant cenedlaethau o bobl yn y dyfodol yn y tymor hir. Rhaid i'r amcanion llesiant a fabwysiedir gan yr Awdurdod gyfrannu at nodau llesiant Cymru, a rhaid i'r Awdurdod fod yn gallu dangos ei fod yn cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion a ddatganwyd ganddo.

9. Mae canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn datgan y caiff cyrff cyhoeddus benderfynu newid un o'u hamcanion llesiant, ond y dylai unrhyw amcanion newydd fod yn seiliedig ar y graddau y maent yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf gan y corff cyhoeddus at nodau llesiant Cymru.

10. Dyma saith nod llesiant Cymru: Cymru iachach; Cymru gydnerth; Cymru lewyrchus; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

11. I ymateb i adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2019, fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu cyfres ddiwygiedig a helaethach o amcanion ar gyfer 2020/21 ac ymlaen, ac a oedd yn cyd-fynd yn fwy amlwg â nodau llesiant Cymru.

12. Dyma amcanion gwella a llesiant diwygiedig yr Awdurdod:
    - **Amcan 1**: gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru.
    - **Amcan 2**: parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella eu cadernid.
    - **Amcan 3:** gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
    - **Amcan 4**: parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.
    - **Amcan 5:** cynnal gweithlu sy'n addas o amrywiol, cadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg.
    - **Amcan 6:** datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd.
    - **Amcan 7:** sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

13. Mae peth hyblygrwydd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff cyhoeddus osod eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n gweddu i'w rôl a'u swyddogaethau, ond y mae'r Ddeddf yn mynnu bod asesiadau'n cael eu cynnal bob blwyddyn ynghylch a yw'r amcanion llesiant hynny yn dal yn briodol ai peidio. Felly, nid oes angen adolygiad llawn o saith amcan yr Awdurdod tan ar ôl diwedd blwyddyn 2020/21.

**GWYBODAETH**

14. Yng nghyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn gynnar yn 2020, bu'r Aelodau'n trafod meysydd ar gyfer cyfeiriad posibl yn y dyfodol, a buont yn canolbwyntio ar ddau faes pwnc, sef: datblygu strategaeth amgylcheddol; a'r goblygiadau posibl oherwydd y newidiadau a ddisgwylir i'r rôl orfodi sydd gan yr Awdurdod ym maes diogelwch tân.

15. Eleni, mae pandemig Covid-19 wedi amharu ar agweddau ar y gwaith o ddatblygu strategaeth amgylcheddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r rhain yn ailddechrau'n raddol erbyn hyn, ac mae'r ymrwymiad polisi sydd gan Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y sector gyhoeddus yn garbon-niwtral erbyn 2030, yn parhau.

16. Mae gwaith amgylcheddol yr Awdurdod eisoes yn cael sylw drwy Amcan 6, felly nid oes angen datblygu amcan newydd.

17. Er nad yw rôl orfodi'r Awdurdod ym maes diogelwch tân yn y dyfodol wedi ei chadarnhau eto, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno newidiadau cynhwysfawr i'r gyfraith ym maes diogelwch tân, rheoliadau adeiladu a thai. Roedd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 23 Hydref 2020 yn cadarnhau y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu nodi mewn Papur Gwyn yn gynnar y flwyddyn nesaf.

18. Mae rôl weithredu'r Awdurdod ym maes diogelwch tân yn cael sylw eisoes drwy Amcan 1 (diogelwch y cyhoedd) ac Amcan 5 (sgiliau'r gweithlu), felly nid oes angen datblygu amcan newydd.

19. Gellir defnyddio'r amcanion sydd gan yr Awdurdod eisoes i adrodd ynghylch ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru, felly nid oes angen creu amcanion newydd.

20. Gan gadw mewn cof:
   a) pa mor ddiweddar y gwnaeth yr Awdurdod fabwysiadu cyfres newydd o amcanion gwella a llesiant (yn dilyn adborth gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol);
   b) nad oedd modd osgoi'r ffaith fod y gweithgarwch arfaethedig eleni wedi arafu oherwydd pandemig Covid-19, er bod cynnydd da wedi cael ei wneud; ac
   c) y newid sy'n debygol o ddigwydd yn aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022;

   nid oes rheswm i'n perswadio ar hyn o bryd fod angen diwygio'n sylfaenol, nac ehangu, cyfres yr Awdurdod o amcanion hirdymor.

21. Felly, cynigir bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu cynllun gwella a llesiant drafft ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar barhau â'r amcanion gwella a llesiant sydd gan yr Awdurdod eisoes, a hynny er mwyn i'r Awdurdod llawn ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2021.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol o gytuno ar amcanion hirdymor yr Awdurdod, a'r camau byrdymor cysylltiedig tuag at eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae perthynas rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2021/22 a'i adnoddau ariannol. Bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 yn cael ei chymeradwyo ym mis Tachwedd 2020 a bydd wedi cael ei chadarnhau erbyn canol mis Chwefror 2021. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth ym maes cynllunio gwelliannau a ddeddfwriaeth ym maes llesiant. |
| Staffio. | Ni wyddom am effaith ar y lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr effaith a gaiff camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol yn y gwaith o'u datblygu. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau o fethu â chydymffurfio â'r gfyraith, ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (01745 535254)** |
| Pwnc | **Paratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Brexit)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y camau sy'n cael eu cymryd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) i baratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn y refferendwm yn 2016 ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, mae GTAGC wedi bod yn ystyried pa effaith y gallai gadael yr UE ei chael ar yr Awdurdod a/neu ar weithrediadau'r Gwasanaeth yng Ngogledd Cymru.

3 Yn fewnol, mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal i nodi a cheisio lleddfu chwilio am unrhyw broblemau posibl o ran darparu gwasanaethau tân ac achub. Yn allanol, mae GTAGC wedi bod yn gweithio drwy ei aelodaeth o'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ganfod a lleihau unrhyw effeithiau ar y gymuned ehangach yng Ngogledd Cymru.

4 Drwy weithio'n annibynnol a gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, mae GTAGC wedi ceisio canfod yr effeithiau posibl a'r camau y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**ARGYMHELLION**

5 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

6 Nid yw'r adroddiad wedi cael eu ystyried gan Aelodau yn flaenorol.

**CEFNDIR**

7 Canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 oedd y byddai'r DU yn gadael yr UE. Ar 29 Mawrth 2017, fe wnaeth DU danio Erthygl 50 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd i ddechrau ymadawiad y DU o'r UE, sef Brexit. Newidiodd hyn ac fe adawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020 a chychwyn cyfnod pontio a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

**GWYBODAETH**

8 Cwblhawyd gwaith cynllunio mewnol yn ystod 2019 ac mae hyn wedi parhau i ganfod effeithiau a risgiau posibl yn deillio o ymadawiad y DU o'r UW, ac i benderfynu ar fesurau lliniaru a'u rhoi ar waith.

9 Mae nifer o faterion posibl yn gyffredin i lawer o rannau o'r sector cyhoeddus ac maent yn ymwneud, er enghraifft, â'r posibilrwydd o darfu ar y cadwyni cyflenwi, ac effaith straen ariannol mewn economi ansicr yn dilyn y cyfnod pontio hwn.

10 Yng Ngogledd Cymru yn benodol, rhoddir ystyriaeth, er enghraifft, i seilwaith ffyrdd a rheoli ffiniau mewn perthynas â phorthladd Caergybi.

11 Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn gweithio â phartneriaid yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ganfod risgiau cyfunol neu lle mae angen gweithio ar y cyd i leihau effeithiau negyddol posibl ar, er enghraifft, aelodau o'r cyhoedd a chymunedau lleol. Yng Ngogledd Cymru yn benodol rhoddwyd ystyriaeth, er enghraifft, i isadeiledd ffyrdd a rheoli ffiniau ym mhorthladd Caergybi. Mae trafodaethau gyda'r Grŵp Cydlynu Strategol ar y gweill.

12 Bu llawer o'r gwaith hwn yn ddamcaniaethol o reidrwydd, ac yn realistig ni ellid gwneud fawr mwy na chadw golwg gan aros am arwyddion mwy pendant o risg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae ail gynllun llesiant yr Awdurdod yn ymwneud â hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well. Gallai tarfu, er enghraifft, ar y cadwyni cyflenwi effeithio o bosibl ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r amcan hwn. |
| Cyllideb | Straen ychwanegol posibl ar gyllideb Awdurdod o ganlyniad i fesurau lliniaru a/neu effaith yn fwy cyffredinol ar economi'r DU ar ôl y cyfnod pontio. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswyddau cyfreithiol ar yr Awdurdod i gynllunio ar gyfer, a cheisio lliniaru, risgiau a allai effeithio ar ei allu i ddarparu ei wasanaethau statudol ac i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i wneud hynny. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Risgiau'n gysylltiedig â pharhau i ddarparu gwasanaethau a sicrhau adnoddau ariannol digonol mewn economi ansicr yn y DU ar ôl Brexit (gweler uchod). |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown, Rheolwr Pensiynau** |
| Pwnc | **Her gyfreithiol i ddiwygiadau pensiynau 2015** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) ynghylch yr her gyfreithiol i weithredu'r diwygiadau i'r cynllun pensiwn diffoddwyr tân a ddaeth i rym yn 2015. Cyflwynodd Undeb y Brigadau Tân (FBU) yr her gyfreithiol lwyddiannus ar ran ei aelodau ar sail gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran. Mae gan y canlyniad oblygiadau ar draws holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn proses gyfreithiol hir, dyfarnodd y Llys Apêl o blaid yr hawlwyr a chadarnhaodd y dyfarniad a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2018 nad oedd cyfiawnhad dros y gwahaniaethu ar sail oedran sy'n gynhenid yn niwygiadau pensiynau 2015. Gelwir yr achos yn Ddyfarniad McCloud/ Sargeant (y Dyfarniad).

3 Ym mis Mehefin 2019, fe wnaeth y Goruchaf Lys wrthod i Lywodraeth y DU gael hawl i apelio ac mae'r mater bellach yn destun proses y tribiwnlys cyflogaeth i bennu rhwymedi. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd y canlyniad yn berthnasol i holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn y DU ac nad oes angen i aelodau unigol gyflwyno hawliadau am rwymedi.

4 I gynorthwyo â'r broses o bennu rhwymedi priodol, fe wnaeth Trysorlys EM gyhoeddi dogfen ymgynghorol ar 16 Gorffennaf 2020. Roedd y ddogfen yn nodi ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws holl gynlluniau'r sector cyhoeddus. 11 Hydref 2020 oedd y dyddiad olaf i ymateb i'r ymgynghoriad, ac atodir ymateb yr Awdurdod yn Atodiad A.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi ei drafod gan y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio. Bu i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu trafod gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i aelodau nodi:

(i) cefndir dyfarniad McCloud/Sargeant;
(ii) y sefyllfa bresennol o ran rhwymedi;
(iii) oblygiadau ariannol y rhwymedi; a
(iv) yr ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd ar ran yr Awdurdod.

## CEFNDIR

7 Yn dilyn adolygiad yr Arglwydd Hutton o bensiynau'r sector cyhoeddus yn 2011, fe wnaeth Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (2013) ddarparu'r fframwaith cyfreithiol i ddiwygio cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Roedd y diwygiadau yn cynnwys cyfyngu ar gynlluniau ar sail cyflog terfynol a oedd yn bodoli ar y pryd, cynyddu oedrannau ymddeol a chyflwyno cynlluniau sy'n seiliedig ar gyfartaledd gyrfa.

8 Yn ystod 2015, diwygiwyd holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnwys cynllun y diffoddwyr tân, er mwyn darparu buddion diffiniedig ar sail cyfartaledd gyrfa a chynyddu oedran ymddeol arferol yr aelodau. Er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn, diwygiwyd rheoliadau'r cynllun pensiwn.

9 Roedd y rheoliadau diwygiedig hefyd yn darparu amddiffyniad ar gyfer aelodau cynlluniau ar sail cyflog terfynol a oedd eisoes yn bodoli. Roedd yr amddiffyniad hwn yn seiliedig ar oedran ac roedd aelodau a oedd wedi troi'n 55 mlwydd oed (oedran pensiwn arferol) erbyn 31 Mawrth 2022 yn cael amddiffyniad llawn ac roedd aelodau eraill yn cael amddiffyniad graddedig yn dibynnu ar eu hoedran. Gelwid yr amddiffyniad hwn yn 'amddiffyniad wrth bontio' a chafodd yr aelodau hynny nad oeddent yn gymwys i gael amddiffyniad eu trosglwyddo yn uniongyrchol i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân newydd 2015.

### Her gyfreithiol i'r amddiffyniad ar sail oedran

10 Cyfunwyd y ddau hawliad cyfreithiol ac aethpwyd â hwy drwy'r broses gyfreithiol; un yn erbyn cynllun pensiwn y barnwyr (achos McCloud) a'r llall yn erbyn cynllun pensiwn y diffoddwyr tân (achos Sargeant). Daethpwyd â'r her gyfreithiol ar y sail fod y trefniadau pontio yn wahaniaethol ar sail oedran, rhyw a hil.

11 Yn Rhagfyr 2018, pennodd y Llys Apêl fod yr amddiffyniad wrth bontio yn achosi gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio, sy'n golygu yr erys penderfyniad y Llys Apêl.

12 Yng Ngorffennaf 2019, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gydweithio â'r Tribiwnlys Cyflogaeth i sefydlu rhwymedi ar draws holl gynlluniau'r sector cyhoeddus. Fe wnaeth hynny ddiddymu'r angen am ragor o ymgyfreitha gan aelodau cynlluniau eraill y sector cyhoeddus sydd wedi'u heffeithio yn yr un modd gan y Dyfarniad.

13 Fe wnaeth y Tribiwnlys Cyflogaeth gynnal gwrandawiad rheoli achos yn Rhagfyr 2019 i bennu'r camau trefniadol i weithredu penderfyniad y Llys Apêl yn briodol.

**Gwrandawiad Rheoli Achos**

14 Canfu'r Llys Apêl fod y darpariaethau pontio yng nghynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn achosi gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran rhwng y canlynol:

a) y sawl a oedd yn aelodau o'r hen gynllun (Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992) ("FPS") ac a oedd yn cael eu hamddiffyn yn llawn wrth bontio trwy barhau i fod yn rhan o'r Cynllun hwnnw wedi 31 Mawrth 2015 o ganlyniad i fod yn aelod gweithredol o dan Gynllun 1992 ar 31 Mawrth 2012;

b) y sawl a oedd yn aelodau o'r FPS ar 31 Mawrth 2012 a heb amddiffyniad llawn wrth bontio ac a gafodd eu symud i Gynlluniau Pensiwn newydd y Diffoddwyr Tân wedi 31 Mawrth 2015.

15 Yn dilyn y gwrandawiad, cafwyd datganiad dros dro gan y Tribiwnlys Cyflogaeth oedd yn nodi fod gan yr hawlwyr a enwir (a oedd oll yn rhan o gategori (b)) hawl i gael eu trin fel pe baent wedi cael amddiffyniad pontio llawn ac wedi parhau yn eu cynllun cyfredol wedi 1 Ebrill 2015.

16 Mae'r broses o bennu'r rhwymedi mwyaf effeithiol yn gymhleth, oherwydd efallai fod rhai aelodau yn well eu byd o dan y trefniadau cyfartaledd gyrfa newydd, a gallent fod ar eu colled pe baent ond yn dychwelyd i'r hen gynlluniau.

**Ymgynghoriad ynghylch cynigion am rwymedi**

17 Ar 16 Gorffennaf 2020, fe wnaeth Trysorlys EM gyhoeddi dogfen ymgynghorol sy'n nodi'r cynigion a'r dewisiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau'r sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth gefndir a'r ddogfen ymgynghorol ar gael trwy droi at:

http://www.fpsregs.org/index.php/legal-landscape/age-discrimination-remedy-sargeant

18 Fe wnaeth yr ymgynghoriadau gydnabod y gallai aelodau cynlluniau, oherwydd amgylchiadau unigol, fod yn well eu byd o dan y cynlluniau diwygiedig na'r cynlluniau blaenorol. Y cynnig allweddol yn yr ymgynghoriad yw rhoi cyfle i aelodau gael dewis rhwng derbyn buddion y cynllun blaenorol neu fuddion y cynllun diwygiedig mewn perthynas â'u gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi (o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022). Wedi hynny, cynigir y dylai pob aelod symud i gynllun 2015.

19 Fe wnaeth yr ymgynghoriad nodi dau ddull posibl o wneud y dewis hwn, a darparu manylion ynghylch sut gallai'r ddau ddull weithio. Dyma'r ddau ddull posibl:

1) gwneud dewis yn syth wedi diwedd cyfnod y rhwymedi; neu

2) danategu trwy ddewis gohiriedig (*deferred choice underpin* - DCU).

20 Wrth benderfynu dewis yn syth, byddai angen i aelodau wneud penderfyniad ar ôl 31 Mawrth 2022; fodd bynnag, nid yw'r amserlen ynghylch gwneud penderfyniad wedi cael ei phennu. Yn achos llawer o aelodau, bydd hyn yn digwydd nifer o flynyddoedd cyn iddynt ymddeol, ac ar adeg pan erys rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr union fuddion a allai fod ar gael. Mewn cyferbyniad, o dan y DCU, byddai'r penderfyniad yn cael ei ohirio tan yr adeg pan fydd aelod yn ymddeol. O dan yr opsiwn DCU, byddid yn ystyried fod yr holl aelodau wedi cronni buddion o dan y cynllun blaenorol yn ystod cyfnod y rhwymedi.

21 Beth bynnag fo'r dull, gofynnir i'r sawl sydd eisoes wedi ymddeol ac/neu wedi derbyn dyfarniad pensiwn i wneud eu dewis cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gweithredu. Byddai'r dull a ddewisir ganddynt yn cael ei weithredu'n ôl-weithredol i'r dyddiad pan wnaed y dyfarniad.

22 Mae trafodaethau technegol wedi cael eu cynnal gyda gweinyddwyr cynlluniau pensiynau a Bwrdd Ymgynghorol y Cynlluniau Pensiynau yng Nghymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion o bob cwr o Gymru.

23 Roedd y consensws o'r trafodaethau technegol yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau'r risg o ragor o wahaniaethu a sicrhau trefniadau gweinyddol priodol. Ystyrid mai'r opsiwn DCU sydd orau i leihau'r risg o ragor o wahaniaethu, oherwydd bydd yr aelod yn cael dewis ar adeg ymddeol neu wrth adael y Gwasanaeth. Yn ychwanegol, ystyrid y byddai gorfodi aelodau i ddewis yn syth yn golygu fod angen mynediad at gyngor diduedd o ansawdd uchel gan ymgynghorydd proffesiynol, a gallai hyn fod yn broblemus gan ystyried yr amserlen sydd dan sylw.

24 Bydd y baich gweinyddol yn deillio o'r naill ddewis neu'r llall yn sylweddol. Yn reddfol, o safbwynt cyflogwr, byddid yn ffafrio'r opsiwn dewis yn syth oherwydd mae hynny'n cynnig mwy o sicrwydd o ran modelu ariannol. Fodd bynnag, mae hynny hefyd yn golygu her sylweddol yn sgil yr angen i ailysgrifennu a chyflwyno meddalwedd i ddarparu gwybodaeth ddiweddaredig, gyflawn a chywir i aelodau. Yn ychwanegol, nid oes gan weinyddwyr y capasiti i gynnal yr ymarfer hwn ar draws y sector cyhoeddus o fewn yr amserlen argymelledig.

25 Ystyrid mai opsiwn y tanategu trwy ohirio oedd yr opsiwn gorau oherwydd roedd yn haws ymdopi â'r baich gweinyddol ac roedd llai o bosibilrwydd y gallai aelodau deimlo eu bod wedi cael cam pe baent yn teimlo maes o law eu bod wedi gwneud y dewis amhriodol.

26 Mae cwestiynau'r ymgynghoriad a'r ymatebion iddynt yn Atodiad A.

**Amserlen a'r camau nesaf**

27 Daeth yr ymarfer ymgynghori i ben ar 11 Hydref 2020 a rhagwelir y ceir rhagor o eglurder yn ystod y misoedd sy'n dod ynghylch y camau a weithredir i gwblhau'r mater. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhau'r rhwymedi terfynol y bydd angen eu hymgorffori yn rheoliadau sylfaenol y cynlluniau pensiwn. Rhagdybir ar hyn o bryd na chaiff y diwygiadau i'r rheoliadau eu gweithredu hyd at 2022, o bosibl.

28 Bydd nifer o aelodau yn cyrraedd oedran ymddeol arferol y cynllun blaenorol cyn i'r rheoliadau gael eu diwygio. Ystyrir fod aelodau o'r fath dan anfantais ddybryd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y buasent yn gymwys i ymddeol o dan y rhwymedi arfaethedig, ond nid yw'r rheoliadau wedi cael eu diwygio, felly nid yw rheolwr y cynllun yn gallu prosesu hyn.

29 Gofynnwyd am farn gyfreithiol i weld a yw'r rheoliadau'r presennol yn caniatáu i reolwyr y cynllun brosesu'r pensiynau ar gyfer aelodau sy'n wynebu anfantais ddybryd. Mae trafodaethau technegol hefyd wedi cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr o wasanaethau tân ac achub eraill i gytuno ynghylch sut byddai achosion o'r fath yn cael eu prosesu pe bai'r cadarnhad cyfreithiol yn caniatáu iddynt gael eu prosesu cyn i'r rheoliadau gael eu diwygio.

**Agweddau ariannol y rhwymedi**

30 Mae'r cynigion ynghylch rhwymedi yn awgrymu y bydd aelodau cymwys yn cael buddion y cynllun blaenorol dros gyfnod y rhwymedi. Mae hyn yn darparu buddion gwell i'r aelodau hynny sydd wedi'u heffeithio. Mae oblygiadau ariannol hyn eisoes wedi cael eu cyfrifo gan Adran Actiwarïaid y Llywodraeth (GAD), ac amcangyfrifir mai oddeutu £11m yw'r gost. Cynhwysir hyn yng nghyfanswm rhwymedigaethau pensiwn yr Awdurdod.

31 Bydd angen i aelodau a fydd yn cael buddion eu cynllun blaenorol dros gyfnod y rhwymedi unioni unrhyw dandaliadau mewn perthynas â chyfraniadau cyflogai. Cynigodd yr ymgynghoriad y dylid unioni tandaliadau dros nifer o flynyddoedd, a rhagwelir y cytunir ynghylch hyn fel rhan o'r rhwymedi terfynol. Yn ychwanegol, os bydd hi'n ofynnol i aelodau gael buddion eu cynllun blaenorol dros gyfnod y rhwymedi, bydd hynny'n arwain at orfod ôl-dalu cyfraniadau cyflogwr, ac nid yw'n eglur hyd yn hyn sut caiff y rhain eu gweinyddu.

32 Prisir y cynllun yn llawn bob pedair blynedd. Mae data'r cynllun i alluogi'r prisio llawn nesaf yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a chânt eu defnyddio i gyfrifo cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai yn y dyfodol.

33 Nid yw'r cyllid at y dyfodol i ymateb i effaith yr her gyfreithiol wedi cael ei bennu hyd yn hyn, ac mae swyddogion yn trafod yn rheolaidd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Er nad oes cysylltiad uniongyrchol â'r amcanion llesiant, bydd holl aelodau'r cynlluniau pensiwn cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod yn cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig. |
| Cyllideb | Bydd y rhwymedi yn y dyfodol yn arwain at oblygiadau o safbwynt cyllideb yr Awdurdod; bydd y rhwymedi yn golygu mwy o gostau gweinyddol a mwy o gostau blwydd-dal cyflogwr. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn. |
| Staffio | Mae'r mater hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflogeion sy'n aelodau o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod; yn dibynnu ar y cynllun, gall aelodau ddewis ymddeol yn gynharach o dan y cynigion newydd nag yn achos y rheoliadau presennol. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / y Gymraeg | Mae'r cynigion yn mynd i'r afael â'r trefniadau amddiffyniad wrth bontio seiliedig ar oedran anghyfreithlon yng nghynlluniau pensiwn 2015, ac yn sicrhau triniaeth deg i holl aelodau'r cynlluniau pensiwn. |
| Risgiau | Byddai diffyg cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn arwain at risg gyfreithiol a risg o niwed i enw da. |

**Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus: Newidiadau i drefniadau pontio cynlluniau 2015.**

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 1: A oes gennych unrhyw farn am oblygiadau'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn i bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Pa dystiolaeth sydd gennych chi ynghylch y materion hyn? A oes unrhyw beth y gellid ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau a nodwyd? | Ystyrir mai'r cynnig i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yw'r dull tecaf a mwyaf cyson o ddatrys y gwahaniaethu. Yn dilyn ystyriaeth briodol o ddogfen yr ymgynghoriad a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb ychwanegol a allai achosi rhagor o wahaniaethu o dan y Ddeddf. |
| Cwestiwn 2: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu o ran effeithiau'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn ar gydraddoldeb? | Ni nodwyd unrhyw faterion ychwanegol. |
| Cwestiwn 3: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin aelodau a gafodd amddiffyniad graddedig yn wreiddiol. Yn benodol, nodwch sylwadau ynghylch unrhyw effeithiau anfanteisiol posibl. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau o'r fath a nodwyd? | Mae gofyniad i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu yn elfen allweddol o'r cynnig i ddiddymu'r amddiffyniad graddedig. Mae diddymu'r amddiffyniad graddedig yn golygu fod sefyllfa'r holl aelodau yn gyfartal ac mae'n rhoi cyfle iddynt wneud dewis personol.<br><br>Cydnabyddir y gall nifer fechan o aelodau wynebu anfantais, ond mae hyn yn rhywbeth sy'n deillio o unioni'r gwahaniaethu, felly nid oes dadl gref dros wneud darpariaeth ar wahân ar gyfer yr aelodau hyn.<br><br>Byddem ni'n cefnogi'r cysyniad o ddewis ar gyfer aelodau ac rydym ni'n cyd-fynd â'r egwyddorion ym mharagraff 2.11. |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 4: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin unrhyw un na wnaeth ymateb i ymarfer dewis ar unwaith, gan gynnwys y rhai a gafodd amddiffyniad graddedig yn wreiddiol. | Byddai ymarfer dewis ar unwaith yn darparu llinellau amser clir ar gyfer unioni'r gwahaniaethu. Serch hynny, mae angen cydnabod yr her weinyddol a fyddai'n deillio o hynny.<br><br>Bydd yn bwysig i reolwyr cynlluniau wneud trefniadau priodol i ddangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd i gynorthwyo aelodau i wneud dewis sy'n seiliedig ar wybodaeth o fewn yr amserlenni perthnasol. Efallai byddai her benodol mewn perthynas ag aelodau gohiriedig neu rai sydd wedi ymddeol os nad oes manylion cysylltu cyfredol ar gael ar eu cyfer.<br><br>Pe bai'r dewis hwn yn cael ei fabwysiadu, a phe bai camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau fod yr unigolyn yn cael cyfle digonol i wneud dewis personol, buasem yn cefnogi cynnwys sefyllfa ddiofyn yn y rheoliadau. Fodd bynnag, ystyrir y gallai hyn arwain at nifer fawr o achosion o anghytuno a dehongli pa un ai a oedd y camau a gymerwyd yn rhesymol o safbwynt ôl-syllol.<br><br>Byddid yn croesawu canllawiau ynghylch y maes hwn i sicrhau dull teg a chyson yn yr holl gynlluniau. |
| Cwestiwn 5: Nodwch unrhyw sylwadau am y cynigion a nodir uchod ynghylch ymarfer dewis yn syth. | Bydd ymarfer dewis yn syth yn sicrhau eglurder ynghylch buddion. Mae hyn yn fuddiol i gyflogwyr ac mae'n caniatáu ar gyfer cynllunio ariannol tymor hirach. Fodd bynnag, bydd hyn hefyd yn achosi heriau gweinyddol a nodir yn y ddogfen hon.<br><br>Ceir buddion hefyd i gyflogeion o ran ymdrin ag unrhyw faterion trethi sy'n codi. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion ystyried eu dyheadau gyrfa at y dyfodol a rhagweld yr effaith yn y dyfodol. Mae'n amlwg y bydd hyn yn gymhleth, ac yn ddieithriad, fe wnaiff arwain at heriau yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 6: Nodwch unrhyw sylwadau am y cynigion a nodir uchod ynghylch tanategu trwy ddewis gohiriedig. | Mae'r opsiwn hwn yn lleihau'r risg o heriau cyfreithiol gan unigolion oherwydd byddant yn gallu gwneud dewis sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth. Fodd bynnag, byddai'r cymhlethdodau mewn cysylltiad â threthi yn cynyddu'n sylweddol yn sgil yr opsiwn hwn, a byddai'n bwysig sicrhau fod yr agweddau hyn yn cael eu deall yn llawn ac yn cael eu hystyried yn fanwl.<br><br>O safbwynt gweinyddol, gallai fod yn fwy cymhleth a beichus, a byddai angen cynllunio gofalus i sicrhau fod systemau a phrosesau yn ategu hynny'n llawn. Yn ddieithriad, fe wnaiff y costau gweinyddol gynyddu yn sgil y ddau opsiwn. Byddai cynllunio ariannol tymor hir yn fwy cymhleth, a byddai costau actiwarïaid yn debygol o gynyddu hefyd. |
| Cwestiwn 7: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch effeithiau gweinyddol y ddau opsiwn | Dewis yn syth – bydd hyn yn achosi her weinyddol yn y tymor byr ond mae'n cynnig sefydlogrwydd yn y tymor hir. Fodd bynnag, bydd hyn hefyd yn golygu fod angen buddsoddiad sylweddol gan ddarparwyr meddalwedd o fewn cyfnod cymharol fyr, ac mae'n golygu heriau o ran capasiti staff ar gyfer gweinyddwyr a chyflogwyr.<br><br>Tanategu trwy ddewis gohiriedig – yn gyffredinol, bydd yr heriau gweinyddol yn ehangach ac yn fwy cymhleth yn sgil y dewis hwn. Fodd bynnag, caiff yr effaith ei liniaru dros gyfnod hirach. Dylid cyfeirio'n benodol at y cynigion yn A.9. Byddai hynny'n golygu fod angen unioni cyfraniadau aelodau o dan y cynllun blaenorol yn y lle cyntaf, a gallai hynny gael ei wrthdroi ar yr adeg pan wneir y dewis terfynol. |
| Cwestiwn 8: Pa opsiwn (dewis yn syth ynteu DCU) yw'r gorau i ddiddymu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y Llysoedd, a pham? | Y DCU sy'n cynnig y dewis mwyaf i'r rhai sydd wedi'u heffeithio, ac mae'n diddymu'r gwahaniaethu yn llwyr. Mae'n aneglur hefyd a oes digon o gyngor ariannol o ansawdd uchel ar gael i alluogi ymarfer dewis yn syth, ac mae hynny'n cynyddu'r risg o heriau yn y dyfodol.<br><br>Er bod y dewis hwn yn fwy beichus o safbwynt gweinyddol, ystyrir y gellir rheoli hyn yn fwy effeithiol. |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 9: A yw'r cynnig i gau cynlluniau blaenorol a symud yr holl aelodau gweithredol nad ydynt eisoes yn rhan o'r cynlluniau diwygiedig i'w cynllun diwygiedig priodol o 1 Ebrill 2022 yn sicrhau triniaeth gyfartal o'r dyddiad hwnnw ymlaen? | Mae'r cynnig hwn yn sicrhau triniaeth gyfartal, sy'n gyson ag amcanion y rhwymedi. |
| Cwestiwn 10: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o ailystyried achosion o'r gorffennol. | Mae'n bwysig fod pawb sydd o fewn y cwmpas yn cael yr un dewis, ac efallai bydd aelodau sydd wedi ymddeol yn ceisio adolygu eu penderfyniad blaenorol.  Mae'r senarios a nodir yn A.1 yn amlygu'r cymhlethdod ac mae'n bwysig bod y trefniadau yn caniatáu i unigolion gael mynediad at gyngor priodol a chael amser i wneud dewis ar sail gwybodaeth, gan ystyried cymhlethdod y trefniadau trethi. |
| Cwestiwn 11: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch y cynigion a nodir uchod i sicrhau y telir y cyfraniadau cywir gan aelodau, mewn cynlluniau ble maent yn wahanol rhwng cynlluniau blaenorol a rhai diwygiedig. | Yn gyffredinol, cefnogir y cynigion a'r sail resymegol gysylltiedig a chydnabyddir cymhlethdod y tanategu trwy ddewis gohiriedig o ran adran A.10.<br><br>Os yw'n ofynnol i aelodau unioni unrhyw dandaliadau, byddai'n ddefnyddiol pe gellid ffurfioli'r cyfnod ad-dalu ar draws pob cynllun. |
| Cwestiwn 12: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch y dull arfaethedig o drin cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol gan aelodau y mae unigolion eisoes wedi'u talu. | Amherthnasol i NWFRA, dim achosion cyfredol. |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 13: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin buddion blynyddol (ABS). | Y ddelfryd yw cynorthwyo aelodau a darparu digon o wybodaeth iddynt i'w galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Byddai gweithredu'r tanategu trwy ddewis gohiriedig yn cynyddu'r cymhlethdod yn sylweddol a byddai angen newidiadau sylweddol i'r system fel y nodir yn A.23.<br><br>Fodd bynnag, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd yr ABS o ran galluogi unigolion i wneud dewis ar sail gwybodaeth a rheoli eu trefniadau trethi.<br><br>Os dewisir y tanategu trwy ddewis gohiriedig, byddai angen canllawiau ynghylch sut i reoli'r gofynion nes gellid gweithredu'r newidiadau gofynnol i'r system. |
| Cwestiwch 14: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin achosion sy'n ymwneud ag ymddeoliad oherwydd afiechyd. | Dim rhagor o sylwadau. |
| Cwestiwn 15: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin achosion lle mae aelodau wedi marw ers 1 Ebrill 2015. | Dim rhagor o sylwadau. |
| Cwestiwn 16: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin unigolion a fyddai wedi gweithredu'n wahanol pe na bai'r gwahaniaethu wedi cael ei nodi gan y Llys. | Derbynnir y gallai unigolion fod wedi gwneud penderfyniadau gwahanol ynghylch eu pensiwn ar adegau mewn perthynas â'r cynlluniau diwygiedig. Er y cydnabyddir y gellir ystyried cwynion fesul achos, byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu canllawiau mewn perthynas â throthwy'r dystiolaeth y dylai cyflogwyr ei cheisio. |
| Cwestiwn 17: Os dewisir y DCU, a ddylai'r dewis gohiriedig gael ei ddwyn ymlaen i'r dyddiad trosglwyddo yn achos trosglwyddo rhwng Clybiau? | Buasem ni'n cefnogi'r cynnig hwn. |
| Cwestiwn 18: Os yw'r cynllun Clwb sy'n derbyn aelodau yn un o'r cynlluniau hynny sydd o fewn y cwmpas, a ddylai'r aelodau gael dewis yn achos pob cynllun neu un dewis sy'n cwmpasu'r ddau gynllun? | Un dewis sy'n cwmpasu'r ddau gynllun. |

| | |
|---|---|
| Cwestiwch 19: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin achosion ble ceir ysgariad. | Dim rhagor o sylwadau. |
| Cwestiwn 20: A ddylid codi llog ar symiau sy'n ddyledus i gynlluniau (megis cyfraniadau aelodau) gan aelodau? Os felly, pa gyfradd fyddai'n briodol. | Mae hyn yn neilltuol o berthnasol o safbwynt y tanategu trwy ddewis gohiriedig, o ystyried y posibilrwydd y gallai cyfnod sylweddol fynd heibio rhwng adeg dewis y rhwymedi ac adeg y dewis terfynol. O ran egwyddor, dylid codi/derbyn llog yn unol â chyfradd gyson ar draws pob cynllun. |
| Cwestiwn 21: A ddylid talu llog ar symiau sy'n ddyledus i aelodau gan gynlluniau? Os felly, pa gyfradd fyddai'n briodol. | Gweler yr ateb i gwestiwn 20. |
| Cwestiwn 22: Os gweithredir llog, a ddylai cyfraddau llog cynlluniau presennol gael eu defnyddio (os ydynt yn bodoli), neu a fyddai un gyfradd gyson ar draws pob cynllun yn fwy priodol? | Gweler yr ateb i gwestiwn 20. |
| Cwestiwch 23: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch ein dull arfaethedig o drin gostyngiadau. | Dim rhagor o sylwadau. |
| Cwestiwn 24: Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch rhyngweithiad y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn â'r system drethi. | Mae'r ymgynghoriad wedi amlygu nifer o feysydd ble gall sefyllfa drethi unigolyn gael ei heffeithio gan y cynigion.<br><br>Gan ystyried cymhlethdod y mater hwn yn gyffredinol a chymhlethdodau penodol yn achos amgylchiadau unigolion, mae'r mynediad at gyngor annibynnol o ansawdd uchel yn hanfodol. Fodd bynnag, mae angen mynegi pryderon ynghylch y ffaith nad yw cyngor o'r fath ar gael fel mater o drefn i aelodau'r FPS, felly, oni chaiff y mater hwn ei ddatrys, bydd hynny'n anfanteisiol o ran dealltwriaeth unigolion i'w galluogi i wneud dewis llawn sy'n seiliedig ar wybodaeth.<br><br>Byddai canllawiau cenedlaethol o leiaf yn fuddiol i hybu dealltwriaeth ac i osgoi'r angen i ymdrin â materion ar y lefel leol. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown (01745 535275)** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2019-20 a'r Cylch Gorchwyl diweddaraf** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwynir i'r Aelodau:

(i) adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf; a
(ii) chylch gorchwyl diwygiedig y Bwrdd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cyflwyno i'r Aelodau adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol sydd yn nodi gwaith y bwrdd yn ystod 2019-20. Cyflwynir hefyd y cylch gwaith diwygiedig.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau:

(i) yn cymeradwyo adroddiad blynyddol y bwrdd pensiwn lleol ar gyfer 2019-20 (atodiad 1), i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a
(ii) nodi'r cylch gorchwyl sy'n atodiad 2.

**SYLWADAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL**

4 Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 27 Mai 2020 ac ni nodwyd unrhyw faterion o bwys.

**GWYBODAETH**

5 Cyflwynwyd y gofynion llywodraethu ynglŷn â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf yn darparu trefniadau llywodraethu cliriach gyda rolau diffiniedig penodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, ac ymarferion gweinyddu yn unol â'r rhai yn y sector preifat.

6 Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sy'n ymwneud â a chreu a gweithredu'n barhaus pensiynau lleol, i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATAGC) gytuno i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

7 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod fel Rheolwr Cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn gwella tryloywder, gofynnir i ATAGC gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

8 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol:

- crynodeb o waith y bwrdd pensiwn lleol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- manylion meysydd pryder a adroddwyd neu a godwyd gan y bwrdd a'r argymhellion a waned
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi codi i aelodau unigol o'r bwrdd pensiwn lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r bwrdd yn dymuno'u codi gyda'r rheolwr cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, ac anghenion hyfforddi a nodwyd
- manylion unrhyw dreuliau neu gostau a ddaeth i ran y bwrdd pensiwn lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol |
| Cyllideb | Ariennir costau'r Bwrdd Pensiwn Lleol o'r gyllideb Gwasanaethau Aelodau bresennol |
| Cyfreithiol | Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ynghylch pensiynau Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. |
| Staffio | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ystyrir nad oes angen delio ag unrhyw faterion oherwydd mae'r argymhellion yr un mor berthnasol i bob Aelod ni waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Rhaid i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

Atodiad 1

# Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Adroddiad Blynyddol
## Bwrdd Pensiwn Lleol
## 2019-20

## 1.0 Adroddiad Blynyddol

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y canlynol:

- Manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn;
- Manylion yr hyfforddiant a gafwyd, a'r anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn;
- Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2019/20;
- Meysydd pryder neu risg a adroddwyd neu a godwyd gan y Bwrdd; a
- Blaen-raglen waith.

## 2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac ad.30 (1) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, cafodd Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd) ei sefydlu yn Ebrill 2015. Rôl a chylch gorchwyl y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- Y deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a helaethu trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae wedi'i gynllunio i fod yn gyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion pan ydynt yn gweithredu fel rheolwr cynllun.

## 3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y Bwrdd yn cynnwys 10 aelod fel a ganlyn:

- Pump yn cynrychioli'r cyflogwr, sef tri o aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy a enwebir) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pump yn cynrychioli'r gweithwyr – mae pob un yn gynrychiolydd o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag ATAGC.

Mae rhestr lawn o aelodau'r bwrdd pensiwn ar gael ar wefan ein Bwrdd Pensiwn Lleol. Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol a ganlyn yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)
- Rheolwr Pensiynau

Ar hyn o bryd, mae cyfnod penodiad pob aelod yn cyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau.

Daeth aelodaeth i ben i ddau aelod yn ystod y cyfnod; yn dilyn proses benodi yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cafodd y ddwy swydd ei llenwi ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun. Etholwyd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Fairhead yn Gadeirydd am y cyfnod 2017-2019; o fis Gorffennaf 2019, enwebwyd y Cynghorydd B Apsley. Enwebir y Cadeirydd i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

## 4.0 Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn mynnu nad oes gan aelod o fwrdd pensiwn fuddiannau sy'n gwrthdaro. Y diffiniad o 'wrthdaro rhwng buddiannau' yw 'buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o beryglu'r modd y mae person yn cyflawni swyddogaethau fel aelod o fwrdd pensiwn'. Mae'r Ddeddf yn eglur nad yw bod yn aelod o un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn golygu gwrthdaro rhwng buddiannau, felly ni fyddai hynny'n atal aelod o gynllun rhag gwasanaethau ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli achosion posibl o wrthdaro rhwng buddiannau er mwyn sicrhau nad ydynt yn troi'n achosion gwirioneddol o wrthdaro, ac mae pob aelod o'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Hefyd, mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd, ac mae unrhyw fuddiannau a nodir gan yr aelodau yn cael eu cofnodi er mwyn gallu cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Yn ystod y cyfnod perthnasol, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau gan unrhyw aelod, gan neb oedd yno i gynghori na gan neb oedd yn mynychu.

Mae copi o'r Polisi Gwrthdaro rhwng buddiannau ar gael yma:

Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau.

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n un o ofynion statudol Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i fod yn gyfarwydd â materion manwl yn ymwneud â phensiynau, ac i ddatblygu adnabyddiaeth ohonynt, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau a materion eraill a ragnodir mewn deddfwriaeth arall.

Dylai aelod o'r Bwrdd fod â dealltwriaeth o'r hyn sy'n briodol i'w swydd a dylai fod yn gallu canfod a herio methiant i gydymffurfio â'r canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr tân;
- Deddfwriaeth arall yn ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; neu
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Pan gaiff yr aelodau eu penodi, rhaid iddynt, o fewn chwe mis, gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau; hefyd, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant cynefino parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

Mae Rheolwr y Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a wneir gan aelodau unigol a gan y Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Mae hyn o gymorth i'r Awdurdod a'r aelodau ddangos eu bod yn cydymffurfio, os oes angen, â'r gofyniad cyfreithiol ac yn cofnodi sut lliniarwyd risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau mewn gwybodaeth. Bob blwyddyn, mae'r aelodau'n llenwi ffurflen hunan-asesu ar gyfer dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth, a defnyddir y rhain i baratoi blaen-raglen hyfforddi. Mae'r gwaith o hyfforddi aelodau'r Bwrdd yn cael ei wneud yn fewnol yn bennaf, heb gost uniongyrchol; mae'r digwyddiadau cenedlaethol, megis cynhadledd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, wedi bod yn rhad ac am ddim hyd yma. Pan fo angen i aelodau'r Bwrdd deithio i fynychu digwyddiadau hyfforddi mae'r gost hon wedi'i chynnwys mewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Isod, ceir rhestr yn dangos yr hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd yn ystod 2019-20:

| **Dyddiad** | **Pynciau a ymdriniwyd â hwy** |
|---|---|
| 01/07/19 | Ymddeoliadau ar sail Afiechyd |
| 07/10/19 | Cronfa Bensiwn Dyfed – Rolau a Chyfrifoldebau<br>Cyflog Pensiynadwy |
| 13/01/20 | Seiber-ddiogelwch<br>Pensiynau o ddau ffynhonnell |

## 6.0 Rhaglen Waith 2019-2020

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bedair gwaith, sef ar 2 Mai 2019, 1 Gorffennaf 2019, 7 Hydref 2019 ac 13 Ionawr 2019. Mae'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn wedi cael ei ddiffinio gan y Cylch Gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo ac yn adolygu'r Cylch Gorchwyl bob blwyddyn.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, bu'r Bwrdd yn ystyried y materion penodol a ganlyn:

- Ethol Cadeirydd
- Adolygu a Chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl
- Cytuno ar Adroddiad Blynyddol 2018-19

- Cwestiynau Cyffredin am y Datganiadau Buddion Blynyddol
- Seminar Llywodraethu, a'r diweddaraf ynghylch Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- Ymgynghoriad ynghylch y Cap Ymadael
- Her gyfreithiol ynghylch trefniadau pontio cynllun pensiwn (Dyfarniad McCloud)
- Dyfarniad yr Uchel Lys ynghylch cydrannau cyflog pensiynadwy (Booth vs ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru)
- Y diweddaraf ynghylch dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth
- Adolygu'r polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau
- Ystyried cwynion a gafwyd dan y Gweithdrefnau Mewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau, ac achosion yr Ombwdsmon Pensiynau

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog a ganlyn:

- Datgan Buddiannau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (gan gynnwys diweddariad deddfwriaethol)
- Adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed)
- Diweddariad Bwrdd Cynghori'r Cynllun
- Anghenion hyfforddi
- Y Gofrestr Risgiau
- Materion i'w huwchgyfeirio i'r ATA llawn

Ers i'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol gael ei sefydlu yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi cael ei siapio gan aelodau'r Bwrdd a gan swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Datblygwyd rhai adroddiadau rheolaidd, sef:

- Adroddiad o'r enw 'Adroddiad Diweddaru am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân', sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am feysydd arwyddocaol o ran gwaith pensiwn, ac mae'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn ennyn trafodaeth yn y Bwrdd ynghylch effaith materion ar aelodau'r Cynllun Pensiwn ac ynghylch y modd y mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn gymorth i gyflawni pwrpas y Bwrdd, sef sicrhau bod llywodraethu a gweinyddu effeithiol yn digwydd;

- Adroddiad o'r enw 'Adroddiad Diweddaru am Gronfa Bensiwn Dyfed', ei bwrpas yw rhoi sicrwydd fod y cynllun yn cael ei weinyddu'r gywir. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am reoleiddio, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion penodol yn ymwneud â llwyth gwaith, megis cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, achosion o dorri'r rheolau, a lefelau gweithgarwch yn 'Fy Mhensiynau Ar-lein';

- Mae meysydd penodol o'r Gofrestr Risgiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun, ac maent yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ymhob cyfarfod, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd yn gallu cadw golwg ar y risgiau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi cael eu cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Er mwyn gwella'r gwaith o weinyddu a llywodraethu'r swyddogaeth bensiynau yn effeithlon ac effeithiol, cafodd yr argymhellion a ganlyn eu gwneud gan y Bwrdd, a chafodd pob un ei gyflawni yn ystod y flwyddyn:

- Llunio rhestr o gwestiynau cyffredin ar gyfer y Datganiadau Buddion Blynyddol;
- Gwirio bod ffurflenni optio allan mewn ffeil ar gyfer staff Amser Cyflawn nad oedd mewn cynllun pensiwn;
- Yr eitemau sefydlog ar yr agenda i gynnwys nodi materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn, ac adolygu meysydd penodol o'r gofrestr risgiau ymhob cyfarfod;
- Mynd ati'n fewnol i hyrwyddo'r cyfleuster 'Fy Mhensiwn Ar-lein';
- Ceisiodd y Bwrdd gael sicrwydd bod y gweinyddwyr yn gweithredu fwletinau a chylchlythyrau (pan fo hynny'n berthnasol);
- Roedd risgiau a ganfuwyd mewn perthynas ag achosion llys yn ddiweddar (McCloud a Booth), seiberdroseddu a chyllido costau pensiynau'r cyflogwr i fod i gael eu cynnwys yn y Gofrestr Risgiau;
- Ceisiodd y Bwrdd gael sicrwydd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth pensiwn o ddwy ffynhonnell yn rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yma.

## 7.0 Rhaglen Waith 2020-21

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith a gaiff ei hystyried ymhob cyfarfod. Gan fod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi erbyn hyn, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub fel y bo'r angen.

Dyma'r Rhaglen Waith ar gyfer 2020-21:

- Adolygu'r Cylch Gorchwyl, a chytuno ar Adroddiad Blynyddol 2019-20;
- Cytuno a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer adolygu cyflog pensiynadwy yn dilyn Dyfarniad Booth v Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Gwneud dadansoddiad o anghenion hyfforddi gydag aelodau'r Bwrdd, a chytuno ar raglen hyfforddi sy'n cynnwys diweddariadau a chyflwyniadau ar faterion cyfredol yn ymwneud â phensiynau, fel y bo angen;
- Adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau;
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bob cyfarfod ynghylch materion rheoleiddio sydd mewn cylchlythyrau gan Lywodraeth Cymru a Bwletinau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol;
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynllun Cynghori Cynlluniau (Cymru);
- Arolygon Pensiynau Blynyddol ac ymgynghoriadau (os ydynt yn berthnasol);
- Monitro'r modd y mae'r Cynllun Gwella Data sydd gan y gweinyddwyr yn cael ei gyflawni;
- Adolygu canlyniad adroddiadau archwilio mewnol ac allanol;
- Monitro'r gwaith o adnewyddu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

**Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiynau Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2014.

## Rheoli'r Cynllun

2. Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel yr awdurdod gweinyddu, yw Rheolwr y Cynllun. Caiff ei swyddogaethau eu cyflawni yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod gan y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân.

## Y Bwrdd Pensiwn Lleol

3. Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC), fel yr awdurdod gweinyddu, i wneud y canlynol:

   - sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
   - sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r cynllun;
   - sicrhau llywodraethiad effeithiol ac effeithlon i'r Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cronfa Bensiynau Dyfed;
   - goruchwylio'r materion hyn fydd rôl y Bwrdd, nid gwneud penderfyniadau;
   - cyflawni unrhyw waith perthnasol fel y gofynnir amdano;
   - mewn unrhyw faterion eraill y gallai rheoliadau'r cynllun eu pennu.

4. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn atebol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu yn eu rôl fel Rheolwr y Cynllun.

6. Bydd prif swyddogaethau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

   - adolygu'r prosesau, y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau perthnasol;
   - ceisio sicrwydd bod y rhain yn cael eu dilyn ac y cedwir atynt o ran penderfyniadau ynghylch Pensiynau;
   - ceisio sicrwydd bod perfformiad o ran gweinyddu yn cydymffurfio â fframwaith perfformiad yr Awdurdod, a bod y trefniadau monitro yn ddigonol ac yn gadarn;

- ystyried pa mor effeithiol yw'r cyfathrebu gyda'r cyflogwyr ac aelodau'r cynlluniau, gan gynnwys adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu; ystyried a rhoi sylwadau ar argymhellion archwilio mewnol ac adroddiadau archwilwyr allanol.

7. Bydd unrhyw gŵyn neu honiad ynghylch torri'r Rheoliadau a ddygir i sylw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu trin yn unol â'r Cod Ymarfer fel y'i cyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Rhybudd o Gyfarfodydd a pha mor aml y cânt eu cynnal**

8. Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gyfarfod yn ddigon rheolaidd er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol; trefnir pedwar cyfarfod ymhob blwyddyn ariannol.

9. Bydd y Swyddog Cyswllt Aelodau yn hysbysu holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am bob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys nodi'r dyddiad, y lleoliad ac amser y cyfarfod, a bydd yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gadw.

10. Darperir papurau o leiaf dri diwrnod gwaith cyn pob un o'r cyfarfodydd ffurfiol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

11. Bydd yr holl agendâu a phapurau a chofnodion nad ydynt yn gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar wefan ATAGC, ynghyd â Chylch Gorchwyl y Bwrdd a manylion aelodaeth y Bwrdd.

**Aelodaeth**

12. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dim llai na 6 aelod (i gyd), a rhaid iddo gynnwys cydbwysedd cyfartal o gynrychiolwyr o'r cyflogwr ac aelodau'r cynllun (gweithwyr). Bydd ei gyfansoddiad fel a ganlyn:

| Etholaeth | Diffiniad/Cyfyngiadau |
|---|---|
| Cyflogwr | Cynrychioli ATAGC |
| Aelod o'r Cynlluniau (gweithwyr) | Cynrychioli pob aelod o'r cynlluniau (gweithredol, wedi gohirio, a phensiynwr) |

13. Bydd cyfnod swydd yr holl aelodau yn cyd-fynd ag etholiadau y cynghorau ac felly disgwylir i'r aelodaeth barhau tan 2022. Caiff yr aelodau, ar ddiwedd eu cyfnod, fynegi eu dymuniad i gael eu hystyried i'w hailethol.

14. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fodloni'r gofynion pwysig o ran presenoldeb a hyfforddiant er mwyn cadw eu haelodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid i'r holl aelodau:

- ymdrechu i fod yn bresennol ymhob cyfarfod o'r Bwrdd
- gydymffurfio â'r cynllun hyfforddi a gaiff ei lunio gan y Rheolwr Pensiynau
- gydymffurfio â Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

15. Bydd gan bob un Cynrychiolydd Cyflogwr a Chynrychiolydd Aelod y Cynllun yr hawl i bleidleisio yn unigol.

16. Rhaid i bob aelod o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gael cyfle cyfartal o ran cael eu henwebu ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau.

17. I ddiben penodi cynrychiolwyr y cyflogwr ar y Bwrdd, gofynnir am enwebiadau gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Bydd y Trysorydd a'r Swyddog Monitro (neu ddirprwy) hefyd yn darparu cynrychiolaeth cyflogwr.

18. I ddiben penodi cynrychiolwyr yr aelodau cynllun (gweithwyr) ar y Bwrdd, gofynnir am enwebiadau drwy Gynrychiolwyr Adrannau a Fforwm yr Undebau Llafur, gydag enwebiadau pellach yn dod drwy hysbyseb a roddir ar wefan yr Awdurdod. Pan fo mwy na thri enwebiad yn dod i law, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hystyried, eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld gan banel penodi a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Tân gael eu penodi'n ffurfiol.

19. Os bydd aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr y cyflogwr yn gadael cyflogaeth y cyflogwr y maent yn ei gynrychioli, ni fydd mwyach yn gymwys i fod ar y Bwrdd.

20. Pan fo aelod o'r Bwrdd yn absennol yn gyson, neu'n methu â bodloni gofynion pwysig o ran presenoldeb a hyfforddi fel y nodir yn (13) uchod, bydd yr aelodaeth honno'n cael ei hadolygu. Yn achos cynrychiolydd sy'n aelod, gwneir hyn gan y panel penodi, a gaiff argymell bod yr aelodaeth yn cael ei dirymu os bydd yn ystyried bod angen hynny.
Mewn achos o'r fath, bydd hawl i apelio i'r Prif Swyddog Tân cyn unrhyw argymhelliad. Yn achos cynrychiolydd cyflogwr, bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei ystyried gan gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

21. Os bydd cyflogwr neu gynrychiolydd aelodau'r cynlluniau yn dymuno ymddiswyddo rhaid iddo ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân, gan roi rhybudd o fis o leiaf.

22. Bydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynlluniau.

23. Rôl y cynrychiolydd sy'n gweithredu fel Cadeirydd yw:

- cytuno ar yr agenda, a'i osod, ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd
- rheoli'r cyfarfodydd i sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gyflawni yn yr amser y cytunwyd arno
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos y parch dyledus at y broses, a bod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llwyr
- ymdrechu cymaint ag y bo modd i gael consensws fel canlyniad
- sicrhau bod pob cam gweithredu a'r rhesymeg dros benderfyniadau yn eglur, a bod cofnod priodol ohonynt.

24. Oherwydd natur arbenigol gwaith y Bwrdd, disgwylir i holl aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol yn bersonol, a hynny ymhob cyfarfod, heb ddarpariaeth ar gyfer dirprwy. Fodd bynnag, fe ganiateir dirprwyon; ond byddai rhaid iddynt fod yn gyfrifol am ddiweddaru eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â materion pensiwn.

25. Caiff y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân, gyfethol personau nad ydynt yn aelodau i gynorthwyo'r Bwrdd am gyfnod neu ar gyfer tasg benodol pryd y byddai hynny'n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ychwanegol. Ni fyddai caniatâd i'r aelodau cyfetholedig bleidleisio.

### Cworwm

26. Rhaid i bedwar o blith aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol er mwyn cael cworwm mewn cyfarfod. Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod ac y mae yno gworwm, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol ddewis Cadeirydd i lywyddu dros y cyfarfod hwnnw.

### Gwybodaeth a Sgiliau

27. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- y ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd cysylltiedig y pedwar o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- unrhyw bolisïau, gweithdrefnau neu brosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â gweinyddu'r Cynlluniau a fabwysiedir gan ATAGC a Chronfa Bensiwn Dyfed.

28. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a ragnodir mewn Rheoliadau.

29. Mater i aelodau'r Bwrdd Pensiwn yw cael eu bodloni bod ganddynt y graddau priodol o wybodaeth a dealltwriaeth i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n gywir fel aelod o'r Bwrdd Pensiwn.

30. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn allu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i loywi ac i gadw eu gwybodaeth yn gyfoes. Felly, mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

31. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau gadarnhau i'r Rheolwr Pensiynau o fewn chwe mis ar ôl ymuno â'r Bwrdd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Rheoleiddiwr Pensiynau.

32. Yn ystod y cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol, mae'n rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau ystyried a chytuno ar raglen hyfforddi flynyddol.

## Safonau Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau

33. Mae rôl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gofyn am y safonau uchaf o ymddygiad, ac felly bydd 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' yn berthnasol i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd gadw at god ymddygiad aelodau a pholisïau Diogelu Data ATAGC. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu o fewn y cylch gorchwyl hwn bob amser. Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, rhaid i aelod o'r bwrdd beidio â chael buddiant ariannol neu fuddiant arall a allai niweidio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau ar y Bwrdd. Nid yw hyn yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi dim ond drwy fod yn aelod o'r GTA.

34. Felly, bydd yn ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddatgan unrhyw fuddiannau ac unrhyw wrthdaro posib rhwng buddiannau yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae'r datganiadau hyn yn ofynnol fel rhan o'r broses benodi, yn ogystal ag ar adegau rheolaidd drwy gydol cyfnod aelod.

## Adrodd

35. Disgwylir i'r Bwrdd lunio adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub, a dylai hwnnw gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- meysydd pryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a gododd o ran aelodau unigol y Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd a'r anghenion hyfforddi a ganfuwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a gafwyd gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

36. Er mai dim ond un adroddiad blynyddol y mae gofyn i'r Bwrdd ei lunio, caiff cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

37. Os bydd gan y Bwrdd unrhyw bryderon y credir eu bod yn ddigon difrifol i adrodd yn eu cylch ar lefel uwch na'r hyn sy'n safonol (sef i'r Rheolwr Pensiynau), dylent adrodd yn eu cylch i'r Prif Swyddog Tân. Gallai hyn gynnwys adegau, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini, pryd y bydd y Bwrdd yn teimlo na weithredwyd ar sail argymhellion. Mewn achosion eithafol megis torri'r Rheoliadau yn sylfaenol neu fethiant sylfaenol gan yr Awdurdod Gweinyddu i sicrhau bod y gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol, gall y Bwrdd ystyried adrodd i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a/neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Cydnabyddiaeth Ariannol

38. Bydd cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gyfyngu i ad-dalu'r treuliau gwirioneddol am fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant y Bwrdd. Disgwylir y bydd cyflogwyr aelodau'r bwrdd yn darparu gallu priodol i ganiatáu i'r aelod gyflawni'r rôl hon o fewn eu diwrnod gwaith arferol heb unrhyw ostyngiad yn eu cyflog.

39. Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau 1 mis fan bellaf ar ôl iddynt ddigwydd.

## Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol

40. Rhoddir gwybodaeth gyfoes ar wefan ATAGC i ddangos y canlynol:

- enwau a gwybodaeth am aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- sut y mae aelodau'r cynllun a'r cyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiwn Lleol
- cyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd
- cylch gorchwyl a pholisïau llawn y Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y maent yn gweithredu
- Proses benodi'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

## Adolygu

41. Mabwysiadwyd yn ffurfiol y cylch gorchwyl hwn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ebrill 2015, ac mae'n cael ei adolygu yn flynyddol neu os daw newidiadau statudol neu reoleiddiol yn unol â pharagraff 41.

42. Mae gan y Prif Swyddog Tân awdurdod i wneud mân newidiadau o ganlyniad i newid statudol neu reoleiddiol, neu i ddiweddaru trefniadau o ganlyniad i ffactorau allanol eraill.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol, (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown, Rheolwr Pensiynau** |
| Pwnc | **Datganiad Polisi Disgresiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad ar y Rheolwr Cynllun (sef yr Awdurdod) i lunio Datganiad Polisi Disgresiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau ym Mholisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân a cheisio cymeradwyaeth, ar ran y rheolwr cynllun, y bydd penderfyniadau'n cael eu dirprwyo o ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Dan Reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud ag elfennau disgresiynol penodol y cynllun. Rhaid i'r Awdurdod lunio a chyhoeddi polisi disgresiynau yn nodi a fydd disgresiwn yn cael ei ddefnyddio ai peidio.

## ARGYMHELLION

4 Dyma ofyn i'r Aelodau gymeradwyo pob penderfyniad disgresiynol sydd yn Natganiad Polisi Digresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys, lle bo hynny'n briodol, dirprwyo penderfyniadau i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

## SYLWADAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL

5 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 27 Mai 2020 ac ni amlygwyd unrhyw faterion o bwys.

**CEFNDIR**

6 Ar hyn o bryd, mae pedwar cynllun pensiwn yn bodoli ar gyfer diffoddwyr tân, sef Cynllun 1992 (FPS), Cynllun 2007 (NFPS), Cynllun Pensiwn Addasedig ar gyfer y system RDS (MPS) a Chynllun 2015. Mae'r polisi hwn yn nodi rhai o'r disgresiynau sy'n berthnasol i'r cynlluniau ac mae'n ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar ffyrdd o ddelio â'r disgresiynau hyn.

**GWYBODAETH**

7 Mae cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn mynnu bod pob rheolwr cynllun

(i) yn cyhoeddi datganiad polisi ysgrifenedig ynghylch y modd y bydd yn defnyddio'r gwahanol ddisgresiynau a ddarperir gan y cynlluniau pensiwn;
(ii) yn ei gadw dan adolygiad a
(iii) yn ei ddiwygio fel y bo angen.

8 Mae crynodeb o'r elfennau disgresiynol ym mhob cynllun a'r dull a argymhellir wedi ei nodi yn y polisi disgresiynau drafft yn atodiad A.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Polisi Disgresiynau yn darparu eglurhad ar gyfer gwneud penderfyniadau am rai materion yn ymwneud â phensiynau, gan gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Gall rhai penderfyniadau effeithio ar y gyllideb o ran taliadau pensiwn uwch gan y cyflogwr, a'r effaith ar brisiadau actiwaraidd yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r gwaith o weinyddu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn darparu ar gyfer nifer o bwerau disgresiwn ar ran yr Awdurdod Tân. |
| Staffio | Effaith bosibl ar lefelau staffio os yw rhai disgresiynau yn effeithio ar y broses y mae aelod yn mynd drwyddi wrth wneud penderfyniadau am ymddeol. Effaith bosibl ar dderbyn dyrchafiadau dros dro. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth |

**Polisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân**

Math o ddogfen: Polisi

Rhif fersiwn: 3

Dyddiad adolygu: 15 Mehefin 2022

Mae'r disgresiynau canlynol yn agored i'w newid, naill ai yn unol ag unrhyw newid yn y rheoliadau neu oherwydd ystyriaeth briodol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC). Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol.

**Rheoliadau a Disgresiynau Cynlluniau FPS (92), NFPS (2007) ac NFPS 2015 Argymhellion**

| **RHAN 1 – CYNLLUN NFPS 2015** | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Esboniad** | **Argymhelliad** |
| **Dirprwyo Cynllun NFPS 2015 (Rheoliad 14 (2))** | Rhaid i'r rheolwr cynllun sicrhau bod y pwerau dirprwyedig yn briodol ac yn gyfoes. | O dan y Cynllun Dirprwyaeth mae gan yr Awdurdod yr hawl i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o gyflawni'r holl faterion sy'n ymwneud â gweinyddiaeth a rheolaeth weithredol y gwasanaeth a'i swyddogaethau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân. |
| **Optio i mewn (Rheoliad 21)** | **Optio i mewn i'r cynllun (Rheoliad 21).** Bydd y sawl sy'n optio i mewn yn dod yn aelod actif o'r cynllun gan ddechrau yng nghyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio. Mae opsiwn i'r rheolwr cynllun amrywio'r dyddiad pryd mae'r person yn dod yn aelod actif, i ryw adeg pryd mae'r rheolwr cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 21(5)] | Bydd y dyddiad optio i mewn yn dod i rym ar ddechrau cyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd caiff yr opsiwn ei ddefnyddio. (Er gwybodaeth – mae'r cyflog cyntaf bythefnos ymlaen llaw a phythefnos ar ôl dyddiad y cyflog misol). |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Optio allan ar ôl y tri mis cyntaf (Rheoliad 25)** | Bydd y sawl sy'n optio i mewn yn rhoi'r gorau i fod mewn gwasanaeth pensiynadwy o ddyddiad cyntaf cyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio. Os yw'r rheolwr cynllun yn ystyried bod y diwrnod hwnnw'n amhriodol, gall amrywio'r dyddiad i ddyddiad cyntaf unrhyw gyfnod cyflog diweddarach y mae rheolwyr y cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 25(2)(b)] | Bydd y dyddiad optio allan yn dod i rym ar ddechrau cyfnod y cyflog cyntaf yn dilyn y dyddiad pryd mae'r opsiwn yn cael ei ddefnyddio, cyn belled bod y ffurflenni optio allan yn cael eu derbyn cyn y terfynau amser misol ar gyfer prosesu'r gyflogres. |
| **Cyflog pensiynadwy (Rheoliad 26). Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i benderfynu a yw taliadau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cael eu trin fel cyflog pensiynadwy ai peidio. (Rheoliad 26 (1)(d).** | Dan gynllun FPS1992 a chynllun 2007, roedd taliadau DPP yn cael eu trin fel rhai pensiynadwy ac yn cael eu cynnwys yn y dyfarniadau buddion fel Buddion Pensiwn Ychwanegol. | Bydd taliadau DPP yn parhau i fod yn bensiynadwy dan drefniadau Buddion Pensiwn Ychwanegol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| **Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig (Rheoliad 120). Yn berthnasol i bob cynllun.** | Os yw aelod actif yn absennol o gyflogaeth y cynllun oherwydd salwch neu anaf ac nad oes ganddo hawl i dderbyn cyflog pensiynadwy, neu oherwydd anghydfod diwydiannol neu absenoldeb di-dâl awdurdodedig, gall dalu cyfraniadau aelod; os yw'n gwneud hynny, gall y rheolwr cynllun ei gwneud yn ofynnol iddo/iddi dalu cyfraniadau'r cyflogwr hefyd. (Rheoliad 120(2), (3) a (4)). | **Salwch ac anaf (Rheoliad 120)** - ATAGC yn cytuno i ddirprwyo i'r awdurdod i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, i ystyried pob achos yn unigol i bennu pa unai y bydd yr unigolyn neu'r cyflogwr yn talu cyfraniadau'r cyflogwr.<br><br>**Anghydfod undebol (Rheoliad 120(3)** - Bydd raid i'r aelodau dalu cyfraniadau'r cyflogwr yn unol â Rheoliad 126(3) ym mhob achos pryd mae aelod actif yn prynu pensiwn yn ôl os oes anghydfod(au) diwydiannol.<br><br>**Absenoldeb di-dâl awdurdodedig (Rheoliad 120(4)** – mae'r Awdurdod yn cytuno dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, i ystyried pob achos yn unigol, i ystyried pob achos yn unigol i bennu pa un ai a fydd yr sailyn neu'r cyflogwr yn talu cyfraniadau'r cyflogwr.<br><br>O ran pob achos pryd mae rheoliadau 120 paragraffau 2, 3 neu 4 yn berthnasol, rhaid talu'r cyfraniadau cyn pen 6 mis ar ôl i ATAGC ofyn am yr arian, ac ar y gyfradd sy'n berthnasol ar y pryd. Bydd ATAGC fel arfer yn gwneud cais am yr arian cyn pen 6 mis ar ôl i'r absenoldeb/anghydfod ddod i ben. |
| **Sefydlu cyfrifon pensiwn: cyffredinol (Rheoliad 37)** | Rhaid i'r rheolwr cynllun sefydlu a chynnal cyfrifon pensiwn ar gyfer aelodau'r cynllun, ond gellir eu cadw ar ffurf y mae'r rheolwr cynllun yn ei hystyried yn briodol. [Rheoliad 37(2)] | Bydd yr Awdurdod yn cynnal cyfrifon pensiwn ar gyfer aelodau'r cynlluniau yn y dull mwyaf addas ym marn yr Awdurdod. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Cau ac ailsefydlu cyfrif aelod actif (Rheoliad 46)** | Os oes gan aelod fwy na dau gyfrif aelod actif a'i fod yn rhoi'r gorau i wasanaeth pensiynadwy â llai na thri mis o wasanaeth cymwys ar gyfer un cyfrif, rhaid cau'r cyfrif hwnnw a chyfuno'r buddion gydag un o'r lleill; caiff yr aelod ddewis pa un. Os bydd yr aelod yn methu dewis, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ddewis. [Rheoliad 46(3), (4) a (5)]. | Ar adegau pryd mae'r aelod yn methu dewis y cyfrif y dylid cyfuno'r buddion ynddo, bydd yr Awdurdod yn dewis y cyfrif mwyaf addas ym marn yr Awdurdod. Yn fwy na thebyg hwn fydd y cyfrif mwyaf cost effeithiol i'r Awdurdod ond ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Cau cyfrif aelod gohiriedig ar ôl bwlch yn y gwasanaeth pensiynadwy nad yw'n hwy na phum mlynedd. (Rheoliad 58)** | Os yw aelod gohiriedig yn dod i mewn i gyflogaeth bensiynadwy eto ar ôl bwlch o bum mlynedd neu lai, rhaid i'r rheolwr cynllun gau cyfrif yr aelod gohiriedig ac adsefydlu cyfrif yr aelod actif, gan drosglwyddo cofnodion o'r cyfrif gohiriedig. Os oes gan y person fwy nag un cyfrif aelod gohiriedig perthnasol, rhaid iddo/iddi ddewis – cyn pen tri mis ar ôl dod i mewn i gyflogaeth y cynllun eto – pa un i'w ddewis. Os nad yw'n dewis, rhaid i'r rheolwr cynllun wneud y dewis ar ei ran. [Rheoliad 58(3) a (4)] | Pan fo gan aelod fwy nag un cyfrif gohiriedig ac y mae'n methu dewis pa gyfrif i'w gau bydd yr Awdurdod yn dewis y cyfrif mwyaf addas ym marn yr Awdurdod. Yn fwy na thebyg hwn fydd y cyfrif mwyaf cost effeithiol i'r Awdurdod ond ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun. |
| **Ymddeoliad a ysgogir gan y cyflogwr (Rheoliad 71)** | Gall cyflogwr benderfynu bod aelod actif sy'n 55 mlwydd oed neu hŷn ond o dan 60 mlwydd oed ac sy'n cael ei ddiswyddo ar sail effeithlonrwydd busnes neu'n cael terfynu ei gyflogaeth drwy gyd-gytundeb, yn gallu derbyn taliad pensiwn ymddeol ar unwaith heb ostyngiad taliad cynnar. Caiff cyflogwr ddefnyddio'r disgresiwn hwn dim ond yw'r cyflogwr yn penderfynu y byddai dyfarnu pensiwn ymddeol ar y sail hwn yn gymorth i reoli ei swyddogaethau yn ddarbodus, effeithol ac effeithlon ar ôl ystyried y costau sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r achos penodol hwnnw. [Rheoliad 71(1) a (2)] | Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn caniatáu talu buddiannau yn gynnar at ddibenion effeithlonrwydd busnes nac yn hepgor unrhyw ostyngiadau actiwaraidd, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried yr achos busnes; rhaid i'r Prif Swyddog Tân gymeradwyo'r achos mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad (Rheoliad 72) (h.y. ymddeoliad hyblyg)** | Caiff aelod actif o gynllun 2015, sy'n 55 mlynedd oed o leiaf ac sydd â hawl i daliad pensiwn ar unwaith os yw'n gadael gwasanaeth pensiynadwy ac yn hawlio taliad pensiwn, ddewis hawlio ei holl bensiwn cronedig (2015) ond parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy. Rhaid i'r person dan sylw roi rhybudd priodol i'r rheolwr cynllun a chymryd yr opsiwn o ran-ymddeoliad ar ddyddiad y cytunir arno rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun. [Rheoliad 72(5)] | Pan fo aelod sydd o leiaf 55 oed yn dewis hawlio ei holl bensiwn cronedig (2015) ond yn parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy, bydd yr Awdurdod yn cytuno ar ddyddiad sydd fwyaf addas i'r Awdurdod, gan ystyried gofynion gweithredol. |
| **Buddion Afiechyd – Adolygu dyfarniad afiechyd neu daliad o bensiwn ymddeol yn gynnar (Rheoliad 77)** | Rhaid i'r rheolwr cynllun gael polisi ar gyfer adolygu, ar adegau sy'n addas yn eu tyb nhw, ddyfarniad pensiynau ar sail afiechyd pan fo'r derbynnydd o dan oedran pensiwn gohiriedig ac wedi bod yn derbyn y dyfarniad ers llai na 10 mlynedd, ac ar gyfer adolygu talu pensiynau gohiriedig yn gynnar ar sail afichyd am yr amser y mae'r derbynnydd o dan oedran pensiwn gohiriedig. [Rheoliad 77(1) a (2)] | Bob 5 mlynedd, bydd yr Awdurdod yn adolygu pensiynau ar sail afiechyd mewn perthynas ag unigolion sydd o dan oedran pensiwn gohiriedig ac wedi bod yn derbyn y dyfarniad ers llai na 10 mlynedd, a bydd yn adolygu talu pensiynau gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd am yr amser y mae'r derbynnydd o dan oedran pensiwn gohiriedig.<br><br>Caiff dyfarniadau ar sail anafiadau eu hadolygu yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol yn ei dystysgrif. |
| **Canlyniadau adolygu (Rheoliad 78)** | Os bydd y rheolwr cynllun, ar ôl adolygu pensiwn ar sail afiechyd haen is dan Reoliad 77, yn penderfynu bod y derbynnydd yn gallu cyflawni'r dyletswyddau sy'n briodol i'r swydd y mae'r person wedi ymddeol ohoni ar sail afiechyd, rhaid i'r cyflog ystyried a yw am gynnig ailgyflogi ai peidio. [Rheoliad 78(3)] | Pan fo aelod yn derbyn pensiwn haen is ar sail afiechyd a'i fod methu â chyflawni dyletswyddau'r rôl y maent yn ymddeol ohoni, bydd yr Awdurdod yn ystyried cynnil ail-gyflogi'r unigolyn dan amgylchiadau unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Cychwyn pensiynau (Rheoliad 79)** | Os yw aelod gohiriedig yn gofyn am daliad pensiwn cynnar ar sail afiechyd, a bod ganddo hawl i hynny, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu ar ddyddiad y taliad fel y dyddiad pryd mae'r person wedi methu â chyflawni cyflogaeth arferol oherwydd ei fod yn fethedig yn feddyliol neu'n gorfforol, neu os na ellir gwirio pryd yw'r dyddiad hwnnw, fel dyddiad cais yr aelod am daliad cynnar. [Rheoliad 79(7)]<br><br>Os yw aelod gohiriedig yn gwneud cais am ohirio taliad pensiwn gohiriedig y tu hwnt i oedran pensiwn gohiriedig, neu'n gofyn am daliad cynnar gyda gostyngiad taliad cynnar cyn oedran pensiwn gohiriedig, bydd y rheolwr cynllun yn penderfynu ar ddyddiad y taliad ar ôl i'r hawliad am daliad gael ei wneud. [Rheoliad 79(8)] | Ystyrir cais am daliad cynnar dim ond dan amgylchiadau eithriadol os oes sail i gyfiawnhau gwneud hynny. Os ystyrir bod aelod gohiriedig yn gymwys i daliad pensiwn cynnar , bydd yr Awdurdod yn penderfynu ar ddyddiad y taliad hwnnw wedi i'r cais a, daliad gael ei wneud ar sail unigol. Ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Dewisiad i ddyrannu (Rheoliad 81)** | Rhaid i'r rheolwr cynllun gydsynio i ddyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd nad yw'n ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw ag aelod actif neu ohiriedig. (Gellir cadw cydsyniad yn ôl os nad yw'r rheolwr cynllun wedi'i fodloni bod y person a enwebir yn ddigon dibynnol ar yr aelod actif). [Rheoliad 81(3)(b) a (4)] | Cyn cytuno i'w ddyfarnu, rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod y sawl a enwebir yn ddigon dibynnol ar yr aelod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried tystiolaeth ariannol dros gyfnod o ddwy flynedd. Ystyrir pob achos yn unigol a bydd rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Addasu budd a ddyrannwyd (Rheoliad 84)** | Os yw aelod sydd wedi dewis dyrannu yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed, ac nad yw swm y pensiwn dyfarnedig yn gymwys fel pensiwn cynllun y diffynydd dan adran 167 o o Ddeddf Cyllid 2004 (rheolau buddion pensiwn marwolaeth), gellir addasu'r swm mewn modd a benderfynir gan y rheolwr cynllun. [Rheoliad 84(1) a (2)] | Pan nad ydi'r pensiwn dyranedig yn gymwys fel pensiwn cynllun y diffynnydd, rhaid i'r Awdurdod ei addasu'n briodol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Ystyr "partner sy'n goroesi" (Rheoliad 85)** | Gellir ystyried partner sy'n cyd-fyw yn "bartner sy'n goroesi" a gall, o bosibl, fod yn gymwys i gael pensiwn ar yr amod ei fod yn bodloni rhai amodau penodol, ac un ohonynt yw bod rhaid iddo fod mewn "perthynas hirdymor" – am gyfnod o ddwy flynedd barhaus o leiaf – ar y dyddiad pryd mae angen ystyried yr hawl. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ganiatáu i'r person fod yn gymwys os yw'r cyfnod yn llai na dwy flynedd. [Rheoliad 85(1)(b)(v) a (2)] | Pan fo Partner sy'n Goroesi wedi bod mewn perthynas hirdymor am gyfnod parhaus sy'n llai na dwy flynedd, fel arfer ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu i berson fod yn gymwys heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Y person y mae cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy iddo (Rheoliad 104)** | Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn absoliwt ynglŷn â phwy sy'n dderbyn unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth sy'n daladwy. [Rheoliad 104] | Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei ddisgresiwn ynglŷn â phwy fydd yn derfyn y taliad lwmp swm pan nad ydi'r mater yn un syml. |
| **Talu pensiynau o dan "Buddion Marwolaeth" Rhan 6 (Rheoliad 109)** | Os oes pensiwn plentyn yn ddyledus i blentyn cymwys dan 18 oed, bydd y rheolwr cynllun yn penderfynu i bwy y dylid ei dalu a bydd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r person hwnnw ynglŷn â sut y dylid defnyddio'r taliad er budd y plentyn cymwys. [Rheoliad 109(2)] | Wrth dalu Buddion Marwolaeth i blentyn dyledus dan 18 oed, bydd yr Awdurdod yn ystyried fesul achos i bwy y dylid ei dalu a sut y dylid ei ddefnyddio. |
| **Pensiynau partner sy'n goroesi a phlentyn cymwys: atal ac adennill (Rheoliad 110)** | Mae gan y rheolwr cynllun hawl i roi'r gorau i dalu pensiwn partner sy'n goroesi a/neu bensiwn plentyn cymwys ac i adennill unrhyw daliad a wnaed mewn perthynas â phensiwn pan ymddengys i'r rheolwr cynllun fod y derbynnydd wedi gwneud datganiad ffug, neu'n fwriadol wedi cuddio ffaith bwysig mewn cysylltiad â'r dyfarniad. (Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y rheolwr cynllun i adennill taliad neu ordaliad dan unrhyw ddarpariaeth arall pan fo'r rheolwr cynllun yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny). [Rheoliad 110(2) a (3)] | Bydd yr Awdurdod yn rhoi'r gorau i dalu pensiwn partner sy'n goroesi a/neu bensiwn i blentyn cymwys ac yn adennill unrhyw daliad a wnaed pan ymddengys fod datganiad ffug wedi ei wneud neu phan fo ffaith bwysig wedi ei chydio yn fwriadol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Dyfarniadau dros dro o bensiynau plentyn cymwys: addasiadau diweddarach (Rheoliad 111)** | Os oes pensiynau plant wedi eu gwneud i rai personau penodol ar y sail eu bod yn blant cymwys ac nad oedd unrhyw blant eraill, a'i bod yn ymddangos wedyn nad oedd rhai o'r plant hynny yn gymwys, neu fod plentyn cymwys arall heb gael taliad, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i addasu swm y pensiynau fel sy'n ofynnol o ran y ffeithiau fel y maent yn ymddangos wedyn. Gellir gwneud yr addasiadau am yn ôl. [Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y rheolwr cynllun i adennill taliad neu ordaliad o dan unrhyw ddarpariaeth arall pan fo'r rheolwr cynllun yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.) [Rheoliad 111(2) a (3)] | Pan fo plentyn yn gymwys/anghymwys i bensiwn plentyn, bydd yr Awdurdod yn addasu'r pensiwn hwnnw'n briodol. Ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Addasu buddion i gydymffurfio â Deddf Cyllid 2004 pan fydd farw aelodau dros 75 oed (Rheoliad 113)** | Os bydd farw aelod ar ôl cyrraedd 75 oed, ac na fyddai unrhyw ran o bensiwn y mae person yn cael hawl iddo ar farwolaeth yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynnydd at ddibenion adran 167 o Ddeddf Cyllid 2004 (rheolau buddion marwolaeth pensiwn), mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i addasu'r buddion sy'n daladwy i'r person fel y byddai'n gymwys o dan yr adran honno o'r Ddeddf. [Rheoliad 113(1)(a) a (2)] | Fe all yr Awdurdod addasu'r buddion sy'n daladwy i unigolion nad ydynt yn gymwys o dan y cynllun i ddibynyddion p dan Ddeddf Cyllid 2004. Ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Cyfraniadau aelod (Rheoliad 119)** | Pan fo newid yng nghyflogaeth cynllun, neu newid arwyddocaol yn effeithio ar gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn ariannol a bod y swm diwygiedig yn dod o fewn band cyfradd cyfraniad gwahanol, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu y dylai'r gyfradd hon gael ei defnyddio a hysbysu'r aelod o gyfradd y cyfraniad newydd a'r dyddiad pryd y dylid ei defnyddio. [Rheoliad 119(5)] | Bydd yr Awdurdod yn asesu cyfraniadau pan fydd newid i gyflog pensiynadwy aelod a bydd yn adolygu cyfraddau yn briodol. Bydd yr aelod yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r newid ar adeg y newid. Wrth ganfod y gyfradd briodol ar gyfer cyfraniadau aelod, dan rai amgylchiadau penodol dylid diystyru gostyngiad cyfog yn unol â Rheoliad rhif 120. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Didynnu a thalu cyfraniadau (Rheoliad 123)** | Gallai cyfraniadau aelod sy'n ddyledus o dan Reoliad 119 gael eu didynnu gan gyflogwr y cynllun o bob rhandaliad o gyflog pensiynadwy fel y daw'n ddyledus, oni bai y cytunwyd ar ddull arall o dalu rhwng y rheolwr cynllun a'r aelod. [Rheoliad 123(1)]<br>Gallai cyfraniadau sy'n ddyledus mewn perthynas ag absenoldeb o'r gwaith ar seibiant gwasanaeth lluoedd wrth gefn gael eu didynnu o unrhyw daliad a wneir dan Ran 5 o Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn ac Ategol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951. [Rheoliadau 123(2)]<br>Gallai cyfraniadau y mae'n rhaid i'r aelod eu talu, neu y mae wedi dewis eu talu dan Reoliadau 111 a 113, gael eu talu drwy gyfandaliad neu drwy ddidynnu o randaliadau o gyflog pensiynadwy fel y cytunir rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun. [Rheoliad 123(3)] | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod cyfraniadau'r aelod dan Reoliad 119 yn cael eu didynnu bob rhandaliad o gyflog pensiynadwy fel y daw'n ddyledus oni bai y cytunwyd ar ddull arall o dalu rhwng yr Awdurdod a'r aelod. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod cyfraniadau'r aelod sydd yn ddyledus mewn perthynas ag absenoldeb o'r gwaith ar seibiant gwasanaeth lluoedd arfog wrth gefn yn cael eu didynnu am unrhyw daliad a wneir dan Ran 5 o Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn ac Ategol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod cyfraniadau sy'n ddyledus gan yr aelod, neu y mae wedi dewis eu talu o dan Reoliadau 120 a 121, yn cael eu talu drwy gyfandaliad neu drwy ddidynnu o randaliadau o gyflog pensiynadwy fel y cytunir rhwng yr Aelod ar Awdurdod, i'w gytuno fesul achos. |
| **Datganiad o hawlogaeth (Rheoliad 144)** | Rhaid i'r rheolwr cynllun bennu, mewn datganiad ynghylch hawlogaeth, beth yw'r "dyddiad gwarant" ar gyfer cyfrifo'r gwerth cyfwerth ag arian parod neu'r gwerth trosglwyddo; rhaid i'r dyddiad hwn syrthio o fewn y tri mis sy'n dechrau ar y dyddiad pryd mae'r aelod yn gwneud cais am y datganiad ynghylch hawl, ac o fewn deg diwrnod sy'n dod i ben ar y dyddiad pryd mae'r aelod yn cael y datganiad. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn, os yw'n credu bod hynny'n rhesymol, i ymestyn y dyddiad hwn i chwe mis o gais yr aelod, os na ellir, am resymau y tu hwnt i reolaeth y rheolwr cynllun, gyfrifo'r gwerth trosglwyddo cyn diwedd y cyfnod o dri mis. [Rheoliad 144(4)] | Argymhellir na fydd dyddiad cyfrifo'r gwerth trosglwyddo ond yn cael ei ymestyn pan na ellir cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo'r gwerth trosglwyddo cyn diwedd y cyfnod o dri mis, neu pan fo amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Ni chaiff dyddiad yr estyniad ei ymestyn y tu hwnt i chwe mis ar ôl cais yr aelod. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Cais am dderbyn taliad trosglwyddo (Rheoliad 150). Mae hyn yn berthnasol i bob cynllun.** | Mae terfyn amser o flwyddyn rhwng dod yn aelod actif a gwneud cais i drosglwyddo taliad o gynllun pensiwn analwedigaethol. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod hwn. [Rheoliad 150(3)] | Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol wedi deuddeg mis o ymuno oni bai:<br><br>(i) bod yr aelod o'r cynllun wedi gofyn i ymchwiliadau ddechrau cyn pen y terfyn o ddeuddeg mis, neu<br><br>(ii) bod rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod bod angen gofyn am ymchwiliad i drosglwyddiad posibl i mewn neu hawliau pensiwn blaenorol o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, a bod ffeiliau Adnoddau Dynol a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd cyfnod hirach o amser yn cael ei ganiatáu oni bai fod rheswm hysbys neu siawns y bydd y gweithiwr yn cael mynediad at ei hawliau pensiwn o fewn y 12 mis nesaf.<br><br>Mae hyn yn berthnasol hefyd i geisiadau trosglwyddo cynllun pensiwn galwedigaethol. |
| **Datganiad Trosglwyddo (Rheoliad 151)** | Gall y rheolwr cynllun fynnu bod aelod actif yn gofyn i reolwr cynllun pensiwn blaenorol nad yw'n glwb i ddarparu datganiad o swm y pensiwn a drosglwyddwyd y byddai gan yr aelod hawl i'w gyfrifo ar yr amod fod y dyddiad trosglwyddo rhwng dau fis o ddyddiad y datganiad. [Rheoliad 151(2)] | Argymhellir cymeradwyo'r disgresiwn hwn; caiff pob achos ei ystyried ar sail unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Datganiad o werth trosglwyddiad clwb (Rheoliad 153)** | Gall y rheolwr cynllun fynnu bod aelod actif yn gofyn i reolwr cynllun pensiwn clwb blaenorol ddarparu datganiad o swm y pensiwn a drosglwyddwyd y byddai gan yr aelod hawl i'w gyfrifo ar yr amod fod y dyddiad trosglwyddo rhwng dau fis o ddyddiad y datganiad. [Rheoliad 153(2)] | Argymhellir cymeradwyo'r disgresiwn hwn; caiff pob achos ei ystyried ar sail unigol. |
| **Apelau a phenderfyniadau Apêl ynghylch cofnodion ar dystysgrif (Rheoliad 157)** | Os nad yw aelod yn fodlon â thystysgrif sy'n nodi'r manylion sydd yn eu cyfrif(on) pensiwn fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 156, gall fynnu bod y rheolwr cynllun yn delio â'u hanghytundeb dan drefniadau a weithredir gan y rheolwr cynllun yn unol â gofynion adran 50 o Ddeddf Pensiynau 1995 (datrys anghydfodau) a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweithdrefnau Mewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau) 2008. Rhaid i'r rheolwr cynllun gael y trefniadau hyn. [Rheoliadau 157(1)] | Os nad yw aelod yn fodlon â thystysgrif sy'n nodi'r manylion sydd yn ei gyfrif(on) pensiwn fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 156, mae'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau yn nodi'r broses y dylai'r aelod ei dilyn i geisio datrysiad. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Treuliau pob un o'r partïon (Rheoliad 161)** | Os yw'r bwrdd apeliadau meddygol yn penderfynu o blaid y rheolwr cynllun, ac yn dweud bod yr apêl, yn eu barn nhw, yn un ddisylwedd, gwacsaw neu'n amlwg yn ddi-sail, gall y rheolwr cynllun fynnu bod yr apelydd yn talu swm nad yw'n uwch na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r bwrdd o dan Reoliad 160(1) fel y mae'r rheolwr cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 161(2)]<br><br>Os yw'r apelydd yn tynnu'n ôl yr apêl sy'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a benodwyd ar gyfer cyfweliad a/neu archwiliad meddygol llai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a benodwyd, gall y rheolwr cynllun fynnu bod yr aelod yn talu swm nad yw'n uwch na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r bwrdd o dan Reoliad 160(1), fel y mae'r rheolwr cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 161(3)(a)]<br><br>Os yw gweithredoedd neu anweithredoedd yr apelydd yn achosi i'r bwrdd ganslo neu ohirio'r dyddiad a benodwyd neu'r cyfweliad a/neu'r archwiliad meddygol llai na 22 diwrnod cyn y dyddiad a benodwyd, gall y rheolwr cynllun fynnu bod yr aelod yn talu swm nad yw'n uwch na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r bwrdd o dan Reoliad 160(1), fel y mae'r rheolwr cynllun yn ei ystyried yn briodol. [Rheoliad 161(3)(b)] | Ym mhob un o'r achosion uchod, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod yr apelydd yn talu'r uchafswm a ganiateir heb fod yn uwch na chyfanswm y ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r bwrdd o dan Reoliad 170(1) |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Rôl Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol mewn penderfyniadau gan y rheolwr cynllun (Rheoliad 162)** | Rhaid i'r rheolwr cynllun ddewis Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol i ddarparu barn ysgrifenedig am faterion meddygol na ellir ond eu penderfynu drwy ystyried barn o'r fath. [Rheoliad 162(1)]<br><br>Os yw person, yn fwriadol neu'n esgeulus, yn methu â mynd i archwiliad meddygol gan yr Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol, a bod yr Ymarferwr hwnnw'n methu rhoi barn ar sail y dystiolaeth feddygol sydd ar gael, gall y rheolwr cynllun wneud y penderfyniad ar sail y dystiolaeth feddygol y mae'r rheolwr cynllun yn ei hystyried yn addas, neu heb dystiolaeth feddygol. [Rheoliad 162(7)] | Os yw person, yn esgeulus, wedi methu â mynd i archwiliad meddygol gan yr Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol, a bod yr Ymarferwr hwnnw'n methu rhoi barn ar sail y dystiolaeth feddygol sydd ar gael, bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad ar sail y dystiolaeth feddygol y mae'n ei hystyried yn addas, neu heb dystiolaeth feddygol |
| **Adolygu barn feddygol (Rheoliad 163)** | Pan fo aelod yn gofyn am gael adolygiad o farn Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol yng ngoleuni tystiolaeth newydd a gafwyd gan y rheolwr cynllun cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r aelod gael y farn, caiff y rheolwr cynllun gytuno i roi cyfle i'r Ymarferwr hwnnw adolygu'r farn. [Rheoliad 163(1).<br>Ar ôl cael ymateb yr Ymarferwr, rhaid i'r rheolwr cynllun gadarnhau neu ddiwygio ei benderfyniad gwreiddiol a hysbysu'r aelod o'r penderfyniad. [Rheoliad 163(4) a (5)] | Pan fo'r Awdurdod yn derbyn tystiolaeth newydd gan aelod cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r aelod gael y farn, bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol adolygu'r farn. Ar gyngor yr Ymarferwr hwnnw, bydd yr Awdurdod yn adolygu'r penderfyniad gwreiddiol a chynghori'r aelod yn unol â hynny. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Hysbysiad o apêl (Rheoliad 165)** | Os yw aelod yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad gan y rheolwr cynllun, a bod ei gŵyn yn ymwneud â'r farn feddygol y gwnaed y penderfyniad yn seiliedig arni, gall apelio i fwrdd o ganolwyr meddygol. Rhaid gwneud yr apêl cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pryd mae'r aelod yn cael y dogfennau perthnasol o dan Reoliad 154(4). Os na wneir yr apêl o fewn y terfyn amser hwn, a bod y rheolwr cynllun o'r farn nad oherwydd methiant y person ei hun y mae'r person wedi peidio â rhoi hysbysiad o fewn y cyfnod gofynnol, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser am gyfnod y mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn briodol, ond nid mwy na chwe mis ar ôl y dyddiad pryd darparwyd dogfennau Rheoliad 154(4). [Rheoliad 165(2)] | Os na wneir yr apêl o fewn y terfyn amser a nodwyd, a bod yr Awdurdod o'r farn nad oherwydd methiant y person ei hun y mae'r person wedi peidio â rhoi hysbysiad o fewn y cyfnod gofynnol, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser hyd at uchafswm o fis o ddyddiad y terfyn amser gwreiddiol. |
| **Cyfeirio apêl i'r bwrdd (Rheoliad 166)** | Pan fo aelod wedi rhoi hysbysiad o apêl i fwrdd o ganolwyr meddygol, cyn i'r bwrdd drefnu amser a lle ar gyfer y cyfweliad a'r archwiliad meddygol, bydd aelod o'r bwrdd yn adolygu'r dogfennau a ddarparwyd i'r bwrdd yn unol â Rheoliad 166. Os yw'r aelod o'r bwrdd o'r farn y gallai'r bwrdd ystyried yr apêl yn un wacsaw, blinderus neu'n amlwg yn un ddi-sail, bydd yr aelod o'r bwrdd yn hysbysu Gweinidogion Cymru o hynny. Caiff y rheolwr cynllun gopi o hyn, a rhaid iddynt hwythau, yn eu tro, anfon copi ohono i'r aelod o'r cynllun gan ei hysbysu bod ei apêl yn aflwyddiannus, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r aelod dalu costau'r rheolwr cynllun, a chan ofyn am gadarnhad gan yr aelod cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd a yw, yn yr amgylchiadau, yn dymuno gwneud yr apêl ynteu ei thynnu'n ôl. [Rheoliad 166(8) i (12)]. Rhaid i'r rheolwr cynllun roi gwybod i Weinidogion Cymru beth yw ymateb yr apelydd, a byddant hwy yn hysbysu'r bwrdd o hynny. | Os ydi'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn penderfynu bod yr apêl yn 'un wacsaw, blinderus neu'n amlwg yn un ddi-sail' bydd yr Awdurdod yn mynnu bod yr apelydd yn talu swm priodol iddo heb fod yn uwch na'r swm sydd wedi ei gapio yn unol â'r rheoliadau. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| **Y weithdrefn pan wneir apêl (Rheoliad 167)** | Rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu pa bersonau a fydd yn mynychu'r cyfweliad fel ei gynrychiolwyr. Hefyd, rhaid i'r rheolwr cynllun penderfynu a yw am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig ai peidio (a rhaid iddo benderfynu ar ymateb i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig gan yr apelydd). [Rheoliad 167(6) i (9)] | Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn unol â'r rheoliadau. |
| **Apeliadau ar faterion eraill (Rheoliad 173)** | Os yw aelod yn anghytuno â phenderfyniad rheolwr cynllun ynghylch dyfarniad o dan Reoliad 161 ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater o natur feddygol, gall yr aelod fynnu bod y rheolwr cynllun yn delio â'r anghytundeb dan ofynion y mae'n rhaid i'r rheolwr cynllun eu cael yn unol ag adran 50 o Ddeddf Pensiynau 1995 (gofyniad ar gyfer trefniadau datrys anghydfodau) a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol Gweithdrefnau Mewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau) 2008. [Rheoliad 173] | Os yw aelod yn anghytuno â phenderfyniad yr Awdurdod ynghylch dyfarniad o dan Reoliad 161 ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater o natur feddygol, gall yr aelod ddilyn Gweithdrefn Fewnol yr Awdurdod ar gyfer Datrys Anghydfodau. |
| **Talu pensiynau Cymudo pensiynau bach (Rheoliad 177)** | Os nad yw'r hawl pensiwn sydd gan aelod o'r cynllun, neu'r hawl pensiwn sydd gan fuddiolwr aelod, yn uwch na'r uchafswm cymudo pensiynau bach, caiff y rheolwr cynllun dalu'r hawl fel cyfandaliad. Fodd bynnag, byddai hwn yn amodol ar gael cydsyniad y derbynnydd a rhaid i'r cyfandaliad gydymffurfio â'r darpariaethau cymudo sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau. [Rheoliad 177(3)] | Lle bo hynny'n briodol bydd yr Awdurdod yn caniatáu cymudo pensiynau bach i gyfandaliad yn unol â'r cyfyngiadau ariannol a osodwyd. Ystyrid pob achos ar sail unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| **Taliadau ar gyfer personau sy'n analluog i reoli eu busnes eu hunain (Rheoliad 178)** | Os yw'n ymddangos i'r rheolwr cynllun fod person ac eithrio plentyn cymwys sydd â hawl i fuddion dan y cynllun, yn analluog i reoli ei fusnes ei hun oherwydd analluogrwydd meddyliol neu fel arall, caiff y rheolwr cynllun dalu'r buddion neu ran ohonynt i berson sy'n gofalu am y person sydd â hawl, neu berson arall y gallai'r rheolwr cynllun benderfynu arno, i'w defnyddio er budd y person sydd â hawl. Os nad yw'r rheolwr cynllun yn talu'r buddion yn y ffordd hon, caiff y rheolwr cynllun eu defnyddio mewn modd y penderfyna sydd er budd y person sydd â hawl, neu unrhyw fuddiolwyr i'r person hwnnw. [Rheoliad 178] | Yr Awdurdod fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy fydd yn derbyn y swm dyledus os ydi'r unigolyn yn analluog o reoli ei fusnes ei hun. |
| **Taliadau sy'n ddyledus mewn perthynas â phersonau a fu farw (Rheoliad 179)** | Os, pan fydd farw person, na fydd y cyfanswm sy'n ddyledus i gynrychiolwyr personol y person hwnnw dan y cynllun (gan gynnwys unrhyw beth sy'n ddyledus pan fydd farw'r person) yn uwch na'r terfyn a nodir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bychain) 1965, gall y rheolwr cynllun dalu'r cyfan neu ran o'r swm sy'n ddyledus i'r cynrychiolwyr personol neu unrhyw berson neu bersonau sy'n ymddangos i reolwr cynllun ei fod â hawl i'r ystâd, heb orfod cyflwyno grant profiant neu lythyrau gweinyddu. [Rheoliad 179] | Wrth dalu buddion sy'n ddyledus i gynrychiolwyr personol, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos ar sail unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Fforffedu: troseddau a gyflawnir gan aelodau, partneriaid sy'n goroesi neu blant cymwys (Rheoliad 181)**<br>**Fforffedu pensiynau: troseddau a gyflawnir gan bersonau eraill (Rheoliad 182)**<br>**Fforffedu cyfandaliad budd marwolaeth: troseddau a gyflawnir gan bersonau eraill (Rheoliad 183)**<br>**Fforffedu: rhwymedigaethau ariannol perthnasol a cholledion ariannol perthnasol (Rheoliad 184)** | Os yw aelod, partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, gall y rheolwr cynllun gadw'n ôl bensiynau sy'n daladwy dan y cynllun i aelod, unrhyw berson mewn perthynas â'r aelod, partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys, i'r graddau ac am gyfnod y mae'n eu hystyried yn briodol. Mae'r "drosedd berthnasol" yn cael ei diffinio yn y Rheoliad hwn. Mae'r diffiniad yn cynnwys troseddau sy'n niweidiol i'r Wladwriaeth (gan gynnwys teyrnfradwriaeth) neu sy'n debygol o arwain at golli hyder yn ddifrifol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Nodir rhai amodau yn y Rheoliad, e.e. dim ond rhan o'r pensiwn sy'n uwch nag unrhyw isafswm pensiwn gwarantedig y gellir ei gadw'n ôl. [Rheoliad 181(1), (2), (3) a (5).]<br><br>Pan fo pensiwn yn cael ei gadw'n ôl, gall y rheolwr cynllun, unrhyw bryd, ac i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod sy'n addas yn ôl y rheolwr, gymhwyso'r pensiwn er budd unrhyw ddibynnydd sydd gan yr aelod, neu ei adfer i'r aelod. [Rheoliad 181(4)]<br><br>Os yw partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys yn cael ei ddyfarnu'n euog o lofruddio aelod o gynllun y byddai ei fuddion yn deillio ohono, rhaid i'r rheolwr cynllun gadw'n ôl y cyfan o bensiwn y goroeswr neu'r plentyn a fyddai'n daladwy fel arall. Fodd bynnag, os yw partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys yn cael ei ddyfarnu'n euog o ddynladdiad yr aelod neu unrhyw drosedd arall, ac eithrio llofruddiaeth, y mae lladd yr aelod yn anghyfreithlon yn elfen ynddi, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i gadw'n ôl y pensiwn y byddai ganddo hawl iddo fel arall neu beidio. Rhaid i'r swm a gedwir yn ôl fod y rhan o'r pensiwn sy'n uwch nag unrhyw isafswm pensiwn gwarantedig yn unig. Os yw'r gollfarn yn cael ei diddymu yn ddiweddarach, rhaid i'r pensiwn gael ei adfer gan ddod i rym ar ôl y dyddiad pryd bu farw'r aelod. Os yw'r person, ar ôl i'r gollfarn gael ei diddymu, yn cael ei ddyfarnu'n euog eto o lofruddiaeth, | Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos ar sail unigol a bydd angen a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| | dynladdiad neu drosedd gysylltiedig fel yr amlinellir uchod, caiff unrhyw adferiad ei ganslo. [Rheoliad 182(1) i (5)]<br>Os yw person yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, h.y. llofruddiaeth neu ddynladdiad yr aelod, neu unrhyw drosedd arall y mae lladd yr aelod yn anghyfreithlon yn elfen ynddi, rhaid i'r rheolwr cynllun gadw'n ôl y cyfan o unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth sy'n daladwy i'r person hwnnw. Fodd bynnag, os caiff y gollfarn ei diddymu yn ddiweddarach ar apêl, caiff y rheolwr cynllun, i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod ag yr ystyria'n addas, adfer i'r person y swm o bensiwn a gadwyd yn ôl. Os yw'r person, ar ôl i'r gollfarn gael ei diddymu, yn cael ei ddyfarnu'n euog eto o lofruddiaeth, dynladdiad neu drosedd gysylltiedig fel yr amlinellir uchod, caiff unrhyw adferiad ei ganslo. [Rheoliad 183]<br><br>Os oes gan aelod rwymedigaeth ariannol berthnasol neu os yw wedi achosi colled ariannol berthnasol, caiff y rheolwr cynllun, i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod yr ystyria'n briodol, gadw'n ôl fuddion sy'n daladwy i'r person hwnnw dan y cynllun. Mae "rhwymedigaeth ariannol berthnasol" a "cholled ariannol berthnasol" eu diffinio yn y Rheoliad. Mae rhai terfynau penodol, e.e. ni chaiff y swm a gedwir yn ôl ond bod yn swm sy'n uwch nag isafswm pensiwn gwarantedig y person ac ni chaiff y rheolwr cynllun ei gadw'n ôl ond os nad oes anghydfod am y swm neu, os oes anghydfod, fod gorchymyn llys neu gymrodeddwr wedi'i ddyfarnu. Rhaid i'r rhwymedigaeth ariannol fod wedi digwydd i'r cyflogwr ar ôl i'r person ddod yn aelod actif ac wedi deillio o gyflogaeth yn y cynllun neu fod yn gysylltiedig â'r gyflogaeth yn y cynllun y daeth y person yn aelod o'r cynllun, ac yn deillio o weithred neu anweithred droseddol, esgeulus neu dwyllodrus. Nodir y weithdrefn yn Rheoliad 186. [Rheoliad 184] | |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Gwrthgyfrif (Rheoliad 185)** | Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i wrthgyfrif "rhwymedigaeth ariannol berthnasol" yn erbyn hawlogaeth aelod i fuddion o dan y cynllun, yn ddibynnol ar rai amodau). Nodir y weithdrefn yn Rheoliad 186. [Rheoliad 185] | Os ydi'r Awdurdod yn bwriadu dal buddion yn ôl, rhaid dilyn y weithdrefn a nodir yn Rheoliad 186. Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. |
| **Talu'r tâl lwfans oes ar ran aelodau (Rheoliad 188)** | Ar gais aelod o'r cynllun, caiff y rheolwr cynllun, ar ran yr aelod, dalu unrhyw swm sy'n daladwy drwy ffi lwfans oes o dan adran 214 o Ddeddf Cyllid 2004. Caiff y rheolwr cynllun gydymffurfio â'r cais dim ond os yw'r aelod yn talu'r swm dan sylw ar neu cyn y dyddiad pryd y bu'r digwyddiad neu pryd mae'r aelod yn awdurdodi didynnu swm o gyfandaliad sy'n dod yn ddyledus i'r aelod dan y cynllun ar yr un pryd ag y bu'r digwyddiad. [Rheoliad 188] | Caiff penderfyniadau eu gwneud ar sail achosion unigol gan y Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd. . |
| **Ni chaiff swm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na'r terfyn cyffredinol o bensiwn ychwanegol (Atodlen 1 Rhan 1, Paragraff 4)** | Rhaid i gyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig beidio â bod yn fwy na therfyn penodol. Os yw'n ymddangos i'r rheolwr cynllun fod aelod sydd wedi dewis gwneud cyfraniadau cyfnodol, caiff y rheolwr cynllun ganslo'r dewisiad (drwy hysbysu'r aelod yn ysgrifenedig). [Atodlen 1 Rhan 1, Paragraff 4] | Os yw'n ymddangos fod cyfanswm pensiwn aelod sydd wedi dewis gwneud cyfraniadau cyfnodol am fod yn fwy na'r terfyn, bydd yr Awdurdod yn debygol o ganslo'r dewisiad hwnnw. Ystyrir unigol. |
| **Dewisiad aelod i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol (Atodlen 1 Rhan 1, Paragraff 7)** | Os yw aelod o'r cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, gall y rheolwr cynllun osod isafswm y mae'n rhaid ei thalu. [Atodlen 1 Rhan 1, Paragraff 7(3)] | Pan fo Aelod o'r Cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, cyn cytuno ar y modd o dalu, bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r gweinyddwyr pensiwn i osod yr isafswm sy'n rhaid ei dalu. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Taliadau cyfnodol (Atodlen 1 Rhan 2, Paragraff 8)** | Os yw aelod o'r cynllun eisiau gwneud taliadau cyfnodol er mwyn cael pensiwn ychwanegol, ond nad yw eisiau iddynt gael eu didynnu o gyflog pensiynadwy, caiff y rheolwr cynllun gytuno ar ddull arall o dalu. [Atodlen 1 Rhan 2, Paragraff 8 (3)] | Ni fydd y rheolwr cynllun yn caniatáu i aelod wneud taliadau rheolaidd er mwyn cael pensiwn ychwanegol heblaw drwy eu didynnu o gyflog pensiynadwy. |
| **Taliadau cyfnodol yn ystod cyfnodau o dâl pensiynadwy tybiedig (Atodlen 1 Rhan 2, Paragraff 10)** | Ar ôl cyfnod o gyflog pensiynadwy rhagdybiedig neu gyfnod o gyflog is, caiff yr aelod roi rhybudd ysgrifenedig i'r rheolwr cynllun yn awdurdodi'r cyflogwr i ddidynnu cyfanswm y taliadau – a fyddai wedi cael eu gwneud petai ond am yr absenoldeb – o gyflog yr aelod yn ystod y cyfnod o chwe mis ar ôl diwedd cyfnod y cyflog is. Gall y rheolwr cynllun ymestyn y cyfnod hwn o chwe mis. [Atodlen 1 Rhan 2, Paragraff 10(4)] | Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Awdurdod yn ymestyn y cyfnod o daliadau pensiwn rhagdybiedig hwn o chwe mis. |
| **Diogelwch Taprog Ystyr "dyddiad cau diogelwch taprog" (Atodlen 2 Rhan 1, Paragraff 3)** | Mae'r dyddiadau cau ar gyfer diogelwch taprog ar gyfer aelodau diogelwch taprog ar gael yn nhablau cynllun 1992 yn Atodlen 2 Rhan 4. Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir canfod y dyddiad cau priodol drwy droi at y band o ddyddiadau pryd mae pen-blwydd y diffoddwr tân. Mae'r dyddiad diogelwch taprog ar gyfer aelod diogelwch taprog o FPS 2007 y mae paragraff 9(5) neu 21 yn gymwys iddo (aelodau sy'n dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy) yn cael ei benderfynu gan y rheolwr cynllun. [Atodlen 2 Rhan 1, Paragraff 3(3); Atodlen 2 Rhan 2, Paragraff 9(5); ac Atodlen 2 Rhan 3, Paragraff 21] | Cafodd Aelodau'r Cynllun wybod am eu dyddiadau diogelwch taprog pan gyflwynwyd cynllun 2015. |

| **Mae Rhan 2 yn berthnasol i bob diffoddwr tân sy'n aelod o Reoliadau Cynllun Pensiwn y 'Diffoddwyr Tân' (Cymru) 2007** | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Esboniad** | **Argymhelliad** |
| **Rheol 1(6) to (9) – Disgresiwn i dderbyn statws "partner enwebedig" pan fo aelod o'r cynllun a'i bartner wedi bod wedi mewn perthynas ers llai na 2 flynedd.** | Yn ddibynnol ar fodloni gofynion enwebu eraill fel y nodir yn Rhan 2, Rheol 1 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn enwebiad o bartner gan aelod o'r cynllun cyn y mae eu perthynas wedi parhau am gyfnod o ddwy flynedd. | Cyn derbyn yr enwebiad rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod y person enwebedig yn berson a oedd yn ddibynnol ar yr aelod. Ystyrir pob achos ar sail unigol a rhaid darparu manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Ymddeoliad sy'n cael ei ysgogi gan yr aelod (Rheoliad 5)** | Os yw aelod-ddiffoddwr tân, ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig, yn bodloni amod cymhwyster, yn cael pensiwn gohiriedig, a'i fod pan mae'n 55 oed neu drosodd ond cyn yr oedran budd arferol (sef 65) yn gofyn am daliad cynnar drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Tân ac Achub, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i wrthod y cais os yw'r pensiwn, sy'n llai na'r swm priodol o ostyngiad actiwaraidd, yn debygol o fod yn llai na'r isafswm pensiwn gwarantedig a fyddai'n daladwy oddi ar oedran pensiynadwy'r Wladwriaeth. | Fe all yr Awdurdod wrthod cais diffoddwr tân am daliad cynnar o bensiwn gohiriedig os yw'n debygol y bydd hyn yn is na'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig pan fydd wedi cyrraedd oed pensiwn y Wladwriaeth. Ystyrir pob achos ar sail unigol |
| **Ymddeoliad cynnar a ysgogir gan yr Awdurdod. (Rheol 6)** | Gall yr Awdurdod Tân ac Achub, ar ôl ystyried rheolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'i swyddogaethau a'r costau sy'n debygol o fod mewn achos penodol, benderfynu y dylai diffoddwr tân – ac eithrio aelod sy'n ddiffoddwr tân arbennig – sydd o leiaf 55 oed ond dan yr oedran ymddeol arferol (60) ymddeol o gyflogaeth yr Awdurdod gan dalu, ar unwaith, bensiwn a gyfrifi ar sail yr un egwyddorion â phensiwn arferol o dan Ran 3, Rheol 1 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. | Ni fydd yr Awdurdod fel ar fer yn gwarantu taliadau cynnar at ddibenion effeithlonrwydd busnes neu i hepgor unrhyw ostyngiad actwaraidd, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried yr achos busnes; rhaid i hyn gael ei gytuno gan y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Disgresiwn i benderfynu y dylid trin rhai taliadau penodol, nad ydynt yn rhai pensiynadwy fel arall, fel rhai pensiynadwy ar gyfer rhoi Budd Pensiwn Ychwanegol i'r aelod-ddiffoddwr tân. (Rheol 7B)** | Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu y gellir trin y buddion y cyfeirir atynt yn Rheol 7B(5) fel rhai pensiynadwy ar gyfer rhoi Budd Pensiwn Ychwanegol i'r diffoddwr tân.<br><br>(Ond sylwer y bydd, yn unol â Rhan 11, Rheol 1(6), pan fo lwfans neu dâl atodol a dalwyd i ddiffoddwr tân yn cael ei drin yn bensiynadwy cyn 1 Gorffennaf 2013 ond nad yw'n dâl pensiynadwy o fewn ystyr Rhan 11, Rheol 1(a), yn parhau i gael ei drin yn bensiynadwy cyhyd â bod y diffoddwr tân yn parhau i'w dderbyn heb doriad yn y taliad.) | Bydd yr Awdurdod yn trin taliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Dyrchafiadau Dros Dro fel Buddion Pensiwn Ychwanegol sy'n bensiynadwy. |
| **Disgresiwn i gymudo pensiwn bach i gyfandaliad cymudo bach. (Rheol 10)** | Os yw cyfanswm unrhyw bensiwn(bensiynau) sy'n daladwy i aelod sydd wedi cyrraedd oedran pensiynadwy Gwladol, dan Ran 3 ac nad yw, os yw'n berthnasol, o dan Ran 6, Rheol 1 (pensiwn credyd pensiwn) o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007, ynghyd ag unrhyw gynnydd dan Ddeddf Pensiwn (Cynnydd) 1971, yn uwch na'r terfynu cymudo i ddibenion Rhan 1 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (rheol cyfandaliad), gall yr Awdurdod Tân ac Achub, os yw'n ystyried hynny'n briodol, gymudo'r pensiwn(pensiynau) i gyfandaliad yn unol â chyfarwyddyd Actiwari'r Cynllun. | Lle bo hynny'n addas bydd yr Awdurdod yn caniatáu cymudo pensiwn ach i gyfandaliad yn unol â'r terfynol ariannol a osodwyd. Ystyrir pob achos ar sail unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân ddyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd ac eithrio gŵr neu wraig, partner sifil, neu bartner enwebedig. (Rheol 11, paragraffau 2(b) a 3)** | Gall yr Awdurdod Tân ac Achub dynnu cydsyniad yn ôl rhag dyrannu cyfran o bensiwn i berson ac eithrio gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner enwebedig os nad ydynt wedi'u bodloni bod y person yn ddigon dibynnol ar yr aelod-ddiffoddwr tân. | Os caiff cyfran o bensiwn ei ddyrannu i ddibynnydd nad ydyw'n ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sydd yn cyd-fyw â'r aelod, bydd yr Awdurdod yn tynnu'r taliad yn ôl os nad ydynt yn fodlon bod y person enwebedig yn ddibynnydd addas. Ystyrir pob achos ar sail unigol a bydd rhaid dangos manylion llawn am yr amgylchiadau. |
| **Gofyniad i gael, a derbyn, barn ynghylch disgwyliad oes arferol i ddibenion dyrannu. (Rheol 11, paragraff 6(a))** | Os yw aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn dymuno dyrannu cyfran o bensiwn er mwyn buddiolwr, rhaid i'r aelod hwnnw fodloni'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei ddisgwyliad oes arferol ar adeg y cais. Nid oes manylion ynghylch sut i wneud hyn, e.e. barn feddygol gan feddyg teulu'r diffoddwr tân, neu'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol neu Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol, felly rhaid i'r Awdurdod benderfynu ar ei bolisi ar gyfer y dull o brofi. | Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'i bensiwn (yn unol â Rhan 3, Rheol 11, Paragraffau 2(b) a 3), bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn am archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn gadael iddynt wneud hynny. Bydd Yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn at Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol; yr aelod fydd yn talu'r costau. |
| **Aelodau debyd pensiwn. (Rheol 12)** | Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu prisiadau pensiwn a'r wybodaeth a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas ag achosion o ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, a bydd yn cymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Mewn achos o Orchymyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn yr aelod o'r cynllun yn cael ei ddosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgaru/diddymu, Rhan 3, Rheol 12 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, a'r cyfarwyddyd a'r ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun.<br><br>Caiff yr Awdurdod benderfynu ynghylch y ffioedd i'w codi am ei weinyddu. | Defnyddio'r disgresiwn hwn,; yr Awdurdod i benderfynu ar y ffioedd gweinyddol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| **Rhan 4 Disgresiwn, yn ddibynnol ar gais gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner enwebedig i aelod-ddiffoddwr tân, i gymudo cyfandaliad cymudo bach. (Rheol 5)**<br><br>**Disgresiwn, yn ddibynnol ar gydsyniad y rhiant sydd gan blentyn ar ôl, gwarcheidwad iddo neu'r plentyn (os nad yw dan oed) i gyfnewid pensiwn plentyn am gyfandaliad cymudo bach. (Rheol 12)** | Os nad yw cyfanswm unrhyw bensiwn sy'n daladwy i ŵr, gwraig, partner sifil neu bartner enwebedig dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn uwch na'r terfyn cymudo i ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (budd pensiwn cyfandaliad) ac os yw'r derbynnydd yn gofyn hynny, caiff Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyfnewid (gymudo) y cyfan o'r pensiwn am gyfandaliad yn unol â'r ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun ac sydd mewn grym pan mae'r cymudiad yn cael effaith.<br><br>Os yw cyfanswm y lwfans plentyn sy'n daladwy dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn uwch na'r terfyn cymudo i ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 ac<br><br>(a) mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi'i fodloni fod rhesymau digonol, ac<br><br>(c) mae rhiant sy'n goroesi neu warcheidwad y plentyn neu – os nad yw'r un ohonynt – y plentyn (os nad yw dan oed) yn cydsynio,<br><br>mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gyfnewid y pensiwn am gyfandaliad yn unol â chyfarwyddyd Actiwari'r Cynllun ar yr adeg pryd daw'r pensiwn yn daladwy. | Yr Awdurdod i ganiatáu cymudo pensiwn bach i gyfandaliad yn unol â'r cyfyngiadau ariannol a osodwyd. Ystyrir pob achos yn unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Rhan 5: Dyfarniadau ar farwolaeth**<br><br>**66. Disgresiwn mewn perthynas â derbynnydd grant marwolaeth a grant marwolaeth ar ôl ymddeol (Rheolau 1 a 2)** | Pan fydd farw aelod-ddiffoddwr tân neu aelod sy'n bensiynwr, caiff yr Awdurdod Tân ac Achub dalu grant marwolaeth a asesir yn unol â Rhan 5, Rheolau 1 a 2 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i berson neu bersonau sy'n briodol ym marn yr Awdurodd, a hynny yn unol â Rhan 5, Rheol 1, paragraff 10 o'r Gorchymyn. | Yr Awdurdod i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch dyfarnu grant marwolaeth ar ôl ymddeol fel y bo hynny'n briodol yn eu barn hwy. |
| **Rhan 6: Rhannu pensiwn ar adeg ysgaru**<br><br>**68. Disgresiwn, gyda chytundeb yr aelod o gredyd pensiwn, i gyfnewid y cyfan o bensiwn credyd pensiwn am gyfandaliad cymudo bach. (Rheol 2)** | Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 3(2)(b) o Reoliadau Rhannu Pensiwn (Budd Credyd Pensiwn) 2000, os yw cyfanswm y pensiwn credyd pensiwn sy'n daladwy o dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2005 yn uwch na'r terfyn cymudo i ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 ac<br><br>a) mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi'i fodloni bod rhesymau digonol, a<br><br>b) mae'r aelod o gredyd pensiwn yn cydsynio,<br><br>gall yr Awdurdod gyfnewid y pensiwn am gyfandaliad a gyfrifir yn unol â'r ffactorau a ddarperir gan Actiwari'r Cynllun ar adeg cymudo. | Dan amgylchiadau ysgaru fe all yr Awdurdod ganiatáu cymudo pensiwn bach i gyfandaliad yn unol yn unol â'r cyfyngiadau ariannol a osodwyd. Ystyrir pob achos ar sail unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Disgresiwn i dalu grant marwolaeth ar ôl ymddeol mewn perthynas ag aelod o gredyd pensiwn i berson neu bersonau sy'n addas ym marn yr Awdurdod Tân ac Achub. (Rheol 5, paragraff 2)** | Os bydd farw aelod o gredyd pensiwn o fewn pum mlynedd i'w hawlogaeth i bensiwn credyd pensiwn gael ei dalu, a chyn ei ben-blwydd yn 75 oed a bod gwahaniaeth rhwng<br><br> y swm sydd bum gwaith y pensiwn, wedi'i gyfrifo ar y gyfradd flynyddol sydd mewn grym ar y dyddiad pryd cafodd ei dalu, a<br><br> y rhandaliadau o bensiwn a dalwyd<br><br>gall yr Awdurdod Tân ac Achub dalu grant marwolaeth ar ôl ymddeol sy'n swm y gwahaniaeth i berson neu bersonau sy'n addas ym marn yr Awdurdod. | Yr Awdurdod i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch dyfarnu grant marwolaeth ar ôl ymddeol fel y bo hynny'n briodol yn eu barn hwy. |
| **Rhan 8: Penderfynu ynghylch cwestiynau ac apeliadau 70. Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer apêl yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub ar sail cyngor meddygol. (Rheol 4, paragraff 4)** | Os yw person sy'n dymuno apelio dan Ran 8, Rheol 4 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn erbyn penderfyniad ar sail cyngor meddygol, yn methu cyflwyno'r hysbysiad apêl ac unrhyw ddogfennau ategol cyn pen y 28 diwrnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno'r cyfryw apêl, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod. | Os na wneir yr apêl o fewn y terfyn amser a nodwyd, a bod yr Awdurdod o'r farn nad oherwydd methiant y person ei hun y mae'r person wedi peidio â rhoi hysbysiad o fewn y cyfnod gofynnol, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser hyd at uchafswm o fis o ddyddiad y terfyn amser gwreiddiol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| **Disgresiwn i dynnu'n ôl y cyfan neu ran o bensiwn Rhan 3 (dyfarniadau personol) am unrhyw gyfnod pryd y mae'r person sydd â hawl iddo yn cael ei gyflogi eto fel diffoddwr tân, neu mewn unrhyw rinwedd arall gan Awdurdod Tân ac Achub. (Rheol 3)** | Mater o ddisgresiwn i'r Awdurdod yw tynnu pensiwn yn ôl ar adeg ailgyflogi, ond fel arfer bydd Awdurdod yn rhoi ystyriaeth i delerau Rhan 9, Rheol 3, i'r egwyddorion lleihau sydd yng Nghylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 10/2009, ac i gyfarwyddyd Trysorlys EM, h.y. ni ddylai'r pensiwn sy'n ddyledus o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ynghyd â chydnabyddiaeth ariannol o'r gyflogaeth newydd fod yn uwch na'r tâl pensiynadwy y cyfrifwyd pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 arno (gan ystyried cynnydd costau byw). I'r graddau y mae, bydd pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn cael ei leihau am gyfnod y gyflogaeth. | Os ydi'r diffoddwr tân wedi ymddeol ac wedi ei gyflogi eto fel diffoddwr tân, bydd eu pensiwn yn cael ei leihau. |
| **Disgresiwn i wahardd talu pensiwn gohiriedig yn gynnar dan Ran 3, Rheol 3, paragraff 4 oherwydd bod diffoddwr tân wedi cael ei ddiswyddo o gyflogaeth Awdurdod Tân ac Achub. (Rheol 4)** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i wahardd talu pensiwn gohiriedig yn gynnar cyn 65 oed, neu cyn 69 oed yn achos aelod wrth gefn arbennig, i ddiffoddwr tân sy'n cael ei ddiswyddo o gyflogaeth yr Awdurdod os teimlir bod hynny'n briodol mewn achos penodol.<br><br>Ni chrybwyllir y rheswm dros "ddiswyddo". Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn dymuno ystyried gwahaniaeth o ran ymdrin â diswyddo oherwydd tramgwydd a diswyddo oherwydd analluogrwydd meddygol (pan na fyddai'r person â hawl i ddyfarniad ar sail afiechyd). | Mae'n bosib na fydd pensiwn gohiriedig yn cael ei dalu'n gynnar oherwydd anabledd parhaol os ydi'r Diffoddwr Tân wedi cael ei ddiswyddo gan yr Awdurdod. Ystyrir pob achos ar sail unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Disgresiwn i dynnu pensiwn yn ôl yn gyfan neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan ddyfernir person yn euog o rai troseddau penodol. (Rheol 5, paragraffau 1 i 3)** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ddefnyddio'r pwerau sydd yn Rhan 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i dynnu pensiwn yn ôl yn gyfan neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro pan ddyfernir person yn euog o droseddau os ydi'r Awdurdod o'r garn bod hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac os ydi'r achos yn dod o dan delerau Rhan 9 Rheol 5 o'r Gorchymyn ac yn amodol ar ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen. . | Os dyfernir person yn euog am droseddau sydd yn Rhan 9 Rheol 5, ystyrir pob achos ar sail unigol. |
| **Disgresiwn, ar unrhyw adeg ac i'r cyfryw raddau y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda, i adfer pensiwn a dynnwyd yn ôl o dan Ran 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3, neu i wneud cais amdano er budd unrhyw ddibynnydd sydd gan y pensiynwr. (Rheol 5, paragraff 4)** | Os yw'r Awdurdod yn tynnu pensiwn yn ôl o dan Ran 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3 o Orchymyn Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos, gallant ystyried ei gymhwyso er budd unrhyw ddibynnydd sydd gan y pensiynwr neu ei adfer i'r pensiynwr. | Mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn adfer pensiwn a dynnwyd yn ôl dan Rhan 9 Rheol 5 neu'n ei gymhwyso er budd unrhyw ddibynnydd sydd gan y pensiynwr. Ystyrir pob achos ar sail unigol. |
| **Disgresiwn i benderfynu i ba raddau y dylai dyfarniad gael ei fforffedu gan berson sydd wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan adran 34(6) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (gweithredoedd neu anweithredoedd i ddibenion cael dyfarniadau neu symiau eraill). (Rheol 6)** | Os yw person wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan adran 34(6) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (gweithredoedd neu anweithredoedd i ddibenion cael dyfarniadau neu symiau eraill) mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i fynnu bod y cyfryw symiau o'r pensiwn yn cael eu fforffedu, fel y gwelant yn briodol yn ôl amgylchiadau'r achos. | Bydd yr Awdurdod yn ystyried i ba raddau y dylid fforffedu'r wobr dan yr amgylchiadau a nodir yn Rhan 9, Rheol 6. Ystyrir pob achos yn unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Rhan 11 Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau pensiwn o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy fel y mae'n ddyledus (neu drwy unrhyw ddull arall o dalu y cytuna'r Awdurdod Tân ac Achub a'r aelod arno). (Rheol 3, paragraff 2)** | Fel arfer, caiff cyfraniadau eu didynnu o randaliadau o gyflog, ond mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gasglu'r cyfraniadau sy'n ddyledus drwy ddull arall os bydd angen. | Ystyrir pob achos yn unigol. |
| **Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser y caiff aelod, ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig, wneud cais am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol. (Rheol 9(1)(c)(ii))** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i dderbyn cais aelod o'r cynllun am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol pan fo'r cais yn cael ei wneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r aelod ddod yn gymwys i fod yn aelod-ddiffoddwr tân. | Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser o flwyddyn ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol e.e. y Gweinyddwr Pensiwn heb weithredu cais yr aelod. |
| **Disgresiwn i adennill y cyfan neu ran o ordaliad yn dilyn marwolaeth pensiynwr na chafodd yr Awdurdod Tân ac Achub wybod amdani (os bosibl drwy ei osod yn erbyn unrhyw ddyfarniadau eraill sy'n daladwy o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân mewn perthynas â'r sawl a fu farw). (Rheol 3, paragraff 5)** | Pan nad yw'r Awdurdod yn cael ei hysbysu am farwolaeth pensiynwr a bod y pensiwn felly wedi parhau i gael ei dalu, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad fel y gwelant yn dda, a gallant ei adennill drwy ei osod yn erbyn unrhyw ddyfarniad arall sy'n daladwy o dan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 mewn perthynas â'r sawl a fu farw. | Bydd yr Awdurdod yn adfer unrhyw ordaliadau a wneir yn dilyn marwolaeth pensiynwr yn unol â chyfarwyddyd Trysorydd Ei Mawrhydi 'Rheoli Arian Cyhoeddus'. |
| **Disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, ynghylch derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965. (Rheol 6, paragraff 1)** | Pan fydd farw person a oedd i fod i dderbyn, mewn perthynas â dyfarniad, swm nad oedd yn uwch na £5,000 (ar hyn o bryd), caiff yr Awdurdod dalu'r swm sy'n ddyledus i'r person neu'r personau y gwêl yr Awdurdod yn dda heb orfod llunio Grant Profiant neu unrhyw brawf arall o hawl. | Defnyddio'r disgresiwn hwn. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Disgresiwn i gadw symiau yn ôl sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarniad i ddiffoddwr tân pan fu colled yn arian yr Awdurdod Tân ac Achub o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeulustod ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth (Rheol 6, paragraffau 4 i 7)** | Os bu colled yn arian yr Awdurdod o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeulustod ar ran diffoddwr tân mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, gall yr Awdurdod ystyried defnyddio'r pwerau sydd yn Rhan 14, Rheol 6 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Lloegr) 2006 i gadw'n ôl y cyfan neu ran o unrhyw symiau sy'n ddyledus iddo/iddo gan yr Awdurdod mewn perthynas â dyfarniad. Rhaid i'r holl swm a gedwir yn ôl beidio â bod yn fwy na swm y golled nac unrhyw ran o swm sy'n ddyledus nad ellir ei phriodoli i wasanaeth fel gweithiwr i Awdurdod Tân ac Achub. Yn achos unrhyw anghydfod am swm y golled, ni chaniateir cadw dim yn ôl oni bai fod y golled wedi dod yn bosibl i'w hadfer gan y person sydd â hawl i'r dyfarniad o dan orchymyn llys cymwys. Rhaid i'r Awdurdod ddarparu tystysgrif i'r person sydd â hawl i'r dyfarniad, i ddangos y swm sy'n cael ei chadw'n ôl. | Bydd yr Awdurdod yn cadw symiau yn ôl sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarniad i ddiffoddwr tân pan fu colled yn arian ATAGC o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeulustod ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth. |
| **Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod, pryd mae'n rhaid i berson gyflwyno apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n fwy na 6 mis. (paragraff 1(2))** | Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod pryd y mae'n rhaid i berson gyflwyno apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n fwy na 6 mis ar ôl dyddiad rhyddhau'r dogfennau dan Ran 8, Rheol 4, paragraff 4 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. | Os na wneir yr apêl o fewn y terfyn amser a nodwyd, a bod yr Awdurdod o'r farn nad oherwydd methiant y person ei hun y mae'r person wedi peidio â rhoi hysbysiad o fewn y cyfnod gofynnol, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser hyd at uchafswm o fis o ddyddiad y terfyn amser gwreiddiol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Disgresiwn, pan fo Bwrdd Apeliadau Meddygol yn penderfynu o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan bod apêl yr apelydd, yn eu barn nhw, yn "wacsaw, blinderus neu'n amlwg yn ddi-sail", i fynnu bod yr apelydd yn talu'r cyfryw swm i'r Awdurdod Tân ac Achub ag y gwelant yn dda, heb fod yn fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Bwrdd o dan Atodiad 2, paragraff 9(1). (paragraff 10(2))** | Os yw'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn penderfynu ar apêl o blaid yr Awdurdod a'u bod yn adrodd bod yr apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd, yn eu barn nhw, yn un wacsaw, blinderus neu'n amlwg yn un ddi-sail, gall yr Awdurdod fynnu bod yr apelydd yn talu i'r Awdurdod y cyfryw swm sy'n hafal i, ond heb fod yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd fel y penderfyna'r Ysgrifennydd Gwladol. (Gweler y gofyniad i hysbysu'r person o'r posibilrwydd hwn o dan Atodiad 2, paragraff 4(5)(i)). | Os ydi'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn penderfynu bod yr apêl yn 'un wacsaw, blinderus neu'n amlwg yn un ddi-sail' bydd yr Awdurdod yn mynnu bod yr apelydd yn talu swm priodol iddo heb fod yn uwch na'r swm sydd wedi ei gapio yn unol â'r rheoliadau. |
| **Disgresiwn i fynnu bod yr apelydd yn talu'r cyfryw swm i'r Awdurdod Tân ac Achub ag y gwêl yr Awdurdod yn dda, heb fod yn fwy na chyfanswm ffioedd a lwfansau'r Bwrdd Apeliadau Meddygol sy'n daladwy i'r Bwrdd gan yr Awdurdod o dan Atodiad 2, paragraff 9(1), mewn amgylchiadau pan fo'r apelydd yn rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol, gan dynnu'r apêl yn ôl neu ofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer yr archwiliad meddygol llai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithredoedd neu anweithredoedd yr apelydd yn achosi i'r Bwrdd ganslo neu ohirio llai na 22 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd. (paragraff 10(3))** | Os yw'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol llai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithredoedd neu anweithredoedd yr apelydd yn achosi i'r bwrdd ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i fynnu bod yr apelydd yn talu i'r Awdurdod y cyfryw swm sy'n hafal i, ond heb fod yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodiad 2, paragraff 9(1) o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. | Os yw'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl llai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfweliad neu archwiliad meddygol, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod yr apelydd yn talu'r cyfryw swm yn unol â'r rheoliadau. |

**<u>Mae Rhan 3 yn gymwys i bob diffoddwr tân sy'n aelod o 'Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 1992'.</u>**

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Tâl Dros Dro FPS (1992)** | Penderfynu a ddylai'r gwahaniaeth rhwng cyflog sylfaenol diffoddwyr tân yn eu swydd bob dydd ac unrhyw dâl y maent yn ei gael ar ddyrchafiad dros dro neu pryd mae angen iddynt wneud dyletswyddau swydd uwch dros dro, gael ei drin fel cyflog pensiynadwy o dan drefniadau Budd Pensiwn Ychwanegol. | Mae Dyrchafiad Dros Dro i fod i gael ei drin dan drefniadau Budd Pensiwn Ychwanegol (oni bai fod y cyfnod yn bodloni'r meini prawf diogelu o dan Orchymyn y Cynllun Gorffennaf 2013). |
| **Rheol B5C FPS (1992) – Lwfansau Dros Dro.** | Penderfynu a ddylai unrhyw lwfans neu atodiad i wobrwyo sgiliau a chyfrifoldebau ychwanegol sy'n cael ei defnyddio a'u cynnal y tu hwnt i ofynion dyletswyddau diffoddwr tân o dan y contract cyflogaeth, ond sydd o fewn swyddogaethau ehangach y swydd, gael eu trin fel cyflog pensiynadwy o dan y trefniant Budd Pensiwn Ychwanegol. | Argymhellir ystyried pob lwfans neu atodiad fesul achos.<br><br>(Yn unol â Rheol G1(9), pan roedd lwfans neu atodiad a delir i ddiffoddwr tân yn cael ei drin fel un pensiynadwy cyn 1 Gorffennaf 2013 ond nad yw'n gyflog pensiynadwy o fewn ystyr Rheol G1(1)(a), dylai barhau i gael ei drin fel un pensiynadwy cyhyd ag y mae'r diffoddwr tân yn parhau i'w dderbyn heb doriad yn y taliad.) |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **FPS 1992 Rheol B7 (5a) Cydsyniad i gyfnewid chwarter pensiwn yn achos diffoddwr tân na fyddai, ar ei ymddeoliad, â hawl fel arall i gyfnewid y cyfryw gyfran o bensiwn a fyddai'n darparu cyfandaliad mwy o faint na dwywaith a chwarter y swm llawn o bensiwn** | Caiff yr Awdurdod ganiatáu i aelodau o'r cynllun sydd â llai na 30 mlynedd o wasanaeth ac sydd o dan 55 oed gyfnewid yr uchafswm o chwarter eu pensiwn am gyfandaliad pan fyddant yn ymddeol. Dan y ddarpariaeth newydd, byddai'r cyflogwr yn atebol am unrhyw gost ychwanegol a allai fod yn sylweddol os byddant yn arfer y disgresiwn hwn. | Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn caniatáu ceisiadau o'r fath, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried dogfennau'r achos busnes yn llawn; rhaid i'r Prif Swyddog Tân gymeradwyo hyn mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd. |
| **FPS 1992 Rheol B9 (2b) Dyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd ac eithrio gŵr, gwraig neu bartner sifil** | Mae Rheol B9 yn caniatáu i aelod o FPS i ddyrannu (ildio) rhan o'i bensiwn yn ystod ei oes, pan fydd yn dod yn gymwys i ymddeol, er mwyn darparu, pan fydd farw, bensiwn i ŵr, gwraig, partner sifil neu ddibynnydd. | Cyn cytuno i'r dyraniad hwn, rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod yr enwebai yn berson sy'n ddigon dibynnol ar yr aelod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y dystiolaeth ariannol dros gyfnod o ddwy flynedd. |
| **FPS 1992 Rheol B9(6) Gofyniad i gael, a derbyn, barn ynghylch disgwyliad oes arferol i ddibenion dyrannu** | Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'i bensiwn (dan Reol B9), caiff yr Awdurdod fynnu ei fod yn cael archwiliad meddygol i sicrhau ei fod mewn iechyd da cyn caniatáu iddo/iddi wneud hynny. | Pan fydd Diffoddwr tân yn dewis ildio rhan o'i bensiwn, rhaid i'r Awdurdod fynnu eu bod yn cael archwiliad meddygol i sicrhau bod yr aelod mewn iechyd da cyn gadael iddynt wneud hynny. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn at Ymarferwr Meddygol Cymwys Annibynnol a'r aelod fydd yn talu'r costau. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **FPS 1992 Rheol B12 Aelodau debyd pensiwn** | Rhaid i'r Awdurdod ddarparu prisiadau pensiwn a'r cyfryw wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas ag achosion ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil a chymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Mewn achos o Orchymyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn yr aelod o'r Cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgaru/diddymu, Rheol B12 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, a ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun. | Defnyddio'r disgresiwn hwn; bydd yr Awdurdod yn pennu'r ffioedd hyn fel y bo'n briodol. |
| **Part 2 – dyfarniadau ar adeg marwolaeth – gwŷr, gwragedd a phartneriaid sifil**<br><br>**FPS 1992 Rheol C8(6) – Disgresiwn i gynyddu lefel dyfarniad y gŵr, gwraig neu bartner sifil am y cyfryw gyfnod y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda pan fo'r diffoddwr tân a'r gŵr, y wraig neu'r partner sifil yn byw ar wahân ar adeg y farwolaeth a phan fo lefel arferol y budd yn cael ei leihau yn unol â hynny dan reolau Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.**<br><br>**FPS 1992 Rheol C8(7) - Disgresiwn i ganiatáu i daliad rhodd gael ei dalu, yn gyfan neu yn rhannol, mewn amgylchiadau pryd roedd y buddiolwr a'r aelod yn byw ar wahân ar adeg y farwolaeth.** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ganiatáu i gynyddu dyfarniad gŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n goroesi neu i ganiatáu talu rhodd pensiwn yn gyfan neu'n rhannol pan fo budd yn cael ei leihau o dan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 oherwydd bod y diffoddwr tân a'i ŵr, gwraig neu bartner sifil yn byw ar wahân ar adeg y farwolaeth. | Defnyddio'r disgresiwn hwn ar sail achosion unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **FPS 1992 Rheol C9 – Adfer pensiwn Gweddwon** | Dan Gynllun 1992 nid oes gan berson, sydd â hawl i bensiwn gweddwon ac sydd wedyn yn priodi, yn ailbriodi, yn ffurfio partneriaeth sifil neu bartneriaeth sifil, hawl i dderbyn unrhyw daliad ar gyfrif y pensiwn mewn perthynas ag unrhyw gyfnod dilynol; ond os yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn cael ei diddymu neu os bydd farw'r parti arall iddi, caiff yr Awdurdod dalu'r cyfan neu ran o'r pensiwn am y cyfryw gyfnod ar ôl y diddymiad neu'r farwolaeth ag y gwelant yn rhesymol. | Mae'r Awdurdod yn annhebygol o adfer pensiwn cyn ŵr/gwraig pan ddaw priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas cyd-fyw newydd i ben; fodd bynnag bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. |
| **FPS 1992 Rheol D5 – buddion plant** | Dyfarnu budd i blentyn sy'n 17 oed neu drosodd a tharfu wedi digwydd ar addysg neu hyfforddiant galwedigaethol lawn amser.<br><br>Mae'r FPS yn caniatáu talu pensiwn plentyn pan fo'r plentyn mewn addysg lawn amser. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu ystyried adfer y pensiwn pan fu tarfu ar addysg neu hyfforddiant galwedigaethol lawn amser. | Adfer y buddion yn briodol, |
| **FPS 1992 Rheol E5 ac E6 yn ddibynnol ar gyfyngiadau yn Rheol E7 – Disgresiwn i gymudo pensiwn dibynnydd** | Penderfyniad i gymudo cyfandaliad, rhan neu'r cyfan o bensiwn gŵr, gwraig, partner sifil neu blentyn sydd o swm cyfyngedig.<br><br>Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried cyfnewid swm cyfyngedig o bensiwn gŵr, gwraig, partner sifil neu blentyn am gyfandaliad. | Defnyddio'r disgresiwn hwn mewn amgylchiadau eithriadol pan fo caledi ariannol yn amlwg, a'i ddirprwyo i'r Prif Swyddog Tân. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **FPS 1992 Rheol G2A (3) – Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod pryd mae'n rhaid gwneud dewis i dalu cyfnod mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol na thalwyd.** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ganiatáu i ymestyn y terfyn amser 30 diwrnod (gan gyfrif o'r diwrnod pryd mae'r person yn dychwelyd i'r gwaith neu, os nad yw'n dychwelyd i'r gwaith, o ddiwrnod olaf cyflogaeth gyda'r Awdurdod) ar gyfer dewis talu cyfraniadau mewn perthynas â chyfnod mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu na fyddai fel arall yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy. | Ystyrir ceisiadau hwyr hyd at uchafswm o 90 diwrnod. |
| **FPS 1992 Rheol H2 Atodlen 9, Rhan 1 Paragraff 1 (2)(B) – Terfyn Amser ar gyfer Apelau yn erbyn penderfyniadau o natur feddygol** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod (i uchafswm o 6 mis) ar gyfer rhoi hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad o natur feddygol pan fo'r Awdurdod o'r farn nad bai yr apelydd oedd y methiant i roi hysbysiad o fewn y cyfnod o 28 diwrnod. | Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. |
| **FPS 1992 Rheol H2 Atodlen 9, Rhan 1 Paragraff 8 (2) (2A) – Adfer ffioedd apêl** | Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i fynnu bod yr apelydd yn talu'r cyfan neu ran o'r ffioedd a lwfansau mewn apêl feddygol os canfyddir bod yr apêl yn un wacsaw, blinderus neu'n amlwg yn un ddi-sail.<br><br>Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i fynnu bod yr apelydd yn talu'r cyfan neu ran o'r ffioedd a lwfansau mewn apêl feddygol os yw'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl cyn pen 21 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweliad neu archwiliad meddygol gan y bwrdd o ganolwyr meddygol sy'n gwrando ar yr apêl. | Bydd yr Awdurdod fel arfer yn ceisio gwneud hyn ond bydd yn ystyried y ffeithiau ym mhob achos, |
| **FPS 1992 Rheol IA2 (1) – Cymudo buddion credyd pensiwn** | Cyfnewid (cymudo) y cyfan o bensiwn y mae gan aelod credyd pensiwn hawl iddo am gyfandaliad. | Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. |

| Rheoliad | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **FPS 1992 Rheol K3(1) – Lleihau dyfarniad afiechyd mewn achos o fethiant** | Lleihau, ond nid llai na hanner ei swm, ddyfarniad afiechyd mewn achos pan fo rhywun ag anabledd parhaol ac wedi cyfrannu at ei anabledd parhaol drwy ei fethiant ei hun. | Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. |
| **FPS 1992 Rheol K4 Tynnu pensiwn yn ôl tra'n gyflogedig gan awdurdod tân ac achub (lleihad)** | Diwygio cynllun 1992 i ledaenu disgresiwn y cyflogwyr i leihau pensiwn a delir i aelod sy'n cael ei ailgyflogi mewn unrhyw swydd gan unrhyw awdurdod tân ac achub; ac i fynnu bod y cyflogwr sy'n talu'r pensiwn yn talu i'r gronfa bensiwn y swm o bensiwn a delir ac a allai fod wedi bod yn destun lleihad dan reolau'r cynllun. Byddai'r gofyniad i'r cyflogwr fod yn atebol am y costau pan nad ydynt yn arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelodau yn ofyniad cymwys i gynllun 1992 ac i gynllun 2007.<br><br>Mae Gorchymyn Diwygio 2013 yn mynnu bod y cyflogwr yn ad-dalu'r gronfa bensiwn yn yr achos pan nad ydynt yn arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelod pan mae'n cael ei ailgyflogi. | Bydd lleihau pensiwn, ar sail £ am £ basis yn gymwys pan fo enillion ynghyd â thaliadau pensiwn yn y swydd newydd yn fwy na'r enillion yn y swydd flaenorol. |
| **FPS 1992 Rheol L5 (6) – Cadw pensiwn yn ôl mewn achosion o dwyll, lladrad neu esgeulustod** | Cadw'n ôl y cyfan neu ran o unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ddiffoddwr tân mewn perthynas â phensiwn pan fu twyll, lladrad neu esgeulustod mewn cysylltiad â'i gyflogaeth gan arwain at golli arian i'r Awdurdod. | Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith Williams (Rheolwr Archwilio)<br>01492 576217** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2019/20** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) Rhan 3 5. (2), rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) fynd ati bob blwyddyn i gynnal adolygiad o ba mor effeithiol yw ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac rhywbeth sy'n cyfrannu'n fawr at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2019/20, ac mae'n cynnwys y datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, ar sail y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth sydd ganddo am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, a hynny er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Mae'r adroddiad yn nodi bod 50 diwrnod o waith Archwilio Mewnol wedi cael eu cynnal yn ystod 2019/20, ac mae hynny'n cyd-fynd â'r dyraniad a gynlluniwyd.

6 Mae'r adolygiadau archwilio yn darparu lefel gadarnhaol o sicrwydd ynghylch pa mor ddigonol yw'r systemau rheolaeth fewnol sy'n bodoli, er bod 12 o argymhellion wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn bodoli i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

7 Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n lleihau'r farn hon, ac nid oes unrhyw faterion arwyddocaol yn berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

8 Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd hefyd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig er mwyn galluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

**ARGYMHELLION**

9 Argymhellir fod yr Aelodau'n nodi'r hyn sydd yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael, a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau, a rheolaeth.

**CEFNDIR**

**Swyddogaeth Archwilio Mewnol**

10 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."

11 Swyddogaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i'r rheolwyr ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel:

- Bod Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a
- Bod rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

12 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

13 Yn unol â Safonau Archwilio'r Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol bob blwyddyn, i'w defnyddio gan yr Awdurdod ar gyfer ei ddatganiad llywodraethu.

**GWYBODAETH**

**Barn Archwilio Mewnol 2019/20**

14 Rwy'n fodlon fod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth gynaledig o'r sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn ATAGC.

15 Yn fy nhyb i, am y 12 mis a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain Mawrth 2020, mae gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol ar gyfer rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

16 Wrth rhoi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr heblaw'r rhai a nodwyd.

17 Hefyd, wrth gyrraedd y farn hon, rydym wedi ystyried y canlynol:

- Canlyniadau'r holl archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020;
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol;
- A oes unrhyw argymhellion o'r categorïau Uchel neu Ganolig heb gael eu derbyn gan y rheolwyr, a beth yw'r risgiau oherwydd hynny;
- Effeithiau unrhyw newidiadau sylweddol yn amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio; a'r
- Cyfyngiadau o ran adnoddau sydd ar y gwaith Archwilio Mewnol ac sydd wedi amharu ar allu'r Gwasanaeth i ddiwallu holl anghenion archwilio mewnol yr Awdurdod.

18 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Crynodeb o'r Gwaith i Gefnogi Barn Archwilio 2019/20**

19 Mae'r rhestr yn **Atodiad A** yn rhoi barn archwilio ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol, ac mae'n rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol o ran yr holl aseiniadau archwilio a gafodd eu cynnal yn ystod 2019/20.

20 Mae'r rhestr yn rhoi crynodeb o'r barnau archwilio a nifer yr argymhellion a wnaed mewn perthynas â phob maes a adolygwyd, sy'n sail i'r sicrwydd a roddir i'r Pwyllgor Archwilio ynghych pa mor ddigonol ac effeithiol oedd fframweithiau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn 2019/20.

21 Pan fo hynny'n berthnasol, mae'r adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu categoreiddio i roi barn archwilio ynghylch yr amgylchedd rheolaeth fewnol ar gyfer y system neu'r sefydliad dan sylw. Dyma'r categorïau ar gyfer barnau archwilio ynghylch yr aseiniadau:

- Sicrwydd Uchel
- Sicrwydd Boddhaol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Dim Sicrwydd

I gefnogi'r barnau archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cael eu categoreiddio fel rhai Critigol, Mawr, Canolig a Mân, a hynny yn unol â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn asesu ac yn mesur risg.

22 Cafodd dau adroddiad archwilio a gwaith ymgynghorol eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, a hynny ynglŷn â'r canlynol:

- **Rheoli'r Fflyd** – Cynhaliwyd adolygiad i sicrhau bod gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer cofrestru, trwyddedu ac yswirio cerbydau, cofnodion stocrestrau'r fflyd, rheoli stoc, archebu gwaith, nwyddau a gwasanaethau, gwaith cynnal a chadw sydd ar y gweill, a thystysgrifau profion MOT, cael gwared ar gerbydau a chaffael cerbydau, a gwiriadau ar drwyddedau gyrwyr. Fe wnaeth yr archwiliad 12 o argymhellion, a darparu lefel Foddhaol o sicrwydd.
- **Y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll** – Mae'r Fenter Genedlaethol i Atal Twyll yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr i 'baru data', ac mae'n cael ei drefnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth ag Archwilio Cymru. Llwyddodd yr ymarferiad i greu 465 o barau data, ac ymchwiliwyd i 132 o'r rheini ar sail samplu â barn. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o'r ymchwiliadau, ac mae hyn yn darparu lefel Uchel o sicrwydd fod y systemau rheolaeth fewnol yn gweithio'n dda a bod nifer yr achosion o dwyll ac anghysonderau yn cael eu gostwng. Mae'r ymarferiad hefyd yn gymorth i gryfhau'r trefniadau rhag twyll a llygredd ac mae'n sefydlu diwylliant gwrth-dwyll.
- **Y Gyflogres – Rhoi Itrent ar waith** – Mae Archwilio Mewnol wedi bod yn gysylltiedig, ar sail ymgynghorol, â'r broses o roi System ITrent ar waith ar gyfer y Gyflogres; roedd y gwaith yn dal i fynd yn ei flaen ar ddiwedd y flwyddyn gan fod nifer o faterion yn dal heb gael eu datrys.

23 Mae canlyniad yr archwiliad, a'r gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a wnaed, ynghyd â'u graddfa o risg. Mae pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n darparu lefel gadarnhaol o sicrwydd.

24 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd yn ystod adolygiad archwilio'r Fflyd, gwnaethpwyd 12 o argymhellion. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.

25 I gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer y Sector Cyhoeddus, mae proses ddilynol ffurfiol ar waith yn yr Adran i gadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu rhoi ar waith gan y rheolwyr o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Fel arfer, bydd archwiliad dilynol yn cael ei gynnal chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

26 Mae rhestr o'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 wedi'i hatodi yn **Atodiad B**. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a gafodd eu derbyn ac a roddwyd ar waith yn dilyn hynny gan y rheolwyr ymhob maes, ac mae'n datgelu'r newidiadau sy'n effeithio ar y farn archwilio wreiddiol. Mae'n amlwg fod gwelliant sylweddol yn y lefelau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r archwiliadau ar Gredydwyr (P2P) ac Incwm a Dyledwyr a gynhaliwyd yn 2018/19. Roedd yr archwiliad dilynol ar Gardiau Prynu wrthi'n gael ei gynnal pan ddechreuodd y cyfnod clo oherwydd COVID19, a bydd yn cael ei gwblhau yn 2020/21.

27 Cynhaliwyd 50 o ddiwrnodau archwilio yn ystod 2019/20, a hynny yn unol â'r dyraniad a gynllunwyd, sef 50 o ddiwrnodau fel y nodir yn y cynllun archwilio blynyddol. Mae crynodeb o'r gweithgarwch archwilio wedi'i atodi yn **Atodiad C**, ac mae'n dangos y dyraniad o adnoddau archwilio a gynlluniwyd o ran diwrnodau dynol mewn perthynas ag adrannau a gwasanaethau, ac mae'n cymharu'r cynllun gyda'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn 2019.

28 Yn unol â Safonau Archwilio'r Sector Cyhoeddus, mae angen i'r cynllun fod yn hyblyg er mwyn gallu adlewyrchu ac ymateb i'r newid yn risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod. Cafodd y cynllun ei adolygu yn ystod y flwyddyn, a'i ddiweddaru fel yr oedd angen. Cafodd yr archwiliad ar Incwm Grantiau yn 2018/19 ei ohirio ar gais y Pennaeth Cyllid; mae'r ffordd y caiff incwm grantiau ei gofnodi wedi newid o ganlyniadau i sylwadau a wnaed eisoes gan Archwilio Cymru, ac roedd 2019/20 yn gyfnod o drawsnewid yn y dull adrodd.

**Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

29 Mae'r gwaith Archwilio Mewnol yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risgiau o benderfynu ynghylch anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn, ac mae'n defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risgiau wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cael ei gyflawni yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig 2013.

30 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi datblygu Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIP), sy'n ymdrin â phob agwedd ar waith archwilio mewnol, ac mae'n galluogi'r gwaith o werthuso cydymffurfiaeth â phob agwedd ar Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (QAIP).

31 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1af Ebrill 2013 ac roeddent yn cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol. Rhaid cynnal yr asesiad hwnnw bob pum mlynedd, o leiaf, a hynny adolygydd cymwys ac annibynnol o'r tu allan i'r sefydliad. Y Rheolwr Gwasanaethau – Archwilio a Thechnegol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wnaeth gynnal yr asesiad ym mis Tachwedd 2016. Mae Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn awgrymu graddfa o dri sgôr, sef 'Yn Cydymffurfio ar y Cyfan', 'Yn Cydymffurfio'n Rhannol', ac 'Nid yw'n Cydymffurfio'. Barn gyffredinol yr aseswyr allanol yw bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio ar y cyfan â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Cod Moeseg ymhob maes arwyddocaol, a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod, sef 'Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn fforddiadwy ac wedi'i hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys allu parhau i fod ar gael pan a ble mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. |
| Cyfreithiol | Amherthnasol. |
| Staffio | Amherthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amherthnasol. |
| Risgiau | Caiff y Datganiad Sicrwydd ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr Awdurdod, a beth yw ei allu, yn gysylltiedig â hynny, i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau o bwys a ganfuwyd gan y gwaith Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** **ATODIAD A**

**Gwasanaethau Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2019/20**

| | Maes Archwiliadwy | Y Negeseuon Allweddol a'r Argymhellion ar gyfer Gwella | Critigol | Mawr | Can-olig | Mân | Cyfan swm | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Rheoli'r Fflyd** | 1) Dylid rhoi'r broses arfarnu staff newydd ar waith cyn gynted ag y bo modd, a sicrhau ei bod yn digwydd o leiaf unwaith y flwyddyn.<br>2) Dylid datblygu Llawlyfr Gweithdrefnau i sicrhau bod canllawiau manwl ar gael i'r staff ynghylch y gweithdrefnau gweinyddol o ddydd i ddydd; dylid sicrhau bod y gweithdrefnau ar gael i'r staff ar yriant cyffredin yr adran.<br>3) Dylid sicrhau cysondeb rhwng cofnodion stocrestr y Fflyd a'r Gronfa Ddata Yswiriant, a hynny cyn i'r rhestr o yswiriant cerbydau gael ei chyflwyno i'r Swyddog Diogelu Data.<br>4) Dylid adolygu cofnodion stocrestr y Fflyd er mwyn sicrhau bod data'r holl gerbydau yn gyflawn ac yn gywir, yn enwedig o ran profion MOT a dyddiadau gwasanaeth.<br>5) Dylid cadw llyfrau a thaflenni log yn ddiogel yn yr orsaf neu'r ganolfan weinyddol berthnasol. Dylid sicrhau bod Rheolwyr Ardal yn cynnal archwiliad goruchwyliol o'r llyfrau log a'r taflenni log yn ystod yr archwiliadau o'r gorsafoedd a gynhelir bob 6 mis.<br>6) Dylid cynnal archwiliad cwbl annibynnol o'r stoc ar ddiwedd y flwyddyn; gellir sicrhau annibyniaeth drwy gael aelod o'r Adain Gyllid i oruchwylio'r cyfri. Dylid cadw copïau o'r cyfri stoc er mwyn gallu eu harchwilio.<br>7) Rhaid cadw tystiolaeth o'r rhaglen dreigl o archwiliadau stoc 9% mis, gan ddangos faint sydd yn y llyfr ac wrth gyfrif, beth yw'r amrywiadau a beth yw canlyniadau unrhyw ymchwiliad.<br>8) Ar ddiwedd y flwyddyn, dylid prisio stociau partiau sbâr drwy ddefnyddio cyfartaledd wedi'i bwysoli, yn hytrach na'r dull prisio 'yr olaf i mewn – y cyntaf allan (LIFO).<br>9) Dylid ystyried defnyddio Fleetmaster i lunio'r amserlenni ar gyfer archwilio a gwasanaethu cerbydau coch a cherbydau ysgafn.<br>10) Dylid diweddaru dyddiadau profion MOT ar Fleetwave, a defnyddio'r System i ddarparu amserlen o brofion MOT. | **0** | **0** | **5** | **7** | **12** | **BODD-HAOL** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 11) Rhaid i Adran y Fflyd sicrhau bod y canlynol yn digwydd ar ôl gwerthu cerbydau: bod datganiad gwerthu'r arwerthwr, sy'n cynnwys rhif TAW y cwmni a rhif archeb y pryniant gwreiddiol yn cael eu cyflwyno'n brydlon i'r Adain Gyllid. Rhaid i'r wybodaeth hon, ynghyd â'r cod incwm, gael eu hanfon ymlaen i Gonwy i sicrhau bod modd rhoi derbynneb brydlon a chywir yn y cyfriflyfr cyffredinol.<br>12) Dylid cadw cofnod ar yr archwiliadau o'r trwyddedau gyrru a gynhelir bob 6 mis, gan nodi enwau pob gyrrwr a chanlyniadau'r archwiliadau, sef nifer y pwyntiau ar drwyddedau, newidiadau i gyflyrau meddygol. Dylid cadw'r cofnod a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio ar y gyriant cyffredin, a chynnal archwiliadau goruchwyliol i sicrhau bod trwydded pob gyrrwr wedi cael ei gwirio. | | | | | | |
| 2 | **Y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll** | **Amherthnasol.** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **UCHEL** |
| | | | | | | | | **2** |
| | | | | | | | | **0** |
| | | | | | | | | **0** |
| | | | | | | | | **0** |

**ATODIAD B**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

### Rhestr o Archwiliadau Dilynol 2019/20

| | Disgrifiad | Archwil-ydd | Dyddiad Archwilio | Dyddiad Archwiliad Dilynol | Nifer yr Argymhell-ion | Argymhell-ion sy'n Weddill | Barn Archwilio a Ddiwygiwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Credydwyr GTAGC (System P2)** | KVW | Rhagfyr 2018 | Hydref 2019 | 9 | 3 | **UCHEL** |
| **2** | **Incwm a Dyledwyr GTAGC** | KVW | Ebrill 2019 | Hydref 2019 | 7 | 1 | **UCHEL** |
| **3** | **Cardiau Prynu GTAGC** | KVW | | | | | **Gwaith ar ei ganol a gariwyd drosodd i 2020/21** |

**ATODIAD C**

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2019/20

| | Adran / Gwasanaeth | Diwrnodau a Gynlluniwyd 2019/20 | Diwrnodau Gwirionedd-ol 2019/20 |
|---|---|---|---|
| **1** | Rheoli'r Fflyd | **12** | **17** |
| **2** | Y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll | **6** | **11** |
| **3** | Y Gyflogres – Rhoi iTrent ar waith | **8** | **5.5** |
| **4** | Incwm Grantiau 2018/19 | **12** | **0** |
| **5** | **Archwiliadau Dilynol**:<br>• Credydwyr (P2P)<br>• Incwm a Dyledwyr<br>• Cardiau Prynu (Gwaith ar ei ganol a gariwyd drosodd i 2020/21) | **5** | **10.5** |
| **6** | Cynllunio ac Adrodd ATAGC (Gan gynnwys Adroddiad Blynyddol a Chynllun Strategol) | **5** | **6** |
| **7** | Cronfa Wrth Gefn | **2** | **0** |
| | **CYFANSWM Y DIWRNODAU** | **50** | **50** |
| | **Diwrnodau a Ddyranwyd 2019/20** | | **50** |
| | **Diwrnodau Gwirioneddol 2019/20** | | **50** |
| | **Cyfanswm y Diwrnodau a gariwyd drosodd i 2020/21** | | **0** |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno i'r aelodau y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2019/20, sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 29 Mai 2020. Roedd y rhain yn cadarnhau gwariant net o £35.226m, a oedd wedi arwain at gyfraniad o £0.011m i'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

3 Mae Datganiad Llywodraeth Blynyddol yr Awdurdod ar gael yn Atodiad 2, ac mae'n dangos cydymffurfiaeth â Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government* (2016).

4 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

5 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, rhaid i'r cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu blynyddol gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, fe wnaeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Coronafeirws) (Diwygio) 2020, Rhif 4040 ymestyn dyddiad cyhoeddi'r Cyfrifon i 30 Tachwedd 2020.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:

(i) cymeradwyo sefyllfa'r alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2019/20 (Atodiad 1);

(ii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd ac a gariwyd drosodd, fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2020;

(iii) cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredol fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 (Atodiad 2);

(i) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 3); a

(iv) cymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth.

**SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO/PANEL GWEITHREDOL**

7 Cafodd adroddiad perfformiad blynyddol 2019/20 ei gyflwyno i aelodau'r Awdurdod yn yr wybodaeth i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 12 Hydref 2020.

**CEFNDIR**

8 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Coronafeirws) (Diwygio) 2020, mae'r Awdurdod wedi llunio datganiad o gyfrifon a datganiad llywodraethu sydd wedi bod yn destun archwiliad allanol.

**GWYBODAETH**

**GWARIANT REFENIW**

9 Roedd yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r Aelodau ar 12 Hydref 2020 yn cadarnhau sefyllfa alldro ddrafft y gwariant net, sef £35.226m, a oedd wedi arwain at gyfraniad o £0.011m i'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

**Y FANTOLEN**

10 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod, ac mae wedi'i chynnwys yn y Cyfrifon (yn Atodiad 1). Mae'r paragraffau a ganlyn yn darparu rhagor o wybodaeth.

**Asedau sefydlog**

11 Roedd yr Awdurdod yn dal £45.9m o asedau ar 31 Mawrth 2020, ac roedd hynny'n cynnwys ychwanegiadau o £9.78m yn ystod y flwyddyn. £30.9m oedd gwerth y benthyciadau ar 31 Mawrth 2020, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod.

### Ymrwymiadau Pensiwn

12 Rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif am yr ymrwymiadau amcangyfrifiedig ar gyfer ei gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwerth ymrwymiadau'r dyfodol yn cael ei gyfrifo gan actiwari pob cynllun.

13 Fe wnaeth Deddf Pensiynau 2013 gyflwyno newidiadau i drefniadau pensiwn y sector cyhoeddus. Roedd y prif newid yn ymwneud â'r ffordd yr oedd gweithwyr wedi cronni eu hawliau. Yn hanesyddol, roedd hyn yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r cyflog terfynol ar adeg ymddeol, ac roedd angen i'r newidiadau fabwysiadu cyflog cyfartalog drwy eu gyrfa. Gwnaethpwyd trefniadau trosiannol yn genedlaethol ar gyfer pob cynllun pensiwn, a'r nod oedd darparu amddiffyniad i'r bobl oedd agosaf at ymddeol.

14 Fe wnaeth Undeb yr FBU gyflwyno her gyfreithiol i'r trefniadau trosiannol. Yn ystod Rhagfyr 2018, canfu'r Llys Apêl fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi camwahaniaethu'n anuniongyrchol drwy gymhwyso'r trefniadau trosiannol a oedd yn gysylltiedig ag oedran. Erbyn hyn, mae'r mater nawr yn dychwelyd i Dribiwnlys Cyflogaeth i'w gywiro.

15 Er na wyddom beth fydd canlyniad y Tribiwnlys Cyflogaeth, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn yr ymrwymiadau i bob cynllun pensiwn yn y sector cyhoeddus. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi gwneud gwaith modelu i asesu'r effaith bosibl. Amcangyfrifid mai £312.118m oedd yr ymrwymiad pensiwn ar 31 Mawrth 2020, sy'n cynnwys effaith yr her gyfreithiol.

### Cronfeydd defnyddiadwy

16 £3.206m oedd yng nghronfeydd yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2020, ac roedd hynny'n cynnwys £1.387m mewn cronfa gyffredinol ac £1.819m mewn cronfeydd wedi'u clustnodi.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

17 Ers 2010/11, bu'n rhaid i bob corff llywodraeth leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

18 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei lunio yn unol â'r saith egwyddor sydd yn y ddogfen gyfarwyddyd *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (CIPFA/SOLACE 2016).

19 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 ar gael yn Atodiad 2. Mae'n darparu trosolwg o'r trefniadau llywodraethu, ac mae'n cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2020/21.

20 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i hadnabyddiaeth hi o'r Awdurdod, ac ni nodwyd unrhyw faterion.

**ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL**

21 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am roi ei farn a yw'r datganiadau ariannol yn darparu golwg gwir a theg o berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

22 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid ceisio darparu sicrwydd absoliwt y mae Swyddfa Archwilio Cymru, ond ystyried a oes unrhyw faterion o bwys a allai arwain at gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan fo gwall neu gamddatganiad yn cael ei ganfod, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen ei ddiwygio.

23 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig cyhoeddi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurod. Mae'r adroddiad ar gael yn Atodiad 3, a nodir y canlynol:

- Roedd yr adroddiad archwilio yn cydnabod bod yr holl argymhellion a wnaed yn dilyn yr archwiliad yn 2018/19 wedi cael eu rhoi ar waith.

- Roedd yr archwiliad yn canfod nifer o welliannau, a chytunwyd ar y rheini gyda'r rheolwyr. Nid oedd y gwelliannau yn effeithio ar y sefyllfa a adroddwyd gan yr Awdurdod, ac roeddent yn cynnwys nifer o addasiadau yr oedd eu hangen i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

- Mae dau fater arwyddocaol yn yr adroddiad archwilio, ac mae angen tynnu sylw'r Aelodau atynt. Mae'r ddau fater yn ymwneud â materion cenedlaethol yn gysylltiedig â phensiynau. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud ag ansicrwydd o ran y prisiad o'r buddsoddiad sydd gan Gronfa Bensiwn Clwyd, oherwydd Covid-19. Mae'r ail fater yn ymwneud ag ansicrwydd sy'n deillio o'r her gyfreithiol drosiannol y cyfeirir ati uchod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae gan yr adroddiad gysylltiad ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid i'r Gwasanaeth yn llesol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddi yn digwydd yn y seilwaith er mwyn i'r gwasanaeth allu darparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod lunio Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi'n briodol a'u hadrodd i'r Aelodau. |

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Graham Williams, Cyfrifydd (01492 575466)** |
| Pwnc | **Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2019/2020** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am weithgarwch rheoli'r trysorlys, ynghyd â dangosyddion darbodus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn un o ofynion y Cod Darbodus (y Cod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae gweithgareddau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd. Y sefyllfa o ran benthyciadau ar 31 Mawrth 20020 oedd £30.9m, sydd o fewn y terfyn a gymeradwywyd gan yr aelodau. £16m oedd gwerth y benthyciadau byrdymor, sydd o fewn y terfyn a osodwyd o fewn y strategaeth. Nid oedd ganddo unrhyw fenthyciadau ar gyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn ariannol.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofyn i'r Aelodau wneud y canlynol:

(i) nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys; a
(ii) cymeradwyo dangosyddion darbodus terfynol 2019/20.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Mae gweithgarwch yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael ei reoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd perthnasol. Mae'r gofynion allweddol yn cynnwys llunio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a dangosyddion darbodus i ddangos bod y penderfyniadau ynghylch cyfalaf a benthyciadau yn rhai fforddiadwy. Rhaid i'r dogfennau hyn gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Dylid cael trefniadau hefyd i fonitro ac adrodd ynghylch y dangosyddion darbodus yn ystod y flwyddyn ariannol ac adrodd ynghylch y sefyllfa alldro i'r Awdurdod.

6 Cafodd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019/20 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019. Cafodd y dangosyddion darbodus eu hadolygu yn ystod y flwyddyn oherwydd bod y rhaglen gyfalaf wedi cael ei had-drefnu gan arwain at lai o fenthyca yn ystod y flwyddyn. Cafodd y diwygiadau hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2019. Dyma'r adroddiad terfynol ar gyfer 2019/20, ac mae'n nodi dangosyddion darbodus gwirioneddol y flwyddyn, ynghyd â'r sefyllfa o ran Rheoli'r Trysorlys. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA.

**GWYBODAETH**

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS YN 2019/20**

**Y Strategaeth y Cytunwyd arni ar gyfer 2019/20**

7 Caiff y penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch benthyca eu dirprwyo i'r Trysorydd, sy'n gorfod sicrhau'r ffurf fwyaf priodol ar fenthyca, gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sy'n gyffredin ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfraddau sefydlog byrdymor, a allai ddarparu cyfleoedd am gostau is yn y tymor byr/canolig.

8 Dilynir dull pwyllog wrth fuddsoddi arian dros ben. Mae adneuon arian parod sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal cyfalaf gweithredol yn cael eu cadw gyda banciau neu gymdeithasau adeiladu. Dim ond ar gyfer buddsoddiadau mwy hirdymor y defnyddir cyfryngau eraill.

**Gweithgarwch Benthyca**

9 £30.9m oedd y ddyled fenthyciadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth. Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Yn Atodiad A, darperir dadansoddiad pellach o'r proffiliau aeddfedu.

10 Nodir isod y benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2020, a £14.9m oedd y swm:

| **Sefydliad (BBGC= Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus)** | **Y ganran o'r holl fenthyciadau** | **Swm (£)** |
|---|---|---|
| | | |
| BBGC (1 i 2 flynedd) | 3.7% | 1.13m |
| BBGC (2 i 5 mlynedd) | 31.4% | 9.72m |
| BBGC (5 i 10 mlynedd) | 4.0% | 1.25m |
| BBGC (10 mlynedd a mwy) | 9.1% | 2.81m |
| | | |
| **Cyfanswm gyda'r BBGC** | **48.2%** | **14.9m** |

11 Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd un benthyciad gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, a hynny am £2.5m. Roedd cyfnod sefydlog o 3 blynedd i'r benthyciad, â'r gyfradd log oedd 1.6%. Mae'r portffolio benthyciadau yn cynnwys benthyciadau Rhandaliadau Cyfartal o'r Prifswm (*EIP - Equal Instalment of Principal*) ac o'r benthyciadau hyn, £3.066m oedd yr ad-daliadau o'r prifswm. Yn gyffredinol, fe wnaeth y benthyciadau oedd gan yr Awdurdod ostwng £0.566m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Diwallwyd unrhyw angen am fenthyciadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn drwy gael benthyciadau byrdymor, ar gost is.

12 Roedd gan yr Awdurdod £16.0m mewn benthyciadau byrdymor gydag awdurdodau lleol eraill ar ddiwedd y flwyddyn, fel y nodir isod:

| **Sefydliad** | **Y ganran o'r holl fenthyciadau** | **Swm (£)** |
|---|---|---|
| | | |
| Cronfa Bensiwn Swydd Gaerhirfryn | 9.7% | 3.0m |
| Cyngor Dosbarth Braintree | 3.2% | 1.0m |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 29.2% | 9.0m |
| Cyngor East Riding of Yorkshire | 9.7% | 3.0m |
| | | |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Byrdymor** | **51.8%** | **16m** |

13 Roedd y benthyciadau hyn yn darparu opsiwn ar gost isel i'r Awdurdod, gan mai 0.86% oedd y gyfradd log gyfartalog, sy'n cymharu'n ffafriol â'r gyfradd o 1.95% a gynigir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i fenthyciadau am flwyddyn.

14 Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo 55% fel terfyn uchaf ar gyfer benthyciadau a oedd yn aeddfedu cyn pen 12 mis. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2020 oedd bod 52% o'r benthyciadau yn cael eu hystyried yn fenthyciadau byrdymor.

15 Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cadarnhau y dylai'r portffolio benthyciadau fod ag uchafswm o 35% o ddyled mewn benthyciadau amrywiol, a hyd at 100% o fenthyciadau ar gyfnod sefydlog. Yn ystod 2019/20, dim ond ar delerau cyfnod sefydlog y gwnaeth yr Awdurdod fenthyca, a hynny oherwydd y cyfraddau llog sy'n gyffredin ac er mwyn caniatáu sicrwydd.

16 Yn 2019/20, roedd y benthyciadau gwirioneddol £0.835m yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf a gymeradwywyd, a hynny oherwydd gostyngiadau pellach yn y rhaglen gyfalaf. Talwyd cyfanswm o £0.514m o log, o gymharu â'r gyllideb o £0.535m. Y gyfradd fenthya fyrdymor ar gyfartaledd yn y flwyddyn oedd 0.86%, a'r gyfradd hirdymor ar gyfartaledd oedd 2.27%.

**Buddsoddiadau**

17 Mae'r egwyddorion sy'n llywodraethu polisi buddsoddi'r Awdurdod wedi'u cynnwys mewn Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Gynlluniad Cenedlaethol Cymru yn 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn, ac nid oedd unrhyw anawsterau hylifedd gan yr Awdurdod.

18 Roedd y strategaeth fuddosddi ar gyfer 2019/20, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 18 Mawrth 2019, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer partïon i gontract:

(1) Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5.0m

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau) – terfyn £2.0m

(3) Mae sgoriau da (Fitch neu gyfwerth) gan holl fanciau'r DU ac Iwerddon, a'u his-gwmnïau. Dyma'r diffiniad ar hyn o bryd: terfyn: £5m

| | |
|---|---|
| Tymor Byr | F1 |
| Tymor Hir | A |
| Sgôr Hyfywedd | Bbb |

Os yw sgoriau banciau'n gostwng yn is na'r rhai sydd yn y tabl uchod, bydd y banciau hynny'n cael eu defnyddio os yw adneuon mawr yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, ac os yw'r adneuon yn dod o fewn telerau'r warant.

(4) Mae £2.0m o derfyn benthyca gan Gymdeithasau Adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio).

(5) Mae £2m o derfyn, a 9 mis o gyfyngiad amser ar y mwyaf, gan Gymdeithasau Adeiladu sydd heb sgôr ond sydd ag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy.

19 Cafodd yr holl arian dros ben ei fuddsoddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2020 oedd £1.73m, o gymharu â £0.55m ar 31 Mawrth 2019. Roedd y balans buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn uchel oherwydd bod angen cynnal hylifedd gan fod ansicrwydd yn deillio o bandemig Covid 19. Er mwyn cynnal sefyllfa hylifedd yn yr Awdurdod, cafodd yr arian ei gadw gan mwyaf mewn cyfrifon galw â mynediad ar unwaith. 0.28% oedd y gyfradd gyfartalog a gafwyd ar y buddsoddiadau.

20 Dim (sero) oedd y gyllideb ar gyfer llog buddsoddiadau, a £0.02m oedd y llog a gafwyd mewn gwirionedd.

**Dangosyddion Darbodus**

21 Dan y Cod Darbodus, rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r dangosyddion darbodus gwirioneddol ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn darparu atodlen o'r holl ddangosyddion darbodus sy'n orfodol. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r terfynau allweddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2019/20:

| | **Dangosydd Diwygiedig 2019/20 £'000** | **Gwirioneddol 2019/20 £'000** |
|---|---|---|
| Sefyllfa benthyciadau | 33,672 | 30,909 |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 33,198 | 31,744 |

22 Mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos beth yw'r angen gwaelodol sydd ar yr Awdurdod i fenthyca am resymau cyfalaf. Yn y tymor byr, gallai'r gofyniad i fenthyca fod yn uwch na'r gofyniad cyllido cyfalaf, a hynny oherwydd effaith arian parod a buddsoddiadau. Mae'r tabl uchod yn dangos bod y sefyllfa fenthyciadau gros £0.835m yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar gyfer 2019/20.

23 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy sy'n ofynnol dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos bod yr Awdurdod, yn ystod 2019/20, wedi cadw ei fenthyciadau gros o fewn ei Derfyn Awdurdodedig.

24 Y Ffin Weithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pryd mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai uwchlaw neu islaw'r Ffin yn dderbyniol ar yr amod nad yw'r Terfyn Awdurdodedig yn cael ei dorri.

| | **2019/20 £'000** |
|---|---|
| Dangosydd Diwygiedig – Terfyn Awdurdodedig | 35,198 |
| Dangosydd Diwygiedig – Ffin Weithredol | 33,198 |
| Y sefyllfa fenthyca uchaf yn ystod y flwyddyn | 34,647 |
| Y sefyllfa fenthyca isaf yn ystod y flwyddyn | 30,908 |

**FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD**

25 Mae gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd:

- Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf) yn darparu'r pwerau i fenthyca ac i fuddsoddi, yn ogystal ag yn darparu rheolaethau a therfynau ar y gweithgarwch hwn. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru osod terfynau, naill ai ar yr Awdurdod neu yn genedlaethol ar bob awdurdod lleol, i gyfyngu ar y swm y gellir ei benthyca (er na chafodd unrhyw gyfyngiadau eu gwneud yn 2019/20). Dan y Ddeddf, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Canllaw ar Fuddsoddi i strwythuro a rheoleiddio gweithgareddau buddsoddi'r Awdurdod.

- Mae'r Offerynnau Statudol (OS) 3239 (Cy.319) 2003, fel y'u diwygiwyd, yn datblygu'r rheolaethau a'r pwerau o fewn y Ddeddf. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Darbodus CIPFA ar Gyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol wrth wneud unrhyw weithgareddau benthyca, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn gyffredinol.

26 Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol uchod, sy'n cyfyngu ar y lefelau o risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn nodedig, gan ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu'r Cod Darbodus a'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, mae ei wariant cyfalaf yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae arferion ei drysorlys yn dangos dull sy'n ymwneud â risgiau isel.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'r adroddiad yn sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd doeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 18. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldebau/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi fethu, gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hwn. |

**Atodiad A**

**Dangosyddion Darbodus**

| | | **Dangosydd Amcangyfrif-edig 2019/20 £** | **Gwir-ioneddol 2019/20 £** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 2,052,649 | 774,721 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 33,198,808 | 31,744,235 |
| 3 | Benthyciadau | 33,671,579 | 30,908,922 |
| 4 | Terfyn Awdurdodedig | 35,198,808 | 35,198,808 |
| 5 | Ffin Weithredol | 33,198,808 | 33,198,808 |
| 6 | Cymhareb rhwng Costau Cyllido a Gwariant Net | 7.83% | 6.34% |
| 7 | Buddsoddiadau | 4,920,000 | 1,730,000 |
| 8 | Benthyciadau cyfraddau llog sefydlog fel % o'r Holl Fenthyciadau | 100% | 100% |
| 9 | Benthyciadau cyfraddau amrywiol fel % o'r Holl Fenthyciadau | 0% | 0% |
| 10 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 0% - 55% | 51.8% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 0% - 45% | 3.7% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 0% - 45% | 31.4% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 0% - 75% | 4.0% |
| | 10 mlynedd a mwy | 0% - 100% | 9.1% |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 17**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Graham Williams, Cyfrifydd (01492 575466)** |
| Pwnc | **Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Un o ofynion Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf yw bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau arwyddocaol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, rhaid rhoi gwybod i'r Aelodau ynghylch unrhyw newidiadau i fenthyciadau tymor hir a newidiadau i'r partïon i gontract sydd gan yr Awdurdod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Roedd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf 2020/21 wedi'i chynnwys ymhlith y papurau a ddosbarthwyd i'r aelodau ar gyfer y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Mawrth 2020. Ers hynny, mae'r dangosyddion darbodus wedi cael eu diwygio ac maent wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus sydd yn Atodiad A.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Fel arfer, byddai'r adroddiad yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio cyn iddo gael ei gyflwyno i'r ATA, ond oherwydd Covid ni fu hyn yn bosibl y tro hwn.

**CEFNDIR**

5 Ystyr rheoli'r trysorlys yw rheoli llifoedd arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Awdurdod, ynghyd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rheini. Mae'r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian felly mae'n agored i risgiau ariannol sy'n cynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith ar y refeniw os bydd cyfraddau llog yn newid. Felly, mae llwyddo i ganfod, monitro a rheoli risg ariannol yn ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus yr Awdurdod.

6 Caiff y gwaith o reoli risg y trysorlys yn yr Awdurdod ei wneud o fewn fframwaith Cod Ymarfer Rhif 2017 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n mynnu bod yr Awdurdod yn cymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a'i fod yn rhoi gwybod am unrhyw amrywiadau mawr.

**GWYBODAETH**

**Dangosyddion Darbodus 2020/21**

7 Mae'r Dangosyddion Darbodus yn cael eu gosod bob blwyddyn gan ddefnyddio'r alldro a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn gyfredol ynghyd â'r rhaglen gyfalaf a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gan fod llithriant yn y rhaglen gyfalaf yn 2019/20, a gan fod rhaglen gyfalaf 2020/21 wedi cael ei diwygio oherwydd Covid-19, bu'n rhaid adolygu'r Dangosyddion Darbodus i adlewyrchu'r amcangyfrifon cyfredol.

8 Gan fod y rhaglen gyfalaf yn is ar gyfer 2019/20, mae'r gofyniad am y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2020/21 yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol. Roedd y gofyniad gwreiddiol yn seiliedig ar £1.5m o wariant cyfalaf yn 2019/20, ond gan fod y gwariant gwirioneddol yn is, sef £0.775m, yr arbediad yn y gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn o ran ad-dalu dyled gyfalaf yw £0.06m. Y gyllideb wreiddiol a osodwyd oedd £2.27m, ac erbyn hyn mae hon wedi cael ei diwygio i £2.21m.

9 Gan fod y rhaglen gyfalaf yn is ar gyfer 2019/20 a 2020/21, mae'r holl ddangosyddion a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau. Yn nodedig, mae 'cymhareb y costau ariannu a'r llif refeniw net' wedi cael eu diwygio am i lawr er mwyn adlewyrchu'r costau is ar y gyllideb refeniw am ddyled gyfalaf.

10 Dyma esboniad o'r hyn mae pob Dangosydd Darbodus yn ei gynrychioli:

- Mae'r **Gofyniad Cyllid Cyfalaf** yn mesur y ddyled hirdymor sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod;
- Mae'r **Ffin Weithredol** yn mesur y ddyled allanol fwyaf posibl i ganiatáu uchelfannau ac iselfannau yn y llifoedd arian; ac
- Mae'r **Terfyn Awdurdodedig** yn amcangyfrif y swm mwyaf y gallai'r Awdurdod ei fenthyca ar sail asesiad o'r gofynion gweithredol a'r risgiau allanol.

11 Mae Atodiad A yn rhestru'r dangosyddion yr adroddir yn eu cylch o fewn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf 2020/21, ynghyd â'r dangosyddion diwygiedig.

**Benthyciadau**

12 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r benthyciadau yr oedd gan yr Awdurdod fel yr oedd pethau ar 30 Medi 2020:

| Darparwr y Benthyciad | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 13,791 |
| Awdurdodau Lleol eraill | 14,000 |
| **CYFANSWM** | **27,791** |

13 Ar hyn o bryd, mae benthyciadau byrdymor yn cael eu hadnewyddu pan fyddant yn aeddfedu, a hynny gydag awdurdodau lleol eraill yn dibynnu ar y cyfraddau llog sydd ar gael ar y pryd. Mae digon o hylifedd yn y farchnad ar hyn o bryd, i adnewyddu benthyciadau sy'n aeddfedu, neu i gael rhai yn eu lle, a hynny gydag awdurdodau lleol. Rhwng 0.01% a 0.20% yw'r cyfraddau llog cyfredol ar fenthyciadau byrdymor.

14 Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus eleni. Mae cyfraddau cyfredol y Bwrdd yn dechrau ar 1.95% i fenthyciad am flwyddyn. Nid ydynt yn gost-effeithiol ar hyn o bryd, o gymharu â'r cyfraddau ar fenthyciadau byrdymor.

15 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo 55% o derfyn uchaf ar y portfolio benthyciadau sy'n aeddfedu o fewn 12 mis. Y sefyllfa bresennol yw y bydd y benthyciadau gydag awdurdodau lleol yn aeddfedu o fewn 12 mis, ac ar sail y portffolio cyfredol mae'r Awdurdod o fewn y terfyn a osodwyd.

**Buddsoddiadau**

16 Er mwyn cynnal cymarebau hylifedd digonol, mae'r Awdurdod yn cadw digon o arian parod i sicrhau ei fod yn gallu talu pob ymrwymiad fel y mae'n ddyledus. Caiff arian ar gyfer hyn ei fuddsoddi am gyfnodau byr o amser.

17 Y prif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf yr Awdurdod ar gyfer buddsoddi yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Ar hyn o bryd, mae unrhyw fuddsoddiadau yn cael eu dal am resymau llif arian, ac mae unrhyw arian parod dros ben yn cael ei ddefnyddio yn lle benthyciadau tymor hir y byddai eu hangen i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

18 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf a ganlyn ar gyfer partïon i gontract:

(1) Y Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys: terfyn £5m

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau): terfyn £2m

(3) Mae sgoriau da (Fitch neu gyfwerth) gan holl fanciau'r DU ac Iwerddon, a'u his-gwmnïau: terfyn £5m
Dyma'r diffiniad ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Tymor Byr | F1 |
| Tymor Hir | A |
| Sgôr Hyfywedd | Bbb |

Os yw sgoriau banciau'n gostwng yn is na'r rhai sydd yn y tabl uchod, bydd y banciau hynny'n cael eu defnyddio os yw adneuon mawr yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, ac os yw'r adneuon yn dod o fewn telerau'r warant.

(4) Mae £2 filiwn o derfyn benthyca gan Gymdeithasau Adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio).

(5) Mae £2 filiwn o derfyn, a 9 mis o gyfyngiad amser ar y mwyaf, gan Gymdeithasau Adeiladu sydd heb sgôr ond sydd ag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy.

19 Caiff yr arian dros ben ei fuddsoddi mewn dau gyfrif galw, sef gyda Barclays a'r Bank of Scotland, sy'n caniatáu mynediad at arian ar unwaith. Dyma'r buddsoddiadau a oedd gennym ar 30 Medi:

| Prifswm £ | Cyfradd % | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|
| 840,000 | 0.05 | Galw | Bank of Scotland |
| 1,800,000 | 0.05 | Galw | Barclays |

**Cyfraddau Llog**

20 Mae'r cyfraddau llog ar y cyfrifon galw wedi gostwng yn unol â'r gostyngiad yn y gyfradd sylfaenol. Mae'r tabl isod yn olrhain y newidiadau yn y cyfraddau llog ers dechrau'r pandemig.

| Cyfrif Galw | 18 Mawrth 2020 % | 31 Mawrth 2020 % | 30 Medi 2020 % |
|---|---|---|---|
| Bank of Scotland | 0.65 | 0 | 0.05 |
| Barclays | 0.45 | 0 | 0.05 |
| Y Gyfradd Sylfaenol | 0.75 | 0.10 | 0.10 |

21 Mae ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, sef Arlingclose, yn rhagweld y bydd y gyfradd sylfaenol yn aros ar 0.10% cyhyd ag y gellir gweld. O ran yr ochr fuddsoddi, mae risg o gyfraddau negyddol sef bydd sefydliadau ariannol yn codi tâl am ddal buddsoddiadau ariannol. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Rheoli Dyledion yn codi -0.03% am arian sy'n cael ei adneuo am gyfnod hyd at 1 wythnos. Yn ffodus, nid oes gofyn i'r Awdurdod ddefnyddio'r Swyddfa Rheoli Dyledion i adneuo arian ar hyn o bryd.

22 Ar yr ochr fenthyca, mae'r Awdurdod mewn sefyllfa fenthyca net, ac mae'n defnyddio benthyciadau byrdymor i ariannu rhan sylweddol o'r rhaglen gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae digon o hylifedd yn y farchnad i adnewyddu benthyciadau byrdymor pan fyddant yn aeddfedu. Oherwydd y gostyngiad yn y gyfradd sylfaenol, mae'r cyfraddau a gynigir yn llawer is na'r cyfraddau yr oeddem yn eu talu ym mis Mawrth. Mae digon o ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y llog sy'n daladwy, ac oherwydd y gostyngiad yn y cyfraddau amcangyfrifir y bydd y sefyllfa alldro yn is na'r gyllideb a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

23 Er mwyn lliniaru rhag risg credyd, risg hylifedd a risg marchnadoedd, mae'r awdurdod yn gwneud y canlynol:

- Dadansoddi llif arian yr awdurdod yn ddyddiol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion benthyca neu fuddsoddi.
- Mae'r ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys (Arlingclose) yn monitro partïon i gontract (sefydliadau yr ydym yn buddsoddi gyda nhw ar hyn o bryd neu y gallem fuddsoddi gyda nhw) yn ddyddiol ynghylch pa mor deilwng ydynt i gael credyd a beth yw'r tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn methu.
- Caiff arian dros ben ei gadw mor isel â phosibl, ac mae'n cael ei gadw ar hyn o bryd mewn cyfrifon galw ar resymau llif arian.
- Mae unrhyw brinder o ran Benthyciadau'r Farchnad (sef benthyca o Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd) yn golygu bod yr Awdurdod yn gallu newid i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus os bydd angen (costau ychwanegol).

**Risgiau eraill**

24 Mae Covid-19 eisoes wedi cael effaith ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen gyfalaf, ac er bod hyn yn cael ei fonitro'n agos mae risg y bydd yr Awdurdod yn gweld rhagor o darfu felly gallai'r gwariant cyfalaf amrywio. Bydd hyn yn cael effaith ar y dangosyddion darbodus. Mae'r wybodaeth a ddefnyddir i lunio'r adroddiad hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ynghyd â'r rhagamcanion sydd ar gael ar hyn o bryd.

25 Mae Brexit yn dal yn ffactor anhysbys, ac er nad oes unrhyw arwyddion y bydd yn effeithio ar y cyfraddau llog a'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys fe allai gael effaith ar gost nwyddau a gwasanaethau, a gallai hynny arian at gostau uwch i'r rhaglen gyfalaf. Mae'r risg yn anhysbys ar hyn o bryd, a bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'r adroddiad yn sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd doeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny'n unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi fethu, gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hwn. |

**Atodiad A**

## DANGOSYDDION DARBODUS

| | | 2020/21<br>£ | 2021/22<br>£ | 2022/23<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Amcangyfrif Gwreiddiol<br>Amcangyfrif Diwygiedig | <br>4,089,000<br>1,013,595 | <br>3,685,000<br>3,386,938 | <br>2,985,000<br>2,647,460 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Diwygiedig | <br>34,464,816<br>30,551,333 | <br>35,563,389<br>31,767,924 | <br>35,780,556<br>32,108,263 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Diwygiedig | <br>36,464,816<br>32,551,333 | <br>37,563,389<br>33,767,924 | <br>37,780,556<br>34,108,263 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Diwygiedig | <br>34,464,816<br>30,551,333 | <br>35,563,389<br>31,767,924 | <br>35,780,556<br>32,108,263 |
| 5 | Cymhareb rhwng y Costau Cyllido a'r Llif Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Diwygiedig | <br>7.89%<br>7.48% | <br>8.63%<br>7.23% | <br>8.99%<br>7.42% |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 18**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard (01745 535286)** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno sefyllfa ragamcanol y gwariant refeniw a chyfalaf, fel yr oedd pethau ar 30 Medi 2020.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw a oedd yn werth £35.9m. Y sefyllfa alldro a ragwelir o hyd yw y bydd yr Awdurdod yn adennill y costau o gymharu â'r gyllideb hon.

3 Ar 16 Rhagfyr 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb gyfalaf a oedd yn werth £4.1m. Oherwydd y cyfyngiadau yn sgil pandemig Covid 19, cafodd hyn ei adolygu a'i newid i £1.0m.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r sefyllfaoedd drafft o ran alldro refeniw a chyfalaf, fel sydd yn yr adroddiad; a
(ii) cymeradwyo'r cais i ailgysoni'r gyllideb.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa alldro drafft y gwariant refeniw a chyfalaf ym mlwyddyn ariannol 2020/21.

**GWYBODAETH**

**Y GYLLIDEB REFENIW**

7 Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa alldro'r refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'n dangos sefyllfa lle adenillir costau o gymharu â'r gyllideb sy'n £35.942m.

| Pennawd yn y gyllideb | Cyllideb<br>£'000 | Amcan-estyniad<br>£'000 | Amrywiad<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 27,182 | 26,387 | -795 |
| Safleoedd | 2,461 | 2,738 | 277 |
| Cludiant | 1,009 | 1,014 | 5 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau a Thaliadau i Drydydd Partïon | 5,025 | 5,895 | 870 |
| Ariannu Cyfalaf | 2,836 | 2,653 | -183 |
| Incwm | -2,571 | -2,745 | -174 |
| **Cyfanswm** | **35,942** | **35,942** | **0** |

**Costau Gweithwyr**

8 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, y gyllideb ar gyfer gwariant yn ymwneud â'r gweithwyr yw £27.18m, sef 76% o'r gwariant gros. Y rhagolwg alldro drafft yw £0.79m o danwariant. Mae hyn yn gysylltiedig â nifer sylweddol o swyddi gwag o ran prentisiaid diffoddwyr tân a phrentisiaid diogelwch tân busnesau, diffoddwyr tân wrth gefn a swyddi cefnogol eraill. Oherwydd pandemig Covid 19, ni fu modd symud ymlaen â'r gwaith recriwtio er bod y swyddi hyn yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion yr Awdurdod.

9 Roedd y broses o osod y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth mai 2% fyddai'r dyfarniadau cyflog i'r holl staff. Cafodd y dyfarniadau cyflog eu pennu'n derfynol yn ystod mis Awst a mis Medi, a'r cytundeb oedd 2.75% i staff Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (llyfr gwyrdd) a 2% i staff diffodd tân (llyfr llwyd). Ar gyfer 2020/21, bu modd talu'r costau ychwanegol drwy wneud arbedion yn ystod y flwyddyn oherwydd swyddi gwag.

**Safleoedd**

10 £2.46m yw'r gyllideb ar gyfer safleoedd, a rhagwelir £0.27m o orwariant. Mae'r prif feysydd gorwariant yn cynnwys ffi am adrethi busnes yn deillio o newid prisiad wedi'i ôl-ddyddio, a chostau yn ymwneud â gwariant ar adeiladau yn gysylltiedig â phandemig Covid 19.

**Cludiant**

11 £1.0m yw'r gwariant amcanol ar gostau'n ymwneud â chludiant, sy'n cyd-fynd yn fras â'r gyllideb. Mae'r gorwariant yn ystod y flwyddyn yn cynnwys costau ychwanegol oherwydd gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â chael teiars newydd, ynghyd â chostau yn deillio o addasiadau angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaeth yn parhau yn ystod pandemig Covid 19.

**Cyflenwadau**

12 £5.89m yw'r gwariant amcanol ar gyflenwadau, sef £0.87m o orwariant o gymharu â'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys costau uwch ar gyfer trwyddedau cyfrifiaduron, cynnal a chadw cyfrifiaduron, yn ogystal â chostau uwch ar brosiectau trawsnewid sy'n cynnwys gweitho ystwyth a lefelau uwch o gyfarpar PPE o ganlyniad i bandemig Covid 19.

**Ariannu Cyfalaf**

13 £2.84m yw'r gyllideb ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys codi ar y refeniw am ddibrisio a hefyd am gost benthyca. Rhagwelir £0.18m o danwariant, sy'n adlewyrchu'r gostyngiadau yn rhaglenni cyfalaf 2019/20 a 2020/21. Mae hyn yn rhagweld y bydd y cyfraddau llog yn aros ar y lefel bresennol.

**Incwm**

14 £2.57m yw'r gyllideb incwm, ac mae £2.21 o'r swm hwnnw yn gysylltiedig ag arian grant. £0.41 yw'r incwm a ragwelir (ac eithrio grantiau), ac mae £0.17 o hwnnw yn gysylltiedig â'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

**Arian Grant Refeniw**

15 Dyma ddadansoddiad o'r arian grant ar gyfer 2020/21.

| **Manylion y Grant** | **Dyraniad £** |
|---|---|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157,170 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 223,300 |
| Y Ffenics | 147,980 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 154,256 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,110,766 |
| Firelink | 415,600 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,209,072** |

**Y Gyllideb Refeniw Ddiwygiedig**

16 Yn ystod y flwyddyn bu'n rhaid adolygu dyraniad y gyllideb dan y penawdau incwm a gwariant. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig. Rhagwelir y bydd angen newidiadau pellach yn ystod y flwyddyn ariannol i adlewyrchu'r heriau parhaus yn sgil pandemig Covid 19.

| Pennawd yn y gyllideb | Gwreiddiol £'000 | Diwygiedig £'000 | Addasiad £'000 |
|---|---:|---:|---:|
| Gweithwyr | 27,657 | 27,182 | -475 |
| Safleoedd | 2,328 | 2,461 | 133 |
| Cludiant | 1,041 | 1,009 | -32 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,450 | 4,564 | 114 |
| Taliadau Trydydd Parti | 425 | 461 | 36 |
| Ariannu Cyfalaf | 2,836 | 2,836 | 0 |
| Incwm | -2,795 | -2,571 | 224 |
| **Cyfanswm** | **35,942** | **35,942** | **0** |

**Y RHAGLEN GYFALAF**

17 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf sy'n werth £4.09m. Oherwydd pandemig Covid 19, bu'n rhaid adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf er mwyn adlewyrchu'r prosiectau y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

18 £1.0m yw'r alldro amcanol ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

| | | 2020/21 £000 | 2020/21 £000 |
|---|---|---:|---:|
| **Adran** | **Disgrifiad** | **Dyraniad Gwreiddiol** | **Dyraniad Diwygiedig** |
| Fflyd | Cerbydau a chyfarpar i gymryd lle rhai eraill | 1,350 | 0 |
| Gweithrediadau | Cyfarpar PPE a chyfarpar yr ochr weithredol | 870 | 785 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio adeiladau | 1,194 | 215 |
| TGCh/Ystafell Reoli | Uwchraddio systemau a gwaith cysylltiol | 674 | 0 |
| | **Dyraniad Cyfalaf Diwygiedig** | **4,088** | **1,000** |

19 Ers i'r rhaglen gael ei diwygio, mae prosiectau ar gyfer gwaith adeiladu a pheiriannau tân wedi cael eu gohirio oherwydd pandemig Covid 19.

20 Cafwyd oedi mewn rhai cynlluniau TGCh oherwydd bod gwaith y tîm TGCh wedi cael ei ailflaenoriaethu er mwyn rheoli'r trawsnewid i weithio o bell. Mae cynlluniau eraill wrthi'n cael eu hadolygu, ac ni ddisgwylir iddynt arwain at gostau cyfalaf yn 2020/21.

21 Rhagwelir y bydd y cynlluniau gohiriedig yn cael eu cwblhau yn 2021/22.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae cyllid i'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd mewn seilwaith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn, a hynny yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod, dan y gyfraith, lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei ganfod yn iawn ac yn cael ei adrodd i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 19**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/24 a Chyllideb ar gyfer 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/24 i'r aelodau, ynghyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2021/22.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) osod cyllideb fantoledig ymhob blwyddyn ariannol, a chadarnhau ffigyrau amcanol ar gyfer cyfraniadau pob awdurdod cyfansoddol, a hynny erbyn diwedd mis Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2021/22, ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/22 – 2023/24. Rhoddir cadarnhad hefyd o'r cyllid sydd ei angen gan bob awdurdod lleol cyfansoddol.

4 Mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22, ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yn cynnwys nifer o ragdybiaethau allweddol, risgiau ac ansicrwydd a ganfuwyd yn y broses o gynllunio'r gyllideb.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:

(i) cymeradwyo'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2021/22, sy'n seiliedig ar £1.13m o gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol;
(ii) nodi'r risgiau allweddol a'r ansicrwydd a ganfuwyd yn y broses o gynllunio'r gyllideb; a
(iii) cefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL**

6 Roedd y sesiwn friffio a gynhaliwyd i'r aelodau ar 12 Hydref 2020 yn darparu golwg gyffredinol ar y gofyniad cyllidebol ar gyfer 2021/22, ynghyd â'r risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â hynny.

**CEFNDIR**

7 Mae Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21 yn cadarnhau amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod, sef:

**Amcan 1**: gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru
**Amcan 2**: parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella eu cadernid
**Amcan 3:** gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
**Amcan 4**: parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
**Amcan 5:** cynnal gweithlu sy'n addas o amrywiol, cadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg
**Amcan 6:** datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd
**Amcan 7:** sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

8 Mae'r Awdurdod yn cael ei gefnogi gan Weithgor Cynllunio sy'n cael ei arwain gan yr aelodau. Cyfarfu'r gweithgor dair gwaith rhwng Ionawr a Mawrth 2020, i ddatblygu argymhellion ar gyfer y Cynllun Gwella a Llesiant a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Argymhellodd y Gweithgor y dylai'r Awdurdod gadw'r modelau sydd ganddo eisoes ar gyfer darparu gwasanaethau, ac y dylai ganolbwyntio ar ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol ac unrhyw newidiadau sy'n deillio i Ymchwiliad Tŵr Grenfell.

9 Mae'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau, gan sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn wrth ymdrin â chynlluniau ariannol a chyllid.

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2021/22**

10 Gwnaethpwyd gwaith cynllunio manwl ar gyfer y gyllideb, a rhoddir amlinelliad yn atodiad 1 o'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau a'r ansicrwydd.

11 Mae'r broses gynllunio wedi cadarnhau £37.07m o ofyniad gwariant net ar gyfer 2021/22, sef cynnydd o 3.16% o'r naill flwyddyn i'r llall. Yn atodiad 2, darperir crynodeb fesul pennawd yn y gyllideb.

12 Mae cynnig y gyllideb ar gyfer 2021/22 yn golygu £1.13m o gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, fel y nodir yn atodiad 4.

13 Costau gweithwyr yw 72% o'r gwariant net, a £26.7m yw'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22, o radybio 2% o ddyfarniad cyflog i'r holl staff. Gan nad yw'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol wedi'u cwblhau'n derfynol eto, mae hyn yn dal yn risg arwyddocaol wrth gynllunio. Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod costau gweithwyr yn cael eu rheoli'n ofalus, gan gynnwys parhau i reoli cyflog sy'n amrywio.

14 Isod, ceir dadansoddiad o'r costau gweithwyr. Mae'n cadarnhau bod mwy nag 87% o'r costau yn ymwneud â gweithwyr sy'n gweithio mewn swyddi sy'n darparu gwasanaethau.

| **Dadansoddiad o'r Gyllideb Staffio** | **2021/22**<br>**£** | **2022/23**<br>**£** | **2023/24**<br>**£** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ymateb | 21,065,146 | 21,471,887 | 21,863,934 |
| Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2,599,341 | 2,707,100 | 2,766,678 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 3,111,124 | 3,198,838 | 3,272,392 |
| **Gofyniad Cyllideb Staffio** | **26,775,611** | **27,377,825** | **27,903,004** |

15 Mae cyfraniadau'r cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cynyddu £0.3m ar ôl derbyn y prisiad actiwaraidd teirblynyddol.

16 Fe wnaeth cyfraniadau pensiwn y diffoddwyr tân gynyddu yn ystod 2019/20, yn dilyn yr ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth yn 2016. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru roi cymorth cychwynnol, ac ni chafwyd penderfyniad terfynol eto ynghylch y sefyllfa fwy hirdymor. Nid yw'r mater o ddarparu cymorth ar gyfer 2021/22 ac ymlaen wedi cael ei gwblhau'n derfynol eto, ac mae hyn yn golygu £1.1m o risg. Ar hyn o bryd, y rhagdybiaeth gyllidebol yw y bydd yr un lefel o gyllid yn dod i law.

17 Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, rhoddwyd ystyriaeth i'r risgiau penodol o fewn pob pennawd yn y gyllideb, gan arwain at £0.16m o gynnydd arfaethedig i £8.65m, a hynny ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau a thaliadau i drydydd partïon. Dyma 2% o gynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall, ac mae'n adlewyrchu'r pwysau anochel o ran costau cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, costau tanwydd a chostau TGCh, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd a chontractau cynnal a chadw. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i reoli costau nad ydynt yn gyflogau, gan gynnwys defnyddio opsiynau caffael Cymru gyfan.

18 Mae’r costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a ffioedd refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Ni ddisgwylir cynnydd yng nghyfraddau llog Banc Lloegr yn ystod 2021/22, ac mae hyn wedi cael ei ffactorio i mewn i’r gyllideb. Mae’r gyllideb cyllido cyfalaf ar gyfer 2021/22 wedi cael ei lleihau, er mwyn adlewyrchu’r gostyngiadau yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

19 Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod cyllideb refeniw 2021/22 yn adlewyrchu’r amgylchedd ansicr yr ydym yn gweithredu o’i fewn ar hyn o bryd oherwydd Covid-19. Gallai hyn olygu bod angen diwygio dyraniadau’r gyllideb rhwng penawdau’r gyllideb er mwyn mynd i’r afael â blaenoriaethau sy’n newid.

**CYNLLUN CYFALAF DRAFFT 2021/22**

20 Rhoddir amlinelliad yn atodiad 3 o’r cynllun cyfalaf drafft, ac mae’n cadarnhau £3.08m o ofyniad cyfalaf ar gyfer 2021/22. Mae prif elfen y cynllun yn ymwneud â’r buddsoddiad hanfodol mewn peiriannau tân newydd.

21 Mae pob cynllun a gafodd eu cynnwys yn y cynllun wedi cael eu hadolygu yng ngoleuni effeithiau Covid 19. Cafodd £0.9m o ofyniad cyfalaf ei gynnwys ar gyfer cynlluniau adeiladu, ac oherwydd y sefyllfa barhaus, a’r newidiadau a ddisgwylir i feddianaeth adeiladau, bydd y gwaith adeiladu yn mynd drwy adolygiad pellach cyn i unrhyw gyllid gael ei ryddhau.

22 Bydd y gwariant cyfalaf yn cael effaith ganlyniadol ar y ffioedd cyllido cyfalaf yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol ac mae hyn wedi’i gynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020/23**

23 Caiff y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei darparu yn atodiad 2, ac mae’n asesiad o’r costau sy’n gysylltiedig â chynnal y lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau. Gwariant yn gysylltiedig â gweithwyr yw’r prif beth sy’n gyrru costau o hyd, ac mae’r strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaeth gynllunio mai 2% fydd y dyraniad cyflog.

24 Yn atodiad 1, ceir amlinelliad o’r risgiau allweddol a’r ansicrwydd sy’n ymwneud â’r Stategaeth Ariannol Tymor Canolig. Y rhagdybiaeth gynllunio gyfredol ar gyfer y Strategaeth yw y bydd yr arian grant ychwanegol ar gyfer prosiect Airwave yn parhau, cynllunir y dyfarniadau cyflog ar sail 2%, a bydd y costau pensiwn ychwanegol sy’n deillio o brisiad Adran Actiwari’r Llywodraeth o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn 2016 yn parhau i gael eu hariannu’n ganolog.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | £1.13m yw'r amcangyfrif presennol o'r cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfraniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer 2021/22. |
| Cyfreithiol | Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Aseswyd risgiau'r gyllideb ddrafft hon, a nodwyd y risgiau allweddol a ganlyn:<br>• mae'r gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaeth mai 2% fydd y dyfarniadau cyflog. Ni ddaethpwyd eto i gytundebau cenedlaethol;<br>• y rhagdybiaeth gynllunio yw y bydd y cymorth gan Lywodraeth Cymru i'r cynnydd ym mhensiynau diffoddwyr tân yn parhau. Os na ddaw'r cymorth, mae £1.1m o risg;<br>• y rhagdybiaeth gynllunio y bydd y £0.4m o gyllid gan Lywodaeth Cymru ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol y gwasanaethau brys (grant Airwave) yn parhau;<br>• mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yn ystod 2021/22. Ni wnaethpwyd asesiad eto o'r costau;<br>• yr ansicrwydd mewn perthynas â Gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi cael eu ffactorio i mewn i gyllideb 2021/22. |

## Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Goblygiadau Covid-19 | Mae goblygiadau pandemig Covid-19 yn bellgyrhaeddol ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, ac maent yn cael eu rheoli'n ofalus yn ddyddiol. Fodd bynnag, wrth i'r sefyllfa barhau i ddatblygu ac esblygu nid oes modd cynllunio, gydag unrhyw sicrwydd, beth fydd y goblygiadau yn y flwyddyn i ddod a'r tu hwnt.<br><br>Oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd, y ffordd sylfaenol o fynd ati i osod y gyllideb yw cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau mewn amgylchedd normal, heb Covid-19. | Mae'r pandemig yn golygu nifer o risgiau:<br>• amrywiadau yn y costau cyflogau oherwydd oedi wrth recriwtio a lefelau uchel o salwch.<br>• Amrywiadau yn y costau nad ydynt yn gyflogau, a'r rheini'n deillio o newidiadau i weithgareddau, neu broblemau gyda chadwyni cyflenwi. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi cael eu llunio ar sail y modelau cyflenwi gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, ac ar sail leflau staffio sefydledig.<br>• Y rhagdybiaeth weithredol gyfredol yw mai 2% fydd y chwyddiant cyflogau.<br>• Ni ragwelir cynnydd yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol.<br>• Rhagdybir y bydd y cynnydd yng nghyfradau cyfraniadau'r cyflogwr o brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth yn 2016 yn parhau i gael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru. | • Nid yw'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ynghylch y dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân ac gyfer y cyfnod 2021/22.<br>• Nid yw'r Cyd-Tbwyllgor Negodi (JNC) ar gyfer Awdurdodau Lleol wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer dyfarniad cyflog 2021/22 eto.<br>• Mae'r broses o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau normal o staffio a pharhau i recriwtio i swyddi gwag. Mae'r broses o recriwtio i swyddi gweithredol yn ddibynnol ar archwiliadau meddygol. Bydd angen asesu rhagor ar y rheini er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â mesurau Covid-19.<br>• Mae'r broses o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau normal o weithgarwch. Os ceir llawer o ddigwyddiadau, bydd pwysau ar y gyllideb ac ymgynghorir â'r aelodau ynghylch yr opsiynau cyllido, gan gynnwys defnyddio'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn.<br>• Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto y bydd parhad yn y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Amcangyfrifir mai £1.1m fydd y costau ar gyfer 2021/22.<br>• Ym mis Rhagfyr 2018, collodd y llywodraeth ei hapêl i'r her gyfreithiol yn ymwneud â'r trefniadau pensiwn trosiannol ar gyfer diffoddwyr tân. Erbyn hyn, mae'r mater wedi dychwelyd at Dribiwnlys Cyflogaeth i gael ei gywiro, a bydd yn gymwys i holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Nid yw'r canlyniad ariannol yn hysbys, ac ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth.<br>• Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r rheoliadau adeiladu a'r cyfrifoldebau cysylltiol. Ni wyddom eto sut gallai'r rhain effeithio ar y sector tân ac achub, ac ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Nid Cyflogau | • Lliniarwyd pwysau costau drwy wneud arbedion yn fewnol. Ceir pwysau costau parhaus, na ellir eu hosgoi, gan gynnwys cyfraddau annomestig cenedlaethol, yswiriant a chyfleustodau. Rhywbeth sydd o bwys arbennig yw'r angen i sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer seiber-ddiogelwch yn y seilweithiau TGCh ar gyfer yr ochr weithredol a'r ochr weinyddol gan fod angen buddsoddiad parhaus ar y rheini, ac angen eu diweddaru. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r costau nad ydynt y gyflogau, a'i fod yn ceisio rheoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn dal yn faes risg oherwydd y pwysau parhaus a ganfuwyd.<br>• Bu oedi yn y gwaith cenedlaethol o gaffael Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys ac mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn. Y rhagdybiaeth yw y bydd y £0.4m o gymorth refeniw cyfredol a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn parhau, er na chafwyd cadarnhad o hyn eto.<br>• Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau'n fater o ansicrwydd ymhob rhan o'r economi. Ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer pwysau o ran costau yn deillio o chwyddiant, cymhwyso tariffau na risgiau o ran cyfraddau cyfnewid. Yn y tymor byr, byddai'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn cael ei defnyddio ond ni fyddai hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir.<br>• Gallai'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol newid y blaenoriaethau ac arwain at wariant ychwanegol mewn nifer o gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Nid oes unrhyw gostau wedi cael eu ffactorio i mewn i'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22. Mae trefniadau'n bodoli i fynnu bod pob datblygiad mewnol newydd yn cynnwys asesiad effaith. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf a Chyllid Cyfalaf | • Roedd yr asesiad cynllunio gwreiddiol ar gyfer 2021/22 yn cynnwys £3.6m o raglen gyfalaf, a £3.2m o ofyniad cyllid cyfalaf. Adolygwyd y ffigyrau hyn oherwydd llithriant yn y cynllun cyfalaf yn 2019/20 a 2020/21.<br>• Mae cynlluniau cyfalaf manwl wrthi'n cael eu datblygu. Maent yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, cefnogi gwelliannau amgylcheddol, a phrosiectau TGCh allweddol. | • Mae mwy o ansicrwydd mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21a 2021/22 oherwydd Covid-19 a'r ffaiyh fod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Gallai hyn arwain at oedi ar gynlluniau, neu at fwy o gostau. Mae pob cynllun yn destun craffu er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi ac yn cael sylw priodol. |
| Incwm | • Adolygwyd y cyllidebau incwm, a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Rhagdybiwyd y bydd yr incwm grantiau ar yr un lefel â 2020/21 (£2.2m), ond mae posibilrwydd y bydd hyn yn lleihau. |

**Atodiad 2 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021/2024 – Refeniw**

| | **Cyllideb 2020/21 £** | **Amcanestyniad 2020/21 £** | **Cyllideb Ddrafft 2021/22 £** | **Rhagolwg 2022/23 £** | **Rhagolwg 2023/24 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyflogau gweithwyr | 25,777,184 | 24,985,383 | 26,775,611 | 27,377,825 | 27,903,004 |
| Costau eraill yn ymwneud â gweithwyr | 1,404,278 | 1,400,864 | 1,336,677 | 1,352,761 | 1,393,202 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr** | **27,181,462** | **26,386,247** | **28,112,288** | **28,730,586** | **29,296,206** |
| Safleoedd | 2,461,226 | 2,737,904 | 2,718,351 | 2,758,828 | 2,757,385 |
| Trafnidiaeth | 1,009,332 | 1,014,072 | 1,009,221 | 1,006,968 | 1,014,500 |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a Thaliadau i Drydydd Partïon | 5,024,604 | 5,895,489 | 4,927,565 | 5,153,718 | 5,264,311 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n Gyflogau** | **8,495,162** | **9,647,465** | **8,655,138** | **8,919,515** | **9,036,197** |
| Ffioedd a Thaliadau/Incwm Amrywiol | -361,718 | -411,058 | -235,356 | -239,849 | -245,380 |
| Incwm Grantiau | -2,209,072 | -2,334,072 | -2,209,072 | -2,209,072 | -2,209,072 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **-2,570,790** | **-2,745,130** | **-2,444,428** | **-2,448,921** | **-2,454,452** |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau Llog | **2,836,020** | **2,653,272** | **2,751,240** | **2,880,700** | **2,965,566** |
| | | | | | |
| **Gofyniad y gyllideb** | **35,941,854** | **35,941,854** | **37,074,237** | **38,081,879** | **38,843,517** |
| **Cynnydd yn y Gyllideb** | | | 3.16% | 2.72% | 2.00% |

**Nodiadau**

Mae costau eraill yn ymwneud â'r gweithwyr yn cynnwys y costau posibl yn gysylltiedig â newidiadau i bensiynau.
Mae ffioedd a thaliadau yn cynnwys incwm Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ac incwm yn gysylltiedig â Chronfa Galedi Covid 19.
Mae incwm grantiau yn cynnwys grant gan Lywodraeth Cymru i'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

**Atodiad 3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021/2024 – Cyfalaf**

| Adran | Disgrifiad | 2020/21 Cynllun Gwreidd-iol £000 | 2020/21 Cynllun Diwygiedig £000 | 2020/21 Alldro a Amcangyfrir £000 | 2021/22 Arfaeth-edig £000 | 2022/23 Arfaeth-edig £000 | 2023/24 Arfaeth-edig £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yst. Reoli/ TGCh | Uwchraddio Systemau/Gweinyddion | 644 | 0 | 0 | 167 | 0 | 0 |
| Cyfleusterau | Adnewyddu adeiladau | 1,194 | 246 | 246 | 888 | 800 | 550 |
| Fflyd | Cael cerbydau a pheiriannu yn lle hen rai | 1,306 | 0 | 0 | 2,028 | 1,776 | 4,626 |
| Gweithred-iadau | Cyfarpar Diogelu Personol | 945 | 785 | 785 | 0 | 0 | 0 |
| **DYRANIAD CYFALAF ARFAETHEDIG** | | **4,089** | **1,031** | **1,031** | **3,083** | **2,576** | **5,176** |

**Atodiad 4 – Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol Cyfansoddol 2021/22**

| Awdurdod | Cyfraniad 2020/2021<br><br>£ | Poblogaeth | Dosraniad<br><br>% | 2021/22 Gofyniad y Cyllideb<br><br>£ | Cynnydd<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,005,505 | 118,001 | 17% | 6,230,520 | 225,015 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,592,944 | 69,879 | 10% | 3,689,651 | 96,707 |
| Cyngor Gwynedd | 6,363,994 | 124,936 | 18% | 6,596,692 | 232,698 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,898,654 | 95,836 | 14% | 5,060,195 | 161,541 |
| Cyngor Sir y Fflint | 7,968,197 | 156,862 | 22% | 8,282,403 | 314,206 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,112,560 | 136,642 | 19% | 7,214,775 | 102,215 |
| **Cyfanswm** | **35,941,854** | **702,156** | **100%** | **37,074,237** | **1,132,383** |

*This document is also available in English* **Eitem ar yr Agenda 20**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Colin Everett, Swyddog Monitro** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett, Swyddog Monitro** |
| Pwnc | **Dyfarniad Cyflog y Prif Swyddogion 2020** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Gofynnir i'r Aelodau nodi a gweithredu'r trefniadau ar gyfer cytuno ar y dyfarniad cyflog i Brif Swyddogion ar gyfer 2020.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cytunir ar y dyfarniadau cyflog blynyddol i Brif Swyddogion Tân gan ddefnyddio trefniadau negodi'r cyrff cenedlaethol canlynol:

i. Y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Rheolwyr Brigâd mewn Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol; a'r
ii. Cydbwyllgor Negodi (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol ar gyfer y Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd.

3 Mae sefyllfa pob corff negodi wedi ei nodi isod:

i. Nid yw'r NJC wedi dod i gytundeb mewn perthynas â'r Prif Swyddog a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol ar gyfer 2020.

ii. Mae cytundeb y JNC yn cadarnhau cynnydd o 2.75% eleni i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd o 1 Ebrill 2020.

**ARGYMHELLIAD**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r trefniadau negodi a chymeradwyo mewn perthynas â dyfarniadau cyflog y Prif Swyddogion;

(ii) cymeradwyo'r dyfarniad cyflog o 2.75% ar gyfer y Prif Swyddogion Cynorthwyol yn weithredol o 1 Ebrill 2020;

(iii) nodi sefyllfa bresennol y NJC mewn perthynas â dyfarniad cyflog y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol ar gyfer 2020; a

(iv) cytuno i dalu'r dyfarniad arfaethedig gyfer y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol unwaith y bydd negodiadau cenedlaethol y Cydgyngor Cenedlaethol wedi dod i ben.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR**

5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Prif swyddogaeth yr NJC a'r JNC yw dod i gytundeb ar fframweithiau cenedlaethol ar gyfer cyflog ac amodau Rheolwyr Brigâd a Phrif Swyddogion yn y Deyrnas Unedig. Yn GTAGC, mae'r term Prif Swyddog yn cyfeirio at swydd y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, y Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd. Mae'r swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân yn wag ar hyn o bryd.

7 Yn dilyn dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, diweddarwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014. Er mai ar gyfer awdurdodau lleol y mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau, mae rhai ohonynt yn berthnasol i awdurdodau tân ac achub.

8 Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth am dalu prif swyddogion. Pwrpas hyn yw sicrhau bod rhaid i unrhyw benderfyniad ynglŷn â thalu prif swyddogion (neu rai i'w penodi'n brif swyddogion) gael eu gwneud gan yr awdurdod llawn, heb y posibilrwydd o'i ddirprwyo i bwyllgor o'r awdurdod.

**CEFNDIR**

9 Y NJC ydi'r corff negodi mewn perthynas â dyfarniad cyflog y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol. Nid yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer y cyfnod Ionawr 2020 ymlaen wedi ei gwblhau'n derfynol ac mae'r trafodaethau'n parhau.

**10** Y JNC ydi'r corff negodi mewn perthynas â dyfarniad cyflog y Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd. Cytunwyd y byddai'r dyfarniad cyflog o 2.75% yn weithredol ar 1 Ebrill 2020 sydd yn gyson â grwpiau staff ledled awdurdodau lleol. Mae copi o'r ddogfen ategol ar gael yn Atodiad A.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer y swyddi sy'n destun y dyfarniad cyflog cenedlaethol hwn. |
| Cyfreithiol | Mae'r argymhellion yn gyson â thelerau ac amodau'r contractau unigol. |
| Staffio | Mae'r argymhellion yn sicrhau cysondeb gyda'r Polisi Tâl a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2020. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Nid oes goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |

Derbyniwyd hwn yn Saesneg yn unig

**Atodiad A**

**Joint Negotiating Committee for Chief Officers of Local Authorities**

**To:** **Chief Executives in England and Wales (N Ireland for information)**
**(copies for the Finance Director and HR Director)**
**Regional Directors**
**Members of the Joint Negotiating Committee**

24 August 2020

Dear Chief Executive,

# CHIEF OFFICERS' PAY AGREEMENT 2020-21

Agreement has now been reached on the pay award applicable from **1 April 2020**.

The individual basic salaries[1] of all officers within scope of the JNC for Chief Officers of Local Authorities should be increased by 2.75 per cent with effect from 1 April 2020 (NB: the percentage increases apply to individual salaries as well as pay points, if applicable).

The JNC has also agreed to conduct a joint survey of all local authorities in order to establish the extent of the gender pay gap among Chief Officers, after which they will agree a joint approach on how to remove any such gender pay gap.

The JNC has further agreed to enter into discussions to agree a new package to improve Chief Officers' work-life balance.

This pay agreement covers the period 1 April 2020 to 31 March 2021.

Yours faithfully,

Naomi Cooke

Karen Leonard

**Joint Secretaries**

cc Mike Short, UNISON

[1] Basic salary should exclude other separately identified payments such as Returning Officer fees etc.


| **Employers' Secretary:** | **Officers' Secretary:** |
|---|---|
| Naomi Cooke | Karen Leonard |
| Local Government Association | GMB |
| 18 Smith Square | Mary Turner House |
| London | 22 Stephenson Way |
| SW1P 3HZ | London NW1 2HD |
| info@local.gov.uk | info@gmb.org.uk |

*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 21**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Colin Everett, Clerc a Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Alwen Davies (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i Aelodau am yr Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r Aelodau ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2020.

2 Yn ddiweddar mae'r Panel wedi cyhoeddi ei adroddiad drafft ar gyfer 2021/22 ac mae'r cynnydd arfaethedig wedi eu nodi yn yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Mae adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r aelodau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau hynny sy'n effeithio aelodau'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol o 1 Ebrill 2020;

(ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2020/21 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Ymestynnwyd cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur bu i'r Panel lunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

**GWYBODAETH**

7 Ar gyfer 2020/21 mae'r Panel wedi penderfynu gwneud cynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau, felly bydd cynnydd i aelodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Mae'r Panel hefyd yn cynnig cynnydd bach ar gyfer 2021/22.

8 Ar gyfer awdurdodau tân ac achub mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

| | Cyflog 2020/21 i ddechrau o 1 Ebrill 2020 | Cyflog arfaethedig 2021/22 yn amodol ar ymgynghoriad i ddechrau o 1 Ebrill 2021 |
|---|---:|---:|
| Cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau cyffredin o ATA | £2,005 | £2,026 |
| Uwch gyflog ar gyfer Cadeirydd ATA | £10,705 | £10,818 |
| Uwch gyflog ar gyfer Dirprwy Gadeirydd yr ATA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | £5,705 | £5,765 |

* gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA lle ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.

9 Yn ychwanegol at yr uchod:

- mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer ATAau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol
- ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan ATA
- telir uwch gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus
- ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo.

10 Mae Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Gadeirydd y Panel Gweithredol hefyd, a gall hawlio un cyflog yn unig. Er mwyn gwahaniaethu rhwng 'prif bwyllgor' a 'phwyllgor arall', argymhellir ei seilio ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir bob blwyddyn. Mae'r Panel Gweithredol yn cwrdd bum gwaith y flwyddyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Felly, argymhellir bod yr Awdurdod yn parhau â'i benderfyniad blaenorol, sef bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei dalu dan y categori "cadeirydd pwyllgor arall".

**Aelodau Annibynnol**

11 Mae'r ffi sy'n cael ei thalu i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn aros yr un fath ar gyfer 2020/21 ac fe gynigir cynnydd ar gyfer 2021/22. Mae'r ffi ddyddiol wedi'i chapio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y gyfradd ganlynol:

| | Cyflog 2020/21 i ddechrau o 1 Ebrill 2020 | Cyflog arfaethedig 2021/22 yn amodol ar ymgynghoriad i ddechrau o 1 Ebrill 2021 |
|---|---|---|
| Cadeirydd Pwyllgor Safonau | £256 ffi dyddiol (£128 hanner diwrnod) | £238 ffi dyddiol (£119 hanner diwrnod) |
| Aelod Annibynnol | £198 ffi dyddiol (£99 hanner diwrnod) | £210 ffi dyddiol (£105 hanner diwrnod) |

**Lwfans Teithio, Cynhaliaeth a Gofal**

12 Ni chafwyd unrhyw newidiadau i lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal, sy'n unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Atgoffir Aelodau bod penderfyniad wedi ei wneud yng nghyfarfod yr ATA ym Mehefin 2018 yn datgan bod modd hawlio cynhaliaeth os yw'r aelodau oddi ffwrdd o gartref am bum awr neu fwy, a hynny yn unol â rheoli Cyllid a Thollau EM.

- **Cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast, lle nad yw'n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos. Rhaid bod i ffwrdd am bum awr neu hwy er mwyn hawlio cynhaliaeth. |

- **Llety**

| | |
|---|---|
| £200 y noson | Llundain |
| £95 y noson | Ardaloedd eraill |
| £30 y noson | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

- Mae'r gyfradd **Milltiroedd** yn aros ar 45c y filltir.

13 Atgoffir yr Aelodau hefyd bod y Panel, er mwyn cefnogi aelodau presennol ac i roi anogaeth ar gyfer amrywiaeth mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o gostau gofal. Rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.

14 Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd y Panel adroddiad atodol am yr Egwyddorion yn ymwneud ag Ad-dalu Costau Gofal. Mae'r adroddiad yn nodi:

"Mae egwyddorion craidd y Panel wedi bod yn nodwedd hanfodol o'i waith ers ei sefydlu ac maent wedi'u cynnwys ym mhob Adroddiad Blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cydnabyddiaeth ariannol

1.3 Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliadau i aelodau o awdurdodau perthnasol sydd â chyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â'r gwaith na pharhau ag ef. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad bod adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n cael eu hariannu o'r taliad. Mae'r Fframwaith yn rhoi taliadau ychwanegol i'r rhai y rhoddir mwy o gyfrifoldeb iddynt.

Amrywiaeth

1.4 Caiff democratiaeth ei chryfhau pan fo aelodaeth o awdurdodau perthnasol yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel wastad yn ystyried pa gyfraniad y gall ei fframwaith ei wneud i annog y rhai a dangynrychiolir yn sylweddol i gyfranogi ar lefel awdurdod lleol. Mae'r Adroddiad Atodol hwn yn adeiladu ar yr egwyddorion craidd hyn ac mae'n ychwanegu egwyddorion sy'n ymwneud â chostau gofal yn benodol. Mae darparu cymorth ariannol i aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal neu anghenion personol yn ffactor bwysig wrth wella a chynnal amrywiaeth ymhlith aelodau. Mae'n hanfodol bod eglurder o ran argaeledd y cymorth hwn a mynediad ato.

Y diben yw: Galluogi holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol i ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol."

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd cynnydd o £225 yn y cyflog sylfaenol blynyddol ar gyfer Aelodau ATAau.<br>Hefyd, bydd cynnydd o £225 yng nghyflog blynyddol y Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Ôl-ddyddir y taliadau hyn i 1 Ebrill 2020. |
| Cyfreithiol | Mae Rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r trefniadau ar gyfer talu Aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn unol â Rheoliadau'r Panel a'r canllawiau sydd yn Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2017/18, rhaid i'r Awdurdod lunio a chynnal Rhestr o Gydnabyddiaethau Aelodau, sy'n rhoi manylion y taliadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn unol â'r lefelau cydnabyddiaeth a lwfansau a benderfynir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol terfynol neu Adroddiadau Atodol. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr a wneir yn ystod blwyddyn y cyngor gael eu cyfleu i'r Panel cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Nid ystyrir bod angen ymdrin ag unrhyw faterion, oherwydd mae'r argymhellion yr un mor gymwys i'r holl Aelodau ni waeth am y nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 22**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **9 Tachwedd 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelod Awdurdod Tân ac Achub i Wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Penodi un aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Gan fod y Cynghorydd Dylan Rees yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, mae'r Pwyllgor Safonau wedi gofyn i aelod arall gael ei enwebu/henwebu er mwyn atal y posiblrwydd o unrhyw wrthdaro buddiannau.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Awdurdod yn penodi un aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Dylan Rees gan ei fod yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod.

**CEFNDIR**

4 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub Bwyllgor Safonau. Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor.

5 O dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, nid yw'r gofynion o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol, a nodir yn Rhan I Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn berthnasol ar gyfer y penodiadau hyn.

**GWYBODAETH**

6 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2020, rhoddodd y Dirprwy Glerc wybod i'r aelodau fod mater wedi dod i'r golwg yn ddiweddar ynghylch aelodau'r Pwyllgor Archwilio; ar wefan yr Awdurdod roedd yn dweud "na all y cynrychiolwyr sydd o blith yr Awdurdod Tân ac Achub fod yn rhai sydd â swydd ar yr Awdurdod". Cydnabyddir na wyddys beth yw tarddiad y penderfyniad hwn, ac nid yw wedi dod o ddeddfwriaeth. Wedi trafod y mater, doedd aelodau

ddim yn ystyried fod cael rhywun sy'n dal swydd ar yr ATA i fod yn aelod o'r Pwyllgor yn broblem mewn gwirionedd ond fe allai'r canfyddiad fod yn wahanol. Felly, penderfynwyd argymell i'r ATA y dylai aelod arall o'r ATA, sydd heb fod yn dal swydd, gymryd lle'r Cyng. Dylan Rees, sydd bellach yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod.

7 Gellir penodi unrhyw aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, ar wahân i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |